Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adolygiad o Reoleiddio a Chofrestru Proffesiynol Gydag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/2017

HC 89
SG/2017/83

professional standards authority

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adolygiad o Reoleiddio Proffesiynol a Chofrestriad ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/2017

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 16 (2) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gorchymynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 28 Mehefin 2017.

professional standards authority

HC 89
SG/2017/83

© Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2017

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, pan fyddant yn bresennol, Arfbeisiau Brenhinol a holl logos adrannau neu asiantaethau) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a nas defnyddir ef mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol a nodi teitl y ddogfen. Pan fydd deunydd gan bartïon eraill wedi ei ddynodi, rhaid cael caniatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad ar gael ar www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:
Awdurdod Safonau Proffesiynol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

ISBN Print 9781474145596

ISBN y We 9781474145602

ID 24051709 06/17

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%.

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

Rhagair 1

Adolygiad o Reoleiddio a Chofrestru Proffesiynol

1. Cyflwyniad 3
2. Adolygu'r rheolyddion 7
3. Diogelu'r cyhoedd – addasrwydd i ymarfer 16
4. Cofrestrau achrededig – hyder, dewis ac amddiffyn 23
5. Casgliadau 30

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/2017

1. Adroddiad perfformiad 33
2. Adroddiad Atebolrwydd 51
3. Adroddiad tâl ariannol a staff 63
4. Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwilio 72
5. Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon 75
6. Datganiadau ariannol – sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2017 78
7. Datganiadau ariannol – gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 79
8. Datganiadau ariannol – llif arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 80
9. Datganiadau ariannol – newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 81
10. Nodiadau i'r cyfrifon 82

Rhagair

Yn y flwyddyn ddiwethaf cafwyd datblygiadau arwyddocaol ar gyfer yr Awdurdod wrth i ni gwblhau gweithrediad ein trefniadau ariannol newydd, gyfnerthu ein hannibyniaeth fel y rhagwelwyd yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, adolygu ein proses adolygu perfformiad, ehangu'r rhaglen Cofrestrau Achrededig a chyhoeddi cyfraniad pwysig i bolisi rheoleiddio, *Regulation rethought*.

Rydym hefyd wedi gweld newidiadau arwyddocaol i'n Bwrdd. Yn Rhagfyr 2016, fe ffarweliom â thri aelod sydd wedi bod gyda ni ers cryn amser; Andrew Hind, cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Jayne Scott a Stuart McDonnell. Roeddynt i gyd wedi gwasanaethu am gyfnod llawn o wyth mlynedd ac wedi chwarae rôl bwysig wrth sefydlu'r Awdurdod. Mae'n dda gen i gael croesawu Frances Done fel aelod o'r Bwrdd ac yn gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, ynghyd â Tom Frawley a Moi Ali, o Ogledd Iwerddon a'r Alban, yn y drefn honno.

Cawsom hefyd newidiadau yn ein cyfarwyddiaethau. Ymunodd Mark Stobbs â ni o Gymdeithas y Gyfraith fel Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd, gan gymryd lle Rosalyn Hayles. Ymddeolodd Linda Allen, ein Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau, wedi hir-wasanaeth gyda John McDermott yn cymryd ei lle, wrth ymuno â ni o Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol.

Rydym yn parhau i fod yn obeithiol ynghylch beth mae pawb nawr yn cytuno yw'r diwygiad angenrheidiol o reoleiddio proffesiynol i fodloni anghenion gweithlu iechyd a gofal modern. Rydym hefyd yn rhwystredig gyda chynnydd araf y llywodraeth. Mae cynlluniau ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar ddiwygio, yn seiliedig i raddau helaeth ar ein gwaith polisi, wedi eu gohirio a bydd amser seneddol ar gyfer y ddeddfwriaeth angenrheidiol yn brin o ystyried galwadau gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn wir, mae'r effaith ar y gweithlu iechyd a gofal o derfynu symudiad rhydd llafur yn debygol o fod yn sylweddol sy'n gwneud diwygio rheoleiddiol i greu hyblygrwydd yn hyd yn oed mwy angenrheidiol.

Mae ein hymagwedd cyffyrddiad cywir diwygiedig i adolygu perfformiad y rheolyddion wedi ei sefydlu'n llwyddiannus. Mae wedi ein galluogi i ffocysu ar feysydd penodol o'u perfformiad a lleihau'r baich arnynt. Rydym wedi dechrau'r broses o adolygu'r *Safonau Rheoleiddio Da* i'w gwneud yn gyfredol a byddwn yn ymgynghori'n helaeth yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig yn tyfu mewn maint ac effaith. Mae 23 o gofrestrau wedi eu hachredu, yn cwmpasu 80,000 o ymarferwyr mewn 30 o alwedigaethau. Mae'r rhaglen wedi cael trafferth cael y tâl mae'n haeddu ar y cyd â'r cofrestrau, a heb hyn ni ellir cyflawni'r buddion llawn o ran rhoi dewis ac amddiffyniad i ddefnyddwyr. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Adran Iechyd i gyflawni cynaliadwyedd ariannol ac i wella cydnabyddiaeth o werth yr ymagwedd gymesur a chost effeithiol hon i reoleiddio.

Rwy'n edrych yn ôl ar fy mlwyddyn lawn gyntaf fel Cadeirydd gan wybod bod ein perfformiad ein hunain yn un cryf, bod ein sylfaen ariannol yn sicr a bod ein henw da yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol yn parhau i dyfu. Mae hyn yn sylfaen dda i wynebu'r heriau sydd i ddod.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n ddwy ran: mae'r cyntaf yn drosolwg o reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal a gwaith y rheolyddion a chofrestrau achrededig; a'r ail yw'r adroddiad blynyddol a chyfrifon yr Awdurdod ei hun.

George R Jenkins OBE
Cadeirydd

Adolygiad o Reoleiddio a Chofrestru Proffesiynol

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ein barn o reoleiddio a chofrestru pobl yn gweithio mewn iechyd a gofal yn y Deyrnas Unedig yn 2016/17. Mae'n cyflawni ein dyletswydd gyfreithiol i hysbysu'r Senedd pob blwyddyn ar ba mor effeithiol mae rheoleiddio a chofrestru wrth ddiogelu'r cyhoedd. Mae ein harsylwadau yn galw ar dystiolaeth o adolygiadau perfformiad, archwiliadau, polisi ac ymchwil. Rydym hefyd wedi nodi barnau pobl eraill sydd wedi cysylltu â ni ynghylch y rheolyddion a chofrestrau achrededig neu sydd wedi ymateb i'n hymgynghoriadau ac wedi gwneud defnydd o ffynonellau a gyhoeddwyd ar y rheolyddion a chofrestrau yn ogystal ag eraill.

1.2 Dyma'r ail adolygiad o reoleiddio proffesiynol a chofrestru ar y ffurf hon. Mae'n rhoi cyfle i ni, mewn un adroddiad, fanylu ar themâu cyffredinol yn deillio o'n trosolwg o'r naw rheolydd proffesiynol a'r 23 o gofrestrau achrededig yn ogystal â rhoi cipolwg ar ein gwaith mewn ymchwil a pholisi rheoleiddio. Yma rydym yn cynnig ein barnau i'r Senedd ar ba mor dda mae'r fframwaith reoleiddio yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd, cynnal safonau a chynnal hyder y cyhoedd. Rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiadau ar wahân ar y naw rheolydd.

1.3 Mae model rheoleiddio proffesiynol y Deyrnas Unedig wedi ei barchu'n eang. Ystyrir yr Awdurdod ei hun i fod yn arweinydd ar syniadaeth a datblygiad rheoleiddio yn rhyngwladol. Yn ogystal â chynghori ein llywodraeth yn y Deyrnas Unedig, rydym wedi cael galwadau am gyngor ac arbenigedd gan lywodraethau a rheolyddion yn Awstralia, Canada, Iwerddon, Hong Kong a Seland Newydd. Wrth gwrs, mae ein profiad wedi ehangu ein hamlygiad a'n dealltwriaeth o reoleiddio effeithiol. Felly mae'n drueni gennym orfod mynegi elfen o bryder ynghylch parhad cadernid y fframwaith reoleiddio yn y Deyrnas Unedig.

Diwygio rheoleiddio

1.4 Fel yr ydym yn sefydlu mewn manylder yn ein hadroddiadau, *Rethinking regulation*, a *Regulation rethought*, mae'r Deyrnas Unedig yn gweithredu fframwaith reoleiddio broffesiynol sydd wedi dyddio ac sydd angen ei ddiwygio er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol ac i'w alluogi i ymateb i anghenion gweithlu newidiol. Mae tri pheth yn ysgogi'r angen am newid. Yn gyntaf, fel yr argymhellodd Comisiynau'r Gyfraith , mae angen newid i ddiddymu deddfwriaeth gyfyngol a datgymalog sy'n rhwystro amddiffyn y cyhoedd. Yn ail, nid yw'n cyd-fynd ag anghenion system iechyd a gofal gyfoes, sy'n gofyn am hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer arloesi. Yn drydydd, mae ein dealltwriaeth o'r rhesymau dros gamymddygiad ac anghymhwyster wedi symud ymlaen i'r fath raddau fel bod system sy'n seiliedig ar ganfod a chael gwared ar ‘unigolion drwg’ yn annigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

1.5 Mae i ba raddau mae rheoleiddio proffesiynol yn gynwysedig mewn deddfwriaeth sylfaenol ar draws nifer fawr o Ddeddfau yn gwneud diwygio yn beth cymhleth ac araf pan fod angen iddo fod yn ystwyth i gadw trywydd gyda'r newidiadau helaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y Deyrnas Unedig, mae dwy ymgais i ddiwygio rheoleiddio wedi methu yn y pum mlynedd diwethaf ac mae trydydd mewn perygl. Yn y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd nifer o newidiadau graddol i ddeddfwriaeth rheolyddion unigol sy'n arddangos yr anfantais o wneud newidiadau bob yn dipyn. Mae cwblhau cydsyniol yn enghraifft dda o ble mae diffyg diwygio yn llesteirio arloesi. Mae'r rheolyddion yn ceisio gwella'r hyblygrwydd a chyflymder ar gyfer delio

â chwynion trwy gwblhau achosion trwy gydsyniad ble fo'n bosibl. Er ein bod yn cefnogi arloesedd o'r fath o ran egwyddor, ni all rheolyddion fynd y tu hwnt i gyfyngiadau eu deddfwriaeth gyfredol ac felly rydym yn parhau i fynegi pryderon ynghylch tryloywder a chysondeb wrth weithredu.

1.6 Er gwaethaf yr angen brys am newid deddfwriaethol, gellir gwneud mwy o fewn y fframwaith cyfredol. Rydym wedi gweld ymdrech wirioneddol ar ran y rheolyddion i rannu gwybodaeth, gwella tryloywder, ac i gasglu a dysgu o ddata. Mae nifer o'r rheolyddion proffesiynol nawr yn troi eu sylw i'r dyfodol, yn chwilio am ffyrdd i atal neu leihau cyfleoedd i niweidio yn hytrach na dim ond ymyrryd wedi i niwed ddigwydd.

Polisi rheoleiddio

1.7 Mae angen i bolisi'r llywodraeth fod yn gydlynol a chyson er mwyn i'r system reoleiddio weithredu gyda sicrwydd. Rydym wedi nodi nifer o benderfyniadau polisi a gweithredoedd yr ystyriwn i fod yn anghyson. Er enghraifft, bwriad cyffredinol i ddadreoleiddio ar un llaw ac ail-greu rheolydd ar wahân ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, gan fynd â'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwaith cymdeithasol oddi ar y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ddim ond bum mlynedd wedi dirwyn y cyn Gyngor Cyffredinol Gofal Cymdeithasol i ben. Felly hefyd y penderfyniad i reoleiddio nyrsys cyswllt gyda'i gostau perthynol, sydd wedi digwydd yn absenoldeb diffiniad priodol o'r rôl, asesiad o'r risgiau a graddau'r sicrwydd sydd angen i'w rheoli. Mae'r pwyslais ar dryloywder a gweithredu Dyletswydd Gonestrwydd wedi ein drysu, o'i ystyried yn erbyn creu ymholiadau cyfrinachol gan y Gangen Ymchwiliadau Diogelwch Gofal Iechyd newydd.

1.8 Rydym hefyd wedi nodi cyfleoedd a gollwyd i'r llywodraeth wneud y defnydd gorau o'i bolisi ar gofrestrau achrededig. Mae llwyddiant hirdymor y rhaglen yn ddibynnol ar hyrwyddiad cyson. Heb gefnogaeth gan lywodraeth a chyrff allweddol fel NHS England ac eraill yng Nghymru, gogledd Iwerddon a'r Alban i sicrhau bod y rhaglen yn weladwy ac yn rhan o gynlluniau iechyd a gofal, bydd ei allu i ddiogelu'r cyhoedd yn gyfyngedig ac nid yw gwerth ac ymroddiad y cofrestrau a chofrestryddion hyn i gynnal safonau yn cael ei gydnabod.

1.9 Yn ein hadroddiad diwethaf, fe adroddom ein pryder bod y Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi cael hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol yn gyfochrog â'n hawl ni. Fel y rhagwelom, mae hyn yn ychwanegu cymhlethdod ac yn cynyddu costau heb unrhyw arwydd pendant ei fod yn gwella amddiffyn y cyhoedd.

Rheoleiddio seiliedig ar dystiolaeth

1.10 Cafwyd cynnydd rhagorol ym maes ymchwil a syniadau rheoleiddiol. Ers ein hadolygiad llenyddiaeth yn 2010, a amlygodd absenoldeb sylfaen tystiolaeth ar gyfer rheoleiddio, mae'r Awdurdod a'r rheolyddion wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau academaidd ac ymchwilwyr i daclo'r diffyg. Ehangodd ein fersiwn diwygiedig o *Right-touch regulation* (2015) ein dealltwriaeth o beryglon, risgiau a niweidiau gan ein harwain i ddatblygu methodoleg sicrwydd newydd ar gyfer asesu

a sicrhau risg galwedigaethol o niwed.[1] Mae cydnabyddiaeth bod rheolyddion yn un rhan o'r system diogelwch cleifion ac y gall ffactorau eraill, megis dylanwad cyfoedion, gael mwy o effaith ar safonau proffesiynol, yn arwain rheolyddion i arfer eu grym rheoleiddiol trwy weithio mewn partneriaeth a thrwy gydweithredu. Er enghraifft, y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), NHS Education for Scotland a Choleg Brenhinol y Meddygon a Llawfeddygon yn cydweithio i gefnogi datblygiad proffesiynol meddygon. Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) yn gweithio gyda'r GMC, y Comisiwn Ansawdd Gofal a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd i gydweithio i daclo'r risgiau i ddiogelwch cleifion o ddatblygiadau mewn gwasanaethau meddygol sylfaenol ar-lein.

1.11 Mae datblygiadau eraill mewn syniadau yn cynnwys y cysyniad o *'reoleiddio perthynol'*, yn codi o ymchwil ar gyfer y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) a defnydd o *'lefydd ffurfiannol'* ymysg cyfoedion i annog myfyrdod ac atal niwed.[2] Pan fydd cofrestryddion yn gallu gweld bod rheoleiddio yn berthnasol ac yn gysylltiedig i'w hymarfer, maent yn fwy tebygol o ddilyn ei safonau.

1.12 Rydym yn sicrhau cynnydd ar wella dealltwriaeth o'r cydadwaith rhwng ymarfer unigolion ac effaith yr amgylchedd iechyd a gofal maent yn gweithio ynddo. Denodd ein cynhadledd academaidd eleni, *Building trust in people and places*, 100 o bobl, i glywed 25 cyflwyniad ar amrediad o raglenni ymchwil. Cynrychiolwyr dwy ar bymtheg o ganolfannau academaidd, ac 16 o reolyddion. Bu papurau ymchwil yn ymestyn gwybodaeth am anonestrwydd, hunaniaeth broffesiynol, effeithiau dileu a gwaharddiadau. Mae casgliadau ymchwil ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan a rhai'r rheolyddion a oruchwylir gennym.

Rheoleiddio mewn cyfnodau o newid

1.13 Mae arloesi yn darparu cyfleoedd, ond hefyd yn cyflwyno heriau newydd i reolyddion. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau technegol mewn dyfeisiau, fel y rhai mewn ymarfer optegol a datblygiadau ar-lein. Mae hefyd yn cynnwys newidiadau i systemau cyflawni iechyd a gofal a newidiadau i weithluoedd. Gall newidiadau i'r modd mae cyflogwyr yn lleoli gweithwyr iechyd a gofal neu gyflwyno rolau neu lwybrau hyfforddi newydd effeithio ar gwmpasau ymarfer proffesiynol, a sicrwydd ansawdd addysg a hyfforddiant.

Gweithio rhwng pedair gwlad

1.14 Mae pedair llywodraeth y Deyrnas unedig wedi datgan eu cefnogaeth ar gyfer rheoleiddio ledled y Deyrnas Unedig yn gyson er bod rheoleiddio galwedigaethau newydd wedi ei ddatganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r rheolyddion yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig, ac fe'i delir yn atebol am eu perfformiad gan y Pwyllgor Dethol ar Iechyd yr ydym yn cyflwyno ein hadolygiadau perfformiad unigol a'r adroddiad trosolwg hwn iddynt. Er gwaethaf y gwahaniaeth cynyddol rhwng strwythurau iechyd a gofal cymdeithasol a systemau cyflawni yn y pedair

[1] Awdurdod Safonau Proffesiynol, 2016. *Right-touch assurance*. Ar gael o: www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/right-touch-assurance---a-methodology-for-assessing-and-assuring-occupational-risk-of-harm.pdf

[2] Yr Athro Gerry McGivern, Dr Michael Fischer, Dr Tomas Palaima, Zoey Spendlove, Dr Oliver Thomson, a'r Athro Justin Waring, 2015. *Exploring and explaining the dynamics of osteopathic regulation, professionalism and compliance with standards in practice*.

awdurdodaeth, mae rheoleiddio proffesiynol wedi gweithredu'n effeithiol a chyson ar eu traws.

1.15 Bydd angen rhoi sylw i'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae rheolyddion wedi ystyried yr angen i feddwl am gryfhau atebolrwydd rheolyddion i'r pedair llywodraeth. Nid yw penderfyniad yr Adran Iechyd yn Lloegr i reoleiddio nyrsys cyswllt wedi ei gytuno rhwng y pedair gwlad i gyd eto. Rhagwelwn newidiadau pellach o ran cynnal y dull rheoleiddio ledled y Deyrnas Unedig mewn perthnasau newidiol o fewn y Deyrnas Unedig a gydag Ewrop. Mae Gweithwyr Cymdeithasol eisoes wedi eu rheoleiddio ar wahân gan bedwar rheolydd yn y Deyrnas Unedig.

2. Adolygu'r rheolyddion

2.1 Rydym yn asesu perfformiad rheolyddion yn erbyn ein *Safonau Rheoleiddio Da*. Mae yna gyfanswm o 24 o Safon wedi eu rhestru dan bedwar pennawd gwahanol: Canllaw a Safonau, Addysg a Hyfforddiant, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer. Mae adolygiadau unigol pob rheolydd wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan.[3] Yn yr adroddiad hwn, rydym yn edrych ar themâu penodol yn deillio o'r adroddiadau hynny ac yn cofnodi rhywfaint o waith nodedig gan y rheolyddion.

2.2 Dyma oedd y flwyddyn gyntaf ble gwnaethom fabwysiadu ein proses ddiwygiedig ar gyfer adolygu perfformiad. Ar y cyfan, mae'r GMC, y GPhC, y GOsC a Chymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) wedi bodloni pob un o'r Safonau; y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (GCC) a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) wedi bodloni 23 ohonynt; y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) wedi bodloni 22; a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) wedi bodloni 21. Ni chynhaliodd yr Awdurdod adolygiad tebyg yn 2015/16 oherwydd ei fod yn cyflwyno'r broses newydd.

2.3 Mae'r broses ddiwygiedig[4] wedi gweithio'n dda, gan ein galluogi i gasglu a defnyddio data ystadegol gan y rheolyddion sy'n ein galluogi i gyflawni asesiad cychwynnol o berfformiad. Rydym yn casglu data yn chwarterol sy'n ein galluogi i nodi tueddiadau dros amser. Yn ei flwyddyn gyntaf, mae wedi ein helpu i dreiddio i lawr i feysydd penodol o berfformiad y rheolyddion ac i gael gwell dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau. Mae'r adborth a dderbyniom gan y rheolyddion wedi bod yn gyffredinol bositif, ac mae'n glir bod y broses wedi bod yn dipyn llai o faich arnynt na dan y broses flaenoro.

2.4 Fe nodom wyth eitem o wybodaeth ystadegol oedd, yn ein barn ni, yn gymaryddion allweddol ar draws y Safonau Rheoleiddio Da, gan ddweud y byddem yn adrodd yn rheolaidd ar yr eitemau hyn. Isod ceir tabl yn cyflwyno'r data y mae pob un o'r rheolyddion iechyd a gofal wedi ei ddarparu i ni ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2016-31 Mawrth 2017. Nid yw'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gennym.

[3] www.professionalstandards.org.uk/publications/performance-reviews
[4] Awdurdod Safonau Proffesiynol, 2017. *Performance Review Process*. Ar gael o: www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/performance-reviews/performance-review-process.pdf?sfvrsn=10

Data ar gyfer 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017	GCC	GDC	GMC	GOC	GOsC	GPhC	HCPC	NMC	PSNI
Nifer o gofrestryddion	3,195	109,307	281,034	29,572 (yn cynnwys 2,557 sefydliad corfforaethol a 5,336 o fyfyrwyr)	5,253	91,688 (yn cynnwys 14,403 eiddo)	350,330	690,773	3,112 (yn cynnwys 549 eiddo a 184 o fyfyrwyr)
Nifer o geisiadau cofrestru cychwynnol newydd a dderbyniwyd	163	8,360	14,221	981	276	4,551	22,079	28,932	193
Nifer o apeliadau cofrestru a gwblhawyd ble na chyflwynwyd gwybodaeth newydd, ac a ategwyd	Amh[5]	Amh[6]	Amh[7]	Amh[8]	Amh[9]	0	6	Amh[10]	Amh[11]
Canolrif amser (mewn dyddiau) a gymerwyd i broses ceisiadau cofrestru cychwynnol ar gyfer:									
• **Graddedigion y Deyrnas Unedig**	1	11	1	4	2	18 — Fferyllydd 9 — Technegydd Fferyllfa	5	1	1
• **Graddedigion Rhyngwladol nad ydynt o'r UE**	1	55	17	2	66	18 — Fferyllydd Amh — Technegydd Fferyllfa[12]	41	2	Amh[13]
• **Graddedigion yr UE**	1	18	31	5	36	4 — Fferyllydd 6 — Technegydd Fferyllfa	38	13	Amh[14]
Ffi dargadw flynyddol	£800	£890 deintyddion £116 Gweithwyr gofal deintyddol	£425	£320 (£220 ar gyfer incwm is)	£320 (blwyddyn 1) £430 (blwyddyn 2) £570 (blwyddyn 3 ymlaen)	£250 — Fferyllydd £118 — Technegydd Fferyllfa	£90, mae cofrestryddion yn talu £180 am ddwy flynedd	£120	£398

[5] Ni dderbyniodd y GCC unrhyw apeliadau cofrestru ble na ddarparwyd unrhyw wybodaeth newydd yn 2016/17.
[6] Ni dderbyniodd y GDC unrhyw apeliadau cofrestru ble na ddarparwyd unrhyw wybodaeth newydd yn 2016/17.
[7] Nid yw'r GMC yn casglu'r data yma ar hyn o bryd.
[8] Ni dderbyniodd y GOC unrhyw apeliadau cofrestru ble na ddarparwyd unrhyw wybodaeth newydd yn 2016/17.
[9] Ni dderbyniodd y GOsC unrhyw apeliadau cofrestru yn 2016/17.
[10] Ni dderbyniodd yr NMC unrhyw apeliadau cofrestru ble na ddarparwyd unrhyw wybodaeth newydd yn 2016/17.
[11] Ni dderbyniodd y PSNI unrhyw apeliadau cofrestru yn 2016/17.
[12] Ni dderbyniodd y GPhC unrhyw geisiadau Technegydd Fferyllfa gan raddedigion Rhyngwladol o'r tu allan i'r UE yn 2016/17.
[13] Ni dderbyniodd y PSNI unrhyw geisiadau gan raddedigion Rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE) yn 2016/17.
[14] Ni dderbyniodd y PSNI unrhyw geisiadau gan raddedigion o'r UE yn 2016/17.

	GCC	GDC	GMC	GOC	GOsC	GPhC	HCPC	NMC	PSNI
Amser o dderbyn cwyn cyntaf (mewn wythnosau) i benderfyniad y pwyllgor archwilio terfynol neu arolygydd achos									
• **Canolrif amser i ddod i gasgliad**	35	41	37.1	39	17	52.4	34	51	15
• **Achos hiraf i ddod i gasgliad**	157	314	391.1	139	108	285	285	401	22
• **Achos cyflymaf i ddod i gasgliad**	4	7	0.7	6	4	7	7	7	12
Amser o dderbyn cwyn cyntaf (mewn wythnosau) i benderfyniad addasrwydd i ymarfer terfynol:									
• **Canolrif amser i ddod i gasgliad**	64	90	106.6	121	54	93.7	97	87	34
• **Achos hiraf i ddod i gasgliad**	82	367	423.6	517	98	225.7	296	395	34
• **Achos cyflymaf i ddod i gasgliad**	28	33	18	54	19	20.3	12	25	34[15]
Yr amser canolrif (mewn wythnosau) o dderbyn cwyn i benderfyniad gorchymyn dros dro, ac o dderbyn gwybodaeth yn dynodi angen am orchymyn dros dro i benderfyniad gorchymyn dros dro:									
• **Derbyn cwyn**	8	19	10	13	7	13.3	18.9	26	3
• **Derbyn gwybodaeth**	4	3	2.29	3	4	2	2.9	Amh[16]	3
Nifer o apeliadau unigolion cofrestredig/Awdurdod yn erbyn penderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer:									
• **Apeliadau unigolion cofrestredig**	0	1	27	1	0	3	3	29	0
• **Apeliadau gan yr Awdurdod**	0	0	2 apêl gan yr Awdurdod a 2 hysbysiad o ddiddordeb gan yr Awdurdod ar apeliadau GMC[17]	0	0	0	2	9	0
Nifer o doriadau data a adroddir i'r Comisiynydd Gwybodaeth	0	3	1	1	0	0	0	0	0
Nifer o geisiadau adolygiadau barnwrol llwyddiannus	0	1	2	0	0	0	0	0	0

[15] Mae'r ffigurau canolrif, byrraf a hiraf ar gyfer PSNI yn ymwneud ag un achos a gyfeiriwyd at wrandawiad addasrwydd i ymarfer

[16] Nid yw'r NMC yn casglu'r data yma ar hyn o bryd

[17] Mae gan y GMC hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan ei gangen dyfarnu (y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Ymarferwyr Meddygol). Ymunodd y PSA â dwy apêl gan y GMC fel parti cyfrannog.

2.5 Mae amrywiaethau yn y data perfformiad ystadegol ar gyfer y gwahanol reolyddion yn adlewyrchu maint eu cofrestrau, eu cyfyngiadau deddfwriaethol a'r gwahanol amgylcheddau maent yn gweithio ynddynt. Er enghraifft, mae gan reolyddion wahanol reolau statudol yn llywodraethu eu prosesau a gallai hyn effeithio ar faint o amser mae'n ei gymryd i ddelio gydag achosion unigol. Rydym yn cydnabod y gall rheolyddion gyda llwyth achosion llai ganfod bod eu perfformiad cyffredinol wedi ei sgiwio gan ambell i achos hir na ellir eu hosgoi neu hyd yn oed rai byr iawn. Mae hyn yn rheswm pam nad ydym yn defnyddio data ystadegol yn unig i helpu ein dealltwriaeth o berfformiad.

Cyflawniad yn erbyn y Safonau Rheoleiddio Da

2.6 Trafodom berfformiad pob rheolydd yn erbyn y Safonau yn eu hadroddiadau adolygiad perfformiad unigol.[18] Yma rydym yn nodi rhai o'r penawdau a themâu mwyaf arwyddocaol sydd wedi codi yn ystod y cylch hwn.

Safonau a chanllaw

2.7 Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â chyfrifoldeb y rheolyddion i gyhoeddi a hyrwyddo safonau cymhwyster ac ymddygiad ar gyfer cofrestryddion.

2.8 Bodlonodd pob un o'r rheolyddion y Safonau yn y maes hwn. Mae pob un wedi cynhyrchu safonau a chanllawiau wedi eu diweddaru neu adolygu i gofrestryddion ac mae nifer o'r rheolyddion yn cyflawni adolygiad mwy sylweddol o'u safonau neu godau ymddygiad ar gyfer cofrestru.

2.9 Cyflawnwyd un darn penodol o waith yn delio â rhai pryderon clir am broffesiwn penodol gan y GOsC parthed hysbysebion camarweiniol gan osteopathiaid. Mae hyn yn fater sydd wedi achosi anawsterau i'r Cyngor ac mae'n amlwg yn fater pwysig o ran amddiffyn y cyhoedd. Mae'r GOsC nawr wedi cytuno ar ganllaw ar y cyd gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu a'r Pwyllgor Ymarfer Hysbysebu wedi ei anelu at sicrhau bod hysbysebion cofrestryddion y GOsC yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol am y gwasanaethau osteopathig a gynigir a buddion posibl triniaeth osteopathig yn unig. Ystyriom fod hyn yn enghraifft dda o gydweithio.

2.10 Yn Hydref 2015, cynhyrchodd yr NMC bolisi newydd ar ofynion yn ymwneud â chymhwyster Saesneg ar gyfer nyrsys a bydwragedd wedi eu hyfforddi yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yn dilyn adolygiad o'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Gydnabyddiaeth Gilyddol o Gymwysterau Proffesiynol. Mae'r polisi newydd yn sefydlu isafswm safon cymhwyster Saesneg sy'n ofynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd cofrestredig i ymarfer yn ddiogel ac effeithiol.

2.11 Yn eu gwaith yn y maes hwn, mae'r holl reolyddion wedi cyflawni gwaith ymgynghori ac ymgysylltu priodol gyda rhanddeiliaid a gwneud diwygiadau i'w cynigion ble fo'n briodol. Ein hargraff o'r dystiolaeth yw bod y rheolyddion yn ystyried eu rhwymedigaethau i ymgynghori o ddifri ac fe groesawn hyn.

Addysg a hyfforddiant

2.12 Mae'r Safonau hyn yn edrych ar rôl y rheolyddion i sicrhau bod myfyrwyr a hyfforddeion yn derbyn y sgiliau a gwybodaeth ofynnol i fod yn ddiogel ac effeithiol.

[18] www.professionalstandards.org.uk/publications/performance-reviews

Bodlonodd pob un o'r rheolyddion bob un o'r Safonau hyn yn ystod y cylch hwn o'r adolygiad perfformiad.

2.13 O ddiddordeb arbennig fu gwaith y GMC a'r GPhC i geisio deall y gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol. Yng Ngorffennaf 2016, cyhoeddodd y GMC ei ddata blynyddol ar gynnydd meddygon trwy gamau allweddol a awgrymai bod graddedigion meddygol gwyn yn y Deyrnas Unedig yn dal yn fwy tebygol o basio arholiadau arbenigol na'u cyfoedion BME, tra bod meddygon a sicrhaodd eu cymhwyster sylfaenol tu allan i'r Deyrnas Unedig neu'r AEE hyd yn oed yn llai tebygol o wneud yn dda mewn arholiadau neu recriwtio. Cyhoeddodd y GMC yr adroddiad *Fair training pathways for all: understanding experiences of progression* hefyd, yn seiliedig ar ymchwil annibynnol a gomisiynodd golwg Prifysgol Llundain i'w gyflawni. Canfu'r ymchwil yma bod graddedigion BME y Deyrnas Unedig a meddygon a sicrhaodd gymhwyster dramor yn wynebu risgiau o duedd anymwybodol mewn asesiadau, recriwtio ac yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r GMC yn bwriadu gweithio gydag eraill i barhau i daclo'r mater hwn, yn cynnwys wrth adolygu ei *Safonau ar gyfer cwricwlwm a systemau asesu* trwy gyflwyno gofynion penodol ar gyfer addysg feddygol a sefydliadau hyfforddiant i ddangos eu bod yn cynnwys tegwch a chydraddoldeb ym mhob agwedd o'u gwaith.

2.14 Ym Mehefin 2016, cyhoeddodd y GPhC ymchwil ansoddol i archwilio pam fod ymgeiswyr Du-Affricanaidd wedi perfformio lleiaf da yn yr asesiad cyn cofrestru ar gyfer fferyllwyr. Casglodd yr adroddiad bod y ffactorau wrth wraidd hyn yn gymhleth ac awgrymu sut y gallai darparwyr addysg (ysgolion a darparwyr hyfforddiant cyn cofrestru) a'r GPhC daclo rhai o'r materion.

2.15 Credwn ei bod yn bwysig i'r rheolyddion ddeall y materion sy'n effeithio ar berfformiad gan wahanol grwpiau o gofrestryddion a chofrestryddion posibl a chroesawn y gwaith hwn.

Cofrestriad

2.16 Mae'r Safonau hyn yn edrych ar sut mae'r rheolyddion yn sicrhau eu bod yn cofrestru'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n bodloni eu safonau yn unig, sut maent yn cadw cofrestr gyfredol, a chofnodi unrhyw gamau a gymerwyd yn erbyn cofrestrydd sy'n cyfyngu ar ei hawl i ymarfer. Mae hyn yn faes gwaith pwysig i reolyddion oherwydd mae cleifion, cyflogwyr ac eraill yn dibynnu ar yr wybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr i wneud penderfyniadau ynghylch cyflogi cofrestryddion.

2.17 Bodlonodd wyth o'r naw o reolyddion yr holl Safonau ar gyfer Cofrestriad. Ni fodlonodd yr HCPC yr ail Safon ar gyfer Cofrestriad. Mae'n siomedig gweld bod nifer o reolyddion yn dal i wneud gwallau achlysurol yn yr wybodaeth a gyhoeddir ar eu cofrestrau ar-lein yn ymwneud â chanlyniadau achosion addasrwydd i ymarfer.

2.18 Fe nodom gryn amrywiaeth yn yr amser a gymer i brosesu ceisiadau am gofrestriad yn ddibynnol ar y llwybr i gofrestru. Ymddengys bod rhai rheolyddion yn cymwys dipyn mwy o amser i broses ceisiadau ar gyfer graddedigion nad ydynt o'r Deyrnas Unedig. Mae'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn mewn amserau proses yn aneglur, a byddwn yn parhau i edrych ar sut mae'r rheolyddion hyn yn prosesu'r ceisiadau hyn i gael gwell dealltwriaeth o'r materion a allai arwain at y gwahaniaethau a welwn trwy ddata ystadegol.

Apeliadau cofrestru

2.19 Credwn y dylai'r rheolyddion sicrhau bod ganddynt weithdrefnau cadarn a thryloyw ar waith fel bod y rhai sy'n ymgeisio am gofrestriad yn gallu deall n glir pam bod eu cais am gofrestriad wedi ei wrthod (a gan bwy), sut y gallant apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, a sut y bydd yr apêl honno yn cael ei chyflawni.

2.20 Nid oeddem yn gallu casglu i'r HCPC fodloni'r ail Safon ar gyfer cofrestriad, gan fod gennym bryderon ynghylch sut mae'n cynnal ei broses apeliadau cofrestru. Ein hasesiad oedd nad oedd proses yr HCPC yn gyfan gwbl yn unol â'i reolau llywodraethu a bod diffyg tryloywder.

2.21 Er hynny, mae'r HCPC wedi newid ei broses apeliadau cofrestri i gynyddu tryloywder. Roedd y newidiadau a ddisgrifiodd yr HCPC i ni yn ymddangos i fod yn ateb pragmatig yn ymateb i'n pryderon, a byddwn yn monitro sut mae'r broses newydd hon yn gweithio.

2.22 Nodom hefyd anawsterau a wynebai PSNI. Nid yw erioed wedi derbyn apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod cofrestriad; nid oes ganddo weithdrefn apeliadau ar waith ychwaith. Achosodd diffyg gweithdrefn o'r fath anawsterau wrth i'r PSNI ddechrau paratoi ar gyfer gweithrediad ar gyfer fferyllwyr yng Ngogledd (a fwriedir ar gyfer 2017) y Gorchymyn Gweithwyr gofal Iechyd a Chysylltiedig (Dealltwriaeth o Saesneg) 2015. Mae'r PSNI wedi cymryd camau i daclo'r mater hwn a byddwn yn monitro ei gynnydd.

Addasrwydd i ymarfer parhaus

2.23 Mae'r rheolyddion i gyd yn parhau i weithredu a datblygu eu hamrywiol gynlluniau ar gyfer sicrhau addasrwydd i ymarfer parhaus y rhai ar eu cofrestrau. Cwblhaodd y grŵp cyntaf o nyrsys a bydwragedd y broses ail ddilysu NMC yn Ebrill 2016. Adroddodd yr NMC fod 90 y cant o'r cofrestryddion oedd i fod i ail-ddilysu yn Ebrill 2016 wedi llwyddo i adnewyddu eu cofrestriad trwy ail-ddilysu. Cwblhaodd y GPhC y cylch pum mlynedd gyntaf o adolygu cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) pob un o'i gofrestryddion. Comisiynodd adolygiad annibynnol, a chyflawni adolygiad gweithredol, o'r broses.

2.24 Penododd y GMC ymchwilwyr[19] i gyflawni gwerthusiad hirdymor o ail-ddilysu. Yn Ebrill 2016, cyhoeddodd eu hadroddiad interim.[20] Roedd rhai o'r casgliadau allweddol yn cynnwys fod pedwar o bob 10 meddyg yn newid eu hymarfer oherwydd eu gwerthusiad diwethaf, ond fod yna hefyd amheuaeth ymysg meddygon ynghylch a yw ail-ddilysu wedi arwain at wella diogelwch cleifion ac a fydd y broses yn nodi meddygon mewn anhawster yn gynharach. Roedd gan feddygon a ymatebodd wahaniaeth barn ynghylch a fyddai ail-ddilysu yn gwella safonau ymarfer. Byddwn yn gwylio cynnydd â diddordeb.

Addasrwydd i ymarfer

2.25 Disgrifiad ein safonau addasrwydd i ymarfer sut ddylai rheolyddion sicrhau y gall unrhyw un fynegi pryder am addasrwydd cofrestrydd i ymarfer. Maent hefyd yn sicrhau bod rheolyddion yn gweithredu pan fyddant yn derbyn pryderon o'r fath.

---

[19] UMbRELLA (Cydweithio Meddygol y Deyrnas Unedig ar Werthuso Ail-ddilysu).
[20] UMbRELLA, 2016. *Shaping the future of medical revalidation – interim report.* [Ar-lein] Ar gael o: www.gmc-uk.org/UMbRELLA_interim_report_FINAL.pdf_65723741.pdf

2.26 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae perfformiad yn erbyn y safonau hyn wedi amrywio.

Prydlondeb

2.27 Yn rhan o'r newidiadau a wnaethom i'r broses adolygu perfformiad, gofynnom i'r rheolyddion ein darparu â data am eu prydlondeb a nifer achosion yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer ar sail chwarterol yn hytrach na 'chiplun' blynyddol. Mae hyn wedi ein galluogi i ystyried yn fwy sensitif sut mae pob rheolydd yn edrych ar reolaeth ei achosion, a'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddynt: o ran y gwir ffigurau a'r 'cyfeiriad teithio'.

2.28 Nid oeddem yn gallu dweud, yn 2015/16, bod y GOC, HCPC a'r NMC wedi bodloni'r Safon sy'n gofyn i'r rheolyddion ddelio â chwynion mor fuan â phosibl o ystyried cymhlethdod y cwyn ac i sicrhau y ceisir gorchmynion dros dro ble fo angen. Ym mhob un o'r achosion hyn, roeddem yn pryderu bod yna oedi wrth ddelio ag achosion ac nid oeddem yn argyhoeddedig bod y perfformiad yn amlwg yn gwella.

2.29 Er ein bod wedi casglu fod y rheolyddion eraill wedi bodloni'r Safon hon, rydym yn parhau i fonitro'n ofalus faint o amser mae pob rheolydd yn cymryd yn ystod pob cam o'r broses. Roedd perygl i rai rheolyddion yna fyddent yn bodloni'r Safon hon yn y dyfodol os nad ydynt yn cynnal eu perfformiad yn y maes hwn, neu'n arddangos y gall eu perfformiad fod yn gyson.

2.30 Rydym yn cydnabod nad yw prydlondeb yn gysyniad hawdd, mae rheolyddion yn mesur pethau ar bwyntiau gwahanol, yn rhannol o ganlyniad i'w fframweithiau deddfwriaethol a llywodraethu unigol. Mae rhai'n dadlau bod eu hachosion yn gynhenid fwy cymhleth neu y'u hymleddir yn fwy clòs nag eraill.

Asesiad risg a gorchmynion interim

2.31 Ni fodlonodd y GDC na'r HCPC y bedwaredd Safon ar gyfer addasrwydd i ymarfer. Mae hyn yn gofyn i reolyddion flaenoriaethu cwynion difrifol a cheisio gorchmynion dros dro ble fo'n briodol. Gwneir gorchmynion dros dro yn ystod cam gynnar o'r achosion i atal cofrestrydd rhag ymarfer oherwydd bod cwynion a thystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y gall fod risgiau i'r cyhoedd os ydynt yn parhau. Maent yn fecanwaith pwysig i ddiogelu'r cyhoedd.

2.32 Mae'r GDC wedi gwneud newidiadau i'r broses gorchmynion interim yn Ebrill 2016, a byddwn yn edrych eto ar effaith y newidiadau hynny pan fyddwn yn adolygu perfformiad y GDC nesaf.

Dulliau cydsyniol o gwblhau

2.33 Wrth i'r nifer o achosion addasrwydd i ymarfer dyfu, mae rheolyddion yn dal i edrych ar ddulliau arloesol o ddelio â nhw yn gyflym ac effeithiol. Rydym yn cefnogi'r gwaith a syniadau newydd yma ar sut i fodloni dyletswyddau statudol. Gwyddom nad yw'r system gyfredol yn addas i'r diben ac rydym yn parhau i alw am ddiwygio cynhwysfawr.

2.34 Bu'r ffocws ar ddau faes pwysig: datrys achosion trwy gydsyniad (ble mae'r cofrestrydd yn derbyn y ffeithiau a'r gosb) ac yn ystod cam gynharach (ble gellir cyflwyno cosb gymharol fechan) er mwyn lleihau'r angen am wrandawiadau llawn. Ar hyn o bryd rydym yn cyflawni gwaith i sefydlu'r achosion ble gallai'r dull hwn fod yn addas a sut y gellir cynnal lles y cyhoedd mewn prosesau llai ffurfiol. Awgryma

ein profiad o edrych ar achosion trwy ein proses Adran 29 y gall fod nifer o broblemau yn ymarferol.

2.35 Wrth adolygu sut mae'r rheolyddion wedi bodloni'r Safonau ar gyfer addasrwydd i ymarfer, rydym wedi ceisio ystyried sut mae ymarfer arloesol wedi ei drosi i broses, ac os yw'r broses honno wedi arwain at benderfyniadau gwael, canlyniadau nad oeddynt yn dryloyw, neu faterion eraill a allai atal y rheolydd rhag bodloni unrhyw rai o'r Safonau Addasrwydd i Ymarfer.

2.36 Yn gyffredinol, gwelsom fod y penderfyniadau a wnaethpwyd gan y rheolyddion dan y broses hon yn ymddangos i fod yn briodol i ddiogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, fe fynegom rai pryderon gyda'r rheolyddion, trwy ein hadolygiadau o'u perfformiad a'n hystyriaeth o achosion Adran 29, ynghylch prosesau yn cael eu cyflawni i gyrraedd y penderfyniadau hynny.

2.37 Yn adroddiad adolygiad perfformiad yr NMC, roeddem yn pryderu ynghylch tryloywder penderfyniadau a wnaethpwyd trwy'r broses gwblhau cydsyniol a dileu gwirfoddol. Rhoddom sylw ar yr angen i sicrhau y gofynnwyd i'r sawl sy'n cyhuddo am sylwadau ar unrhyw gais i gwblhau achos trwy ddulliau cydsyniol. Dywedom y dylid dogfennu trafodaethau rhwng y partïon parthed cwblhau cydsyniol er mwyn gallu arddangos fod y broses yn dryloyw a chyson. Mae hefyd yn allweddol ei bod yn glir bod y sawl sy'n penderfynu wedi gweithredu'r canllaw perthnasol ac ystyried yr holl ffactorau perthnasol, yn cynnwys lles y cyhoedd. Golyga methiant i wneud hynny y bydd y broses yn llai tryloyw ac y gallai danseilio hyder y cyhoedd yn nhegwch y broses addasrwydd i ymarfer.

2.38 Fe nodom ddefnydd parhaus y GMC o ‘ymholiadau dros dro’ ac effaith bositif ymddangosiadol y broses hon ar brydlondeb. Byddwn yn edrych eto ar sut mae'r broses hon yn gweithio yn ymarferol yn ein hadolygiad nesaf o berfformiad y GMC.

2.39 Roeddem yn pryderu am ganllaw diwygiedig y GPhC ar gyfer ei Bwyllgor Ymchwilio, gan sefydlu ein pryderon am dryloywder ac ystyriaeth o les y cyhoedd ehangach a godwyd gan y canllaw. Byddwn yn edrych eto ar y mater hwn y tro nesaf y byddwn yn adolygu perfformiad y GPhC.

Gwneud penderfyniadau

2.40 Nid oeddem yn gallu sefydlu barn bod y GDC wedi bodloni'r Safon y dylai penderfyniadau fod wedi eu rhesymu, yn gyson ac yn diogelu'r cyhoedd. Er bod gan y GDC systemau ar waith i hyrwyddo gwneud penderfyniadau cyson rhesymegol, awgrymai'r dystiolaeth a welsom nad oedd rhesymeg a chysondeb penderfyniadau yn ei waith achos addasrwydd i ymarfer ar lefel sy'n ein galluogi i fod yn fodlon y delir yn briodol â phob achos.

Dirwyn achosion i ben

2.41 Roeddem yn pryderu ynghylch gweithrediad Polisi Dirwyn i Ben yr HCPC, mewn amgylchiadau ble mae achos wedi ei gyfeirio at wrandawiad llawn ac yna mae'r HCPC wedi gwneud cais i ddirwyn yr achos i ben.

2.42 Mae ein pryderon yn arbennig o ddifrifol ble mae'r cais yn ymddangos i fod yn seiliedig ar safon posibl tystiolaeth tystion (sy'n fater y dylai'r panel asesu mewn gwirionedd), neu ar sail cost ymchwilio i bryderon a godwyd ynghylch cofrestrydd. Er enghraifft, mewn un achos, roedd cais yr HCPC i ddirwyn i ben achos yn erbyn gweithiwr cymdeithasol oedd wedi ei gyhuddo o roi tystiolaeth ffug neu

gamarweiniol i'r Llys yn ystod achos gofal (yn cynnwys cyhuddiadau di-sail o gam-drin rhywiol o fewn teulu) yn seiliedig yn bennaf ar gost caffael trawsgrifiadau achosion Llys.

2.43 Roeddem hefyd yn pryderu nad oedd paneli, mewn rhai achosion, yn craffu'n ddigonol ar gais yr HCPC i ddirwyn i ben, heb ymholi pam nad oedd y deunydd oedd ar gael yn ddigonol pan oedd y Pwyllgor Ymchwilio wedi ystyried yn flaenorol bod achos i'w ateb, nac yn cyfeirio'r HCPC i sicrhau'r dystiolaeth a wyddent oedd yn bodoli.

2.44 Byddwn yn edrych ar y mater o ddirwyn i ben yn rhan o adolygiad perfformiad 2017 HCPC.

3. Diogelu'r cyhoedd – addasrwydd i ymarfer

3.1 Yn yr adran hon, rydym yn amlygu datblygiadau diweddar a phatrymau sy'n dod i'r amlwg yr ydym wedi eu nodi o'n hystyriaeth o'r penderfyniadau a wnaethpwyd gan baneli rheoleiddio mewn achosion addasrwydd i ymarfer unigol; ac o'n rhyngweithio gyda'r rheolyddion yn ystod y cyfnod a adolygir.

Newidiadau deddfwriaethol

3.2 Ym Medi 2016, fe addaswyd ein hamcan cyffredinol gyda chychwyn rhannau perthnasol y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015. Amcan cyffredinol yr Awdurdod wrth arfer ei swyddogaethau yw diogelu'r cyhoedd.

3.3 Ers 31 Rhagfyr 2015, mae pŵer yr Awdurdod i gyfeirio achos at y Llys wedi ei lywodraethu gan brawf o a yw penderfyniad yn ‘annigonol i ddiogelu'r cyhoedd’, yn hytrach nag os yw'n rhy drugarog.

Llwyth achosion

3.4 Yn y flwyddyn ariannol hon, buom yn craffu ar 4,285 penderfyniad a roddwyd i ni gan y naw corff rheoleiddio a oruchwylir gennym. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o tua 15 y cant ar y flwyddyn flaenorol. Nid yw mwyafrif llethol y penderfyniadau hyn yn peri unrhyw bryder i ni. Fe ystyriom 200 o achosion mewn manylder oherwydd bod y penderfyniadau yn codi pryderon ynghylch a oedd y rheolydd wedi erlyn yr achos yn gywir neu a oedd y panel wedi delio â'r mater ymddygiad neu iechyd dan sylw.

Rhoi adborth ar bwyntiau dysgu i'r rheolyddion

3.5 Ble nad yw achos yn bodloni'r nod uchel iawn ar gyfer cyfeirio i'r Llys ond mae'r Awdurdod yn dal i fod â phryderon ynghylch y penderfyniad neu broses y rheolyddion, bydd yr Awdurdod yn anfon pwyntiau dysgu at y rheolydd.

3.6 Bu'r Awdurdod yn ymgynghori gyda rheolyddion ar y broses pwyntiau dysgu yn haf 2016. Yn dilyn hynny, rhoddir adborth ar bwyntiau dysgu arwyddocaol neu bwysig i'r rheolyddion ar unwaith, tra bod rhai mwy cyffredinol yn cael eu rhoi yn ystod cyfnodau rheolaidd. Rydym yn cynnig anfon crynodebau o'r rhain i'r holl reolyddion yn ystod pob blwyddyn.

Cyfeirio at y Llys

3.7 Fe ddefnyddiom ein doethineb i gyfeirio 13 penderfyniad i'r Llys:

Rheoleiddiwr	**Nifer o benderfyniad a gyfeiriwyd at y Llys dan adran 29 Deddf 2002**	**Canlyniad**
NMC	8	Pump wedi setlo trwy Orchymyn Cydsyniad. Cafodd penderfyniad y panel ei ddileu ym mhob achos. Mewn pedwar achos,

		cafodd y penderfyniad ar gosb ei amnewid gyda chosb fwy difrifol. Mewn un achos, cafodd y mater ei ddychwelyd at banel newydd i wrando ar yr achos cyfan eto. 1 wedi ei gynnal gan y Llys. 1 wedi ei wrthod gan y Llys. 1 wedi ei dynnu'n ôl gan yr Awdurdod.
HCPC	2	1 wedi ei dynnu'n ôl gan yr Awdurdod. 1 wedi setlo trwy Orchymyn Cydsyniad.
MPTS	2	2 wedi setlo trwy Orchymyn Cydsyniad. Mewn un achos, cafodd penderfyniad y panel i atal cofrestrydd ei ddileu a chafodd y mater ei ddychwelyd ar gyfer ystyriaeth o'r gosb. Mewn un achos, cafodd y penderfyniad y panel ei ddileu a dychwelwyd yr achos ar gyfer ystyriaeth a oedd y cofrestrydd wedi bod yn anonest ac i ystyried y mater o amhariad.
GDC	1	Setlwyd trwy

		Orchymyn Cydsyniad. Cafodd penderfyniad y panel ei ddileu a dychwelwyd y mater am wrandawiad newydd ar gosb gerbron panel o unigolion gwahanol.

Penderfyniadau yr Uchel Lys

3.8 Yn ystod y cyfnod dan sylw, dyfarnodd y Llys ar chwe achos. Roedd y rhain yn cynnwys achosion a gyfeiriwyd gennym at y Llys dan ein pŵer adran 29 yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

3.9 Roedd yr achosion yn cynnwys ystod o ymddygiadau difrifol yn cynnwys ymddygiad ymosodol tuag at glaf bregus iawn, gwallau meddygol arwyddocaol ac anonest o bosibl, methiant i ddatgelu cyflwr iechyd a chyflawni prosesau ymwthiol tra'n dioddef o'r cyflwr, a chamymddwyn difrifol tuag at gydweithwyr. Roedd ein pryderon yn cynnwys fod paneli wedi methu delio â difrifoldeb yr ymddygiad, na wnaethant ystyried y canllaw perthnasol neu nad oedd ganddynt y dystiolaeth o'u blaenau er mwyn gallu deall difrifoldeb llawn yr ymddygiad.

3.10 Cytunodd y Llys gyda ni mewn pump o'r chwe achos. Mewn un achos, cafodd y cofrestrydd ei ddileu o'r gofrestr gan y Llys. Yn y gweddill cafodd yr achosion eu hailgyflwyno i'r rheolydd am wrandawiad pellach. Pwyntiau penodol y gellir eu casglu o'r penderfyniadau yw:

- Y gall methiant i gyflwyno tystiolaeth yn gywir gyfateb i anghysondeb gweithdrefnol difrifol ac y dylai paneli ddefnyddio eu grymoedd i geisio gwybodaeth neu gyhuddiadau pellach
- Fod angen i baneli sicrhau eu bod y talu sylw i ddifrifoldeb llawn y cyhuddiadau ac, yn benodol, yr angen am hyder y cyhoedd yn y broses reoleiddio ac enw da'r proffesiynau.

3.11 Yn yr un achos ble nad oedd y Llys yn cytuno gyda'r Awdurdod, roedd yn amlwg bod y Llys yn rhoi lefel uchel iawn o barch i benderfyniad y panel. Mae cyfraith achosion yn ei gwneud yn glir y bydd y llysoedd yn gyndyn i wyrdroi penderfyniadau paneli sydd wedi cael cyfle i weld y dystiolaeth drostynt eu hunain oni bai bod y penderfyniad yn amlwg yn anghywir ac y cafwyd anghysondeb difrifol. Cadarnhaodd yr achos hwn hynny.

Hawl y GMC i Apelio[21]

3.12 Yn ddiweddar cafodd y GMC yr hawl i gyfeirio penderfyniadau'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol at y llys perthnasol ei hun os oedd yn ystyried nad oeddynt yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd. Gall yr Awdurdod fod yn rhan o unrhyw gyfeiriadau o'r fath os yw'n dymuno.

3.13 Yn 2016/17 cyfeiriodd y GMC wyth penderfyniad. Mae'r Awdurdod wedi bod yn rhan o ddau ohonynt ac wedi cyfeirio un achos ei hun i'r Llys nad oedd y GMC wedi ei gyfeirio. Ym Mai 2017, cafodd achos yr Awdurdod ei gyfeirio yn ôl i'r panel

[21] Dan adran 40A y Ddeddf Feddygol 1983

gwreiddiol trwy gydsyniad ac fe gynhaliodd y Llys apêl cyntaf y GMC yn y cyntaf i gael gwrandawiad. Cefnogodd yr Awdurdod yr apêl honno a byddai wedi ei apelio ei hun pe na fyddai'r GMC wedi gwneud.

3.14 Gan fod gan yr Awdurdod hawl i fod yn rhan, mae'n ystyried pob achos a gyfeiriwyd gan y GMC fel petai'n achos yr oedd yn ystyried cyfeirio ei hun. Mae hyn yn cynnwys cynnal adolygiad achos manwl llawn, ynghyd â chyngor gan gyfreithwyr. Yn gyffredinol bydd yr Awdurdod yn cymryd rhan os yw'n ystyried bod ganddo rywbeth penodol i'w gyfrannu naill ai ar faterion cyfreithiol neu ar y sylwedd nad yw wedi ei drafod gan y GMC (er enghraifft, diffyg erlyn). Yn yr achosion cynnar, er enghraifft, byddwn yn awyddus i sicrhau bod y Llys yn gwbl ymwybodol o'r gyfraith achos yn gysylltiedig ag awdurdodaeth yr Awdurdod. Fodd bynnag, nid ydym fel arfer eisiau ychwanegu ar gostau i gofrestryddion trwy fod yn barti pan nad oes angen, a byddwn yn adolygu ein prosesau o ganlyniad i ddatblygiadau. Ni ddylid cymryd y ffaith nad yw'r Awdurdod yn ymuno ag achos fel parti fel mynegiant o farnau'r Awdurdod ar rinweddau'r apêl neu ddim.

3.15 Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn parhau i fod ag awdurdodaeth a'r hawl i fod yn barti. Bydd y Llys yn edrych nid yn unig ar benderfyniad y panel, ond hefyd ar sut mae'r GMC wedi erlyn fel achos. Ni all y GMC godi pwyntiau ynghylch ei fethiannau gweithdrefnol ei hun, ac felly mae'n briodol i'r Awdurdod gael y pŵer i wneud hyn.

3.16 Mae'r Awdurdod a'r GMC wedi gweithio ar brotocol i sicrhau yr hysbysir pob ochr am gynnydd achosion a gyfeiriwyd gan ei gilydd a bod ganddynt wybodaeth ddigonol i benderfynu a yw am ymuno fel parti neu beidio.

3.17 Y cyfiawnhad dros y pŵer newydd oedd y byddai (a) yn cyfnerthu'r gwahaniad rhwng yr MPTS a'r GMC, (b) yn delio â'r llinell fesur uchel iawn sy'n bodoli cyn y gall yr Awdurdod apelio ac (c) yn debygol o arbed arian. Rydym yn amheus o ran a yw'r pwynt cyntaf yn ddadl gref dros y pŵer. O ran y gweddill, byddai'r Awdurdod yn nodi'r canlynol:

- Mae rheswm i gredu y bydd y llysoedd yn gosod llinell fesur is ar gyfer apeliadau'r GMC neu ei bod yn briodol i hyn fod yn wir
- Mae'r achosion sydd wedi eu cyfeirio wedi arwain at nifer o heriau ynghylch ehangder awdurdodaeth y GMC sydd â'r potensial i gymhlethu'r awdurdodaeth. Tra bod yr achos cyntaf, *Jagjivan*, wedi ei ddatrys o blaid y GMC a heb, hyd yn hyn, gael unrhyw oblygiadau amlwg ar awdurdodaeth yr Awdurdod, bydd yr Awdurdod eisiau sicrhau ei fod yn ymwybodol o ac yn gallu ymateb i bwyntiau a allai effeithio ar ei awdurdodaeth.
- Mae'n rhaid i'r Awdurdod archwilio pob achos mae'r GMC yn penderfynu cyfeirio yn llawn, hyd yn oed os nad yw'n dod yn barti iddynt. Felly, nid oes unrhyw leihad yn y llwyth gwaith cyffredinol o ganlyniad i'r newid. Yn wir, mae'n debygol y bydd costau yn cynyddu ar y cyfan, yn arbennig o ystyried yr heriau awdurdodaeth sy'n debygol o ofyn bod yr Awdurdod wedi ei gynrychioli.

Ymddygiad cofrestryddion mewn bywyd preifat

3.18 Cyflawnodd yr Awdurdod ymchwil i agweddau cyhoeddus ynghylch anonestrwydd gan weithwyr gofal iechyd[22] a gyhoeddwyd ym Mehefin 2016. Mae'r Awdurdod yn gweld nifer o achosion ble gwneir cyhuddiadau bod ymddygiad mewn cyd-destun nad yw'n glinigol yn effeithio ar addasrwydd unigolyn i ymarfer. Maen ymwybodol fod yna gwmpas i gwestiynu i ba raddau ddylai cofrestrydd cymwys fod yn destun cosb parthed gweithredoedd nad ydynt yn gysylltiedig o gwbl i waith clinigol.

3.19 Awgrymodd yr ymchwil fod barn y cyhoedd tuag at anonestrwydd tu allan i ymarfer clinigol yn amrywiol. Er enghraifft, tra roedd yn amlwg y byddai euogfarn am ladrata yn codi cwestiynau ynghylch addasrwydd i ymarfer nyrs yn gofalu am gleifion bregus, nid oedd twyll trethi ar eiddo prynu i'w osod o reidrwydd yn codi cwestiynau ynghylch addasrwydd i ymarfer deintydd. Yn wir, fe ymddengys bod gwahaniaethu rhwng proffesiynau a ddehonglwyd i fod yn *'ymarferol'* (deintyddion ac osteopathiaid) a'r rhai ble mae pobl fregus dan sylw neu mae'r gofal yn cynnwys penderfyniadau tyngedfennol gyda goblygiadau pellgyrhaeddol.

3.20 Mae angen gofal gydag achosion unigol oherwydd eu bod yn sensitif o ran ffeithiau a bydd y lliniariad yn amrywio. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi gweld yr enghreifftiau canlynol ble defnyddiwyd cosbau llai na dileu o'r gofrestr:

- Trais domestig yn erbyn aelodau agos o'r teulu
- Ymosodiadau rhywiol tu allan i'r gweithle
- Gwylio pornograffi plant.

3.21 Mae'r Awdurdod hefyd wedi cyfeirio achos i'r Llys Sesiwn yn yr Alban ble canfuwyd fod y cofrestrydd wedi aflonyddu cydweithwyr iau yn rhywiol ac mae'n nodedig i'r Llys anghytuno, yn seiliedig ar y ffeithiau, gyda'r Awdurdod a gyda'r rheolydd y dylid fod wedi cyflwyno cosb fwy difrifol.

3.22 Felly hefyd, mae'r Awdurdod yn gweld achosion sy'n ymwneud â lefelau dibwys o anonestrwydd neu ymddygiad yn aml nad yw, er yn foesol amheus, wir yn ymddangos i effeithio ar addasrwydd i ymarfer unigolyn a ble mae'n syfrdanol y credwyd y byddai'n briodol defnyddio adnoddau i'w rhoi trwy'r broses. Yn wir, mai rhai yn ddim mwy na chwestiynau cyflogaeth nad ydynt o reidrwydd yn cael goblygiadau ehangach ar addasrwydd i ymarfer. Nodwn yn benodol, parthed adolygiad barnwrol diweddar yn erbyn Safonau newydd y GPhC,[23] i'r barnwr edrych yn agos ar ddadleuon fod yr agweddau o'r Safonau newydd oedd yn gofyn i gofrestrydd ymddwyn yn briodol yn ei fywyd preifat yn gwrthdaro gyda hawl unigolion i fywyd preifat. Fe esboniodd y barnwr y gallai rhai gweithredoedd mewn bywyd preifat, er enghraifft cyflawni tramgwydd troseddol, effeithio ar addasrwydd i ymarfer unigolyn yn uniongyrchol ond na fyddai pryderon llai (er enghraifft colli tymer dros gêm fwrdd) arwain at bryderon yn hyn o beth.

3.23 Mewn rhai achosion, yn arbennig yn ymwneud ag ymosodiad rhywiol, mae yna drosglwyddiad clir o ran ymarfer. Mewn eraill, fodd bynnag, gall unigolion ymddwyn yn droseddol tu allan i'w hymarfer, ond yn parhau i fod yn ymarferwyr cymwys nad

---

[22] Awdurdod Safonau Proffesiynol, 2016. *Research into attitudes to dishonest behaviour by health and care professionals.* Mehefin 2016 adroddiad ymchwil gan Policis. Ar gael o: www.professionalstandards.org.uk/publications/detail/research-dishonest-behaviour-by-professionals

[23] Pitt and Tyas, R (ar gais gan) v Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol [2017] EWHC 809 (Gweinyddol)

ydynt yn cyflwyno unrhyw risg i gleifion. Yn yr achosion hynny, fe ymddengys i ni y gellir cael trafodaeth ynghylch i ba raddau y dylai'r ymddygiad yma fod yn destun sancsiynau gan reolydd fel ei fod yn effeithio ar allu unigolyn i gael ei gyflogi i radau llawer mwy helaeth na fyddai'n wir mewn galwedigaeth heb ei rheoleiddio. Awgryma ein hymchwil y gall agweddau'r cyhoedd fod yn fwy cysgodol nag y credwyd, tra bod rhai paneli yn ymddangos i ddilyn ymagweddau mwy trugarog nag y byddai barn y cyhoedd yn cefnogi.

Ansawdd ymchwiliadau paneli

3.24 Mae yna nifer o bwyntiau yr hoffem eu codi ynghylch penderfyniadau'r panel y byddem yn gobeithio y byddai'r rheolyddion yn eu hystyried yn rhan o'u hyfforddiant ar gyfer paneli:

- Mewn sawl achos ble mae dileu o'r gofrestr yn bosibiliad difrifol, mae'r lefel o fanylder yn y rhesymau i esbonio pam nad oedd dileu o'r gofrestr yn cael ei ystyried i fod yn briodol yn arwynebol. Byddem yn disgwyl iddynt fynd i'r afael gydag a oedd ymddygiad y cofrestrydd yn sylfaen anghydnaws gyda chofrestriad parhaus
- Mae paneli yn chwarae rôl cynyddol ragweithiol o ran sicrhau bod achos yn cael ei gyflwyno'n briodol
- Os oes gan banel gadeirydd gyda chymhwysedd cyfreithiol, ond dim aseswr cyfreithiol, ystyriwn fod angen cael proses ar gyfer delio gyda chyngor ar faterion cyfreithiol. Mewn un achos, roedd yn amlwg fod y panel wedi camgyfeirio ei hun ynghylch y gyfraith ac y gallai presenoldeb aseswr cyfreithiol fod wedi osgoi hyn.
- Rydym yn parhau i bryderu ynghylch y ffaith bod nifer o achosion yn ymwneud â chwythu'r chwiban a'r methiant i uwchgyfeirio pryderon am gofrestryddion eraill, nad yw paneli wedi cyfeirio at bwysigrwydd chwythu'r chwiban a'r agenda chwythu'r chwiban ehangach yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Mae'n siomedig, er gwaethaf y datganiad ar y cyd ar y Ddyletswydd Gonestrwydd a gyhoeddwyd gan wyth o'r rheolyddion a'r canllaw ar y cyd gan y GMC/NMC, nad ydym wedi gweld y ddyletswydd wedi ei hadlewyrchu yn y cyhuddiadau a ddrafftiwyd yn erbyn y cofrestrydd neu gyfeiriadau at y Ddyletswydd Gonestrwydd ym mhenderfyniadau paneli wedi hynny
- Rydym yn parhau i bryderu ynghylch y lefel o gosb mae paneli ar draws y rheolyddion yn cyflwyno parthed ymarfer heb yswiriant. Rydym wedi nodi sawl achos ble mae paneli wedi gwneud dim mwy na chyflwyno cerydd neu rybudd. Mae methiant i gael yswiriant yn fwy na dim ond methiant gweinyddol. Gall arwain at gleifion sydd wedi eu hanafu trwy esgeulustod ymarferydd yn dioddef colled ariannol arwyddocaol yn ogystal â'r anaf. Mae hefyd yn ofyniad ar gyfer cofrestru
- Ystyriwyd rôl paneli adolygu yn ddiweddar gan y Goruchaf Lys yn achos *Khan.*[24] Trafododd yr achos hwnnw gyfyngiadau pŵer paneli adolygu a byddwn yn monitro ei effaith.

[24] Khan v Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Yr Alban) [2016] UKSC 64

Cofrestriadau darfodedig ar gofrestr yr NMC

3.25 Yn adroddiad y llynedd, fe nodwyd ar sawl achlysur yn y gorffennol ein bod wedi ein gorfodi i sicrhau gwaharddiad gan yr Uchel Lys i atal yr NMC rhag diddymu cofrestryddion unigol o'i gofrestr cyn y gallai'r Uchel Lys ddelio â'n hatgyfeiriad o benderfyniadau'r paneli addasrwydd i ymarfer perthnasol.

3.26 Mae'r broblem yn codi oherwydd sut y sefydlir fframwaith deddfwriaethol yr NMC. Rydym yn ail ategu ein rhwystredigaeth nad yw'r Adran Iechyd wedi cymryd camau eto i gau'r 'bwlch' deddfwriaethol hwn sy'n gwneud i 'ddarfodaeth' o gofrestr yr NMC fod yn bosibl dan yr amgylchiadau hyn, er ein bod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol am y tro cyntaf ar 10 Mawrth 2014 yn amlygu'r broblem a bod hyn wedi ei godi er hynny yng nghyd-destun newidiadau i ddeddfwriaeth yr NMC. Ceir problem debyg o ran yr HCPC.

3.27 Yn ystod y cyfnod ariannol hwn, rydym wedi nodi nifer o achosion ble mae paneli'r NMC wedi penderfynu peidio cyflwyno cosb, neu wedi caniatáu i orchymyn presennol ddarfod, ar y sail bod cofrestriad y cofrestrydd wedi darfod neu ei fod ar fin darfod. Mewn rhai o'r achosion hyn, roedd gennym bryderon ynghylch i ba raddau roedd penderfyniad y panel yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

3.28 Fe ysgrifennom at yr NMC yn ddiweddar i geisio cadarnhad fod systemau effeithiol ar waith i sicrhau, os yw cofrestriad wedi darfod dan y fath amgylchiadau ac yna bod nyrsys yn ceisio adnewyddu eu cofrestriad, y bydd unrhyw bryderon addasrwydd i ymarfer sy'n dal heb eu taclo yn cael sylw llawn cyn y gellir caniatáu i'r cofrestrydd ymarfer yn anghyfyngedig.

4. Cofrestrau achrededig – hyder, dewis ac amddiffyn

Trosolwg

4.1 Mae ein rôl hefyd yn cynnwys gosod safonau ar gyfer cofrestrau galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan y gyfraith ac achredu'r cofrestrau sy'n bodloni'r safonau hyn. Rydym yn gwneud hyn fel bod y cyhoedd, cyflogwyr a chomisiynwyr yn gallu dewis ymarferwyr o gofrestrau gwirfoddol yr ydym wedi eu fetio a chymeradwyo yn annibynnol. Mae'r llywodraeth yn ymroddedig i reoleiddio cymesur o broffesiynau gofal iechyd ac mae'n cydnabod fod rhaglen cofrestrau achrededig yn darparu cleifion, y cyhoedd a chyflogwyr gyda sicrwydd ynghylch safonau a chymhwyster cofrestryddion.

4.2 Mae cofrestrau achrededig yn bodloni ein safonau ymdrechgar, sy'n cynnwys ymroddiad i ddiogelu'r cyhoedd, llywodraethu, addysg a hyfforddiant, rheoli risg a delio â chwynion. Mae ymarferwyr ar gofrestrau achrededig yn bodloni lefelau addysg a hyfforddiant cymeradwy ac yn ymgysylltu mewn datblygiad proffesiynol parhaus, ymrwymo i godau ymarfer ac yn destun prosesu disgyblu os bydd rhywbeth yn mynd o'i le. Mae cofrestrau achrededig yn darparu rhwyd ddiogelwch. Pe byddai rhywun yn cael ei ddiddymu oddi ar un gofrestr achrededig (neu gan reolydd) nai all fynd ymlaen i ymuno â chofrestr achrededig arall yn ei lle. Profwyd yr amddiffyniad pwysig hwn a'i gadarnhau gan y Llys eleni.

4.3 Mae'r rhaglen cofrestrau achrededig wedi bod yn weithredol ers Chwefror 2011. Mae 23 o gofrestrau wedi eu hachredu yn cwmpasu 30 o alwedigaethau ac 80,000 o ymarferwyr. Mae galwedigaethau dan sylw wedi cynnwys iechyd y cyhoedd, gwyddoniaeth gofal iechyd, cynghori genetig, seicotherapi, therapi chwarae, ailsefydlu chwaraeon a therapïau ategol megis maethegwyr. Eleni cafodd dwy gofrestr ymarfer cosmetig nad yw'n llawfeddygol eu hachredu hefyd, gan roi argymhellion o Adolygiad yr Athro Syr Bruce Keogh ar Reoleiddio Ymyraethau Cosmetig ar waith.

4.4 Mae'n costio tua £350,000 y flwyddyn i weithredu'r rhaglen ac fe'i rheolir gan 3.4 staff. Mae wedi ei ariannu trwy ffioedd achredu (ar hyn o bryd yn 60 y cant o incwm) a chymhorthdal gan yr Adran Iechyd.

4.5 Mae'r holl gofrestrau achrededig a'u cofrestryddion yn arddangos ein nod masnach cofrestredig er mwyn i'r cyhoedd allu gwahaniaethu rhyngddynt yn rhwydd. Ein nod yw gwella diogelwch y cyhoedd, hyrwyddo hyder yn y cofrestrau, cefnogi dewis i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth a gwella ansawdd. Rydym yn argymell y dylai'r cyhoedd, cyflogwyr a chomisiynwyr ddewis ymarferwyr sydd naill ai ar wedi eu rheoleiddio neu ar gofrestrau achrededig yn unig. Fodd bynnag, rydym yn dal angen ymdrech sylweddol yn cynnwys gan y llywodraeth ac eraill i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a'i nod.

4.6 Mae cofrestrau achrededig yn ymagwedd newydd i reoli risgiau sy'n gysylltiedig gydag ymarferwyr iechyd a gofal sy'n denu sylw yn rhyngwladol. Rydym wedi cynghori llywodraeth Hong Kong, sy'n sefydlu ei raglen cofrestrau achrededig ei hun, yn seiliedig ar ein un ni. Mae gallu achredu cofrestrau mewn deddfwriaeth trosfwaol, fel yr hyn a sefydlwyd yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, yn caniatáu i gofrestrau newydd gael eu sefydlu'n gyflym ac effeithiol heb fod angen

deddfwriaeth sylfaenol unigol. Mae'n galluogi ychwanegu galwedigaethau newydd ac i reolau a safonau gael eu newid yn gyflym mewn ymateb i anghenion newidiol.

Rhestr o gofrestrau achrededig

- Academy for Healthcare Science
- Cynghrair Ymarferwyr y Sector Preifat
- Cymdeithas Seicotherapyddion Plant
- Association of Christian Counsellors
- Cyngor Aciwbigo Prydain
- Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Prydain
- Cymdeithas Therapyddion Chwarae Prydain
- Cymdeithas Adferwyr a Hyfforddwyr Chwaraeon Prydain
- Cyngor Seicdreiddio Prydain
- Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol
- COSCA (Counselling & Psychotherapy in Scotland)
- Ffederasiwn y Therapyddion Holistaidd
- Bwrdd Cofrestru Cynghorwyr Genetig
- Human Givens Institute
- Y Gymdeithas Cwnsela Genedlaethol
- Y Gymdeithas Hypnotherapi Genedlaethol
- Play Therapy UK
- Cofrestr y Technolegwyr Clinigol
- Save Face
- Cymdeithas Homeopathiaid
- Treatments You Can Trust
- UK Council for Psychotherapy
- Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

Egwyddorion a safonau

4.7 Rydym yn gweithredu pum egwyddor i weithredu'r rhaglen cofrestrau achrededig:

- Cymesuredd – dylai ein meini prawf a sut ydym yn eu gweithredu fod yn gymesur i'r risg o niwed i'r cyhoedd
- Marchnad rydd – ni ddylai greu monopolïau na chyfyngiadau annheg ar y farchnad
- Fforddiadwyedd – dylai osgoi eithrio ymarferwyr gydag incwm is
- Addysg – y cofrestrau ddylai bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer cymwys mewn galwedigaeth

- Effeithiolrwydd – nid ydym yn barnu effeithiolrwydd unrhyw therapi nac arfer iechyd neu ofal.

4.8 Mae ein safonau yn cwmpasu 11 maes:

- Cynnal cofrestr wirfoddol ar gyfer galwedigaethau iechyd a gofal
- Ymroddedig i ddiogelu'r cyhoedd
- Deall, monitro a rheoli risgiau
- Yn ariannol gadarn
- Ysbrydoli hyder y cyhoedd
- Datblygu gwybodaeth
- Darparu llywodraethu cryf ac effeithiol
- Gosod safonau da ar gyfer ymarferwyr
- Sicrhau addysg a hyfforddiant priodol
- Rhedeg cofrestrau'n dda
- Rheoli cwynion yn deg ac effeithiol.

Gwella perfformiad

4.9 Mae'r effaith ar gofrestrau sy'n cael eu hachredu yn glir. Dangosodd ein hadroddiad, *Accredited registers: ensuring practitioners are competent and safe* (2015) raddfa'r newidiadau a gyflawnwyd gan sefydliadau wrth baratoi i fynd trwy'r broses achredu. Mae pob cofrestr a achredwyd gennym wedi gorfod gwella ei ymarfer mewn un maes neu fwy i fodloni'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig cyn sicrhau achrediad. Gall ein panel achredu gyhoeddi amodau, cyfarwyddiadau a phwyntiau dysgu yn ystod yr achrediad cychwynnol ac mewn adolygiad blynyddol i ofyn i neu argymell bod cofrestrau yn gwella ymarfer yn erbyn y Safonau. Rhaid bodloni amodau i gynnal achrediad.

4.10 Mae'r tabl isod yn dangos yr amodau, cyfarwyddiadau a phwyntiau dysgu a gyhoeddwyd trwy gydol y flwyddyn.

Cofrestr	Dyddiad achrediad diwethaf	Amodau	Cyfarwyddiadau	Pwyntiau dysgu
Academy for Healthcare Science	18 Rhagfyr 2016	1	0	0
Cynghrair Ymarferwyr y Sector Preifat	1 Awst 2016	0	0	3
Association of Christian Counsellors	26 Mawrth 2016	1	1	3
Cyngor Aciwbigo Prydain	14 Mawrth 2016	0	1	1
Cymdeithas Therapyddion Chwarae Prydain	26 Tachwedd 2016	1	1	1
Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Prydain	5 Mawrth 2016	0	1	0
Cymdeithas Adferwyr a Hyfforddwyr Chwaraeon Prydain	10 Rhagfyr 2016	0	0	1
Cyngor Seicdreiddiol Prydain	20 Tachwedd 2016	2	4	0

Cymdeithas Seicotherapyddion Plant	20 Tachwedd 2016	0	0	3
Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol	23 Medi 2016	1	0	1
Counselling & Psychotherapy in Scotland	19 Mehefin 2016	0	0	0
Ffederasiwn y Therapyddion Holistaidd	9 Ionawr 2017	2	0	1
Bwrdd Cofrestru Cynghorwyr Genetig	10 Mai 2016	0	3	6
Human Givens Institute	13 Ebrill 2016	0	3	3
Cymdeithas Cynghori Genedlaethol/Cymdeithas Hypnotherapi Cenedlaethol	21 Mai 2016	0	0	1
Play Therapy UK	11 Ebrill 2016	3	0	1
Cofrestr y Technolegwyr Clinigol	7 Medi 2016	0	1	1
Save Face	11 Gorffennaf 2016	3	7	2
Cymdeithas Homeopathiaid	9 Medi 2016	0	0	0
Treatments You Can Trust	22 Gorffennaf 2016	1	11	3
Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y Deyrnas Unedig	3 Ebrill 2016	0	0	1
Cyngor Seicotherapi'r Deyrnas Unedig	11 Tachwedd 2016	0	0	1
		CYFANSWM	**CYFANSWM**	**CYFANSWM**
		15	**33**	**33**

4.11 Er bod cofrestrau yn derbyn mwy o amodau, cyfarwyddiadau a phwyntiau dysgu yn ystod yr achrediad cychwynnol yn gyffredinol, mae ein proses adolygiad blynyddol yn parhau i asesu cofrestrau mewn manyler ac yn nodi meysydd i'w gwella. Fel gyda'r rheolyddion, mae'r her o gynnal perfformiad yn erbyn safonau a thrwy hynny elwa o graffu allanol yn parhau.

4.12 Mae'r enghreifftiau o newidiadau gofynnol ar gyfer cofrestrau yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Gwella agweddau o brosesau ar gyfer delio â chwynion yn erbyn ymarferwyr, i sicrhau eu bod yn gadarn, teg ac yn ffocysu ar ddiogelu'r cyhoedd
- Gwella prosesau ar gyfer delio â chwynion yn erbyn y sefydliad sy'n cadw'r gofrestr
- Egluro gofynion addysg a hyfforddiant ar gyfer mynediad i'r gofrestr
- Gwella ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd mewn swyddogaethau cofrestru
- Gwella cywirdeb cofrestrau i alluogi'r cyhoedd i wneud dewisiadau gwybodus
- Hybu ymwneud lleyg ar bwyllgorau neu fyrddau
- Egluro gweithdrefnau cwynion i'r cyhoedd
- Hybu tryloywder, er enghraifft trwy gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd
- Gwella prosesau rheoli risg.

Cryfhau amddiffyniad o'r cyhoedd

4.13 Os byddwn yn pennu bod cofrestr yn torri safonau mewn ffordd ddifrifol, gallwn atal neu ddileu achrediad y sefydliad hwnnw. Gall gwaharddiad gael ei godi unwaith y bydd cofrestr yn arddangos ei bod wedi unioni'r materion a arweiniodd at ei ataliad.

4.14 Yn Awst 2016, fe ataliom achrediad cofrestr Treatments You Can Trust wedi nodi anghywirdeb difrifol yn ei gofrestr a phryderon ynghylch prosesau sicrwydd ansawdd ar hyn. Felly, nid oedd panel yn argyhoeddedig fod y gofrestr cefnogir' cyhoedd i wneud penderfyniadau gwybodus. Datrysodd Treatments You Can Trust y materion yn gyflym, ac fe adferwyd achrediad 15 niwrnod wedi cyflwyno'r gwaharddiad. Apeliodd Treatments You Can Trust yn erbyn ei waharddiad (gan ddechrau cymryd camau i weithredu yn y cyfamser), a dyma'r apêl gyntaf i'r rhaglen ei derbyn. Aeth yr apêl trwy ein prosesau, ac fe bennodd panel apêl nad oedd sail iddo.

4.15 Profwyd amddiffyniad allweddol a ddarperir trwy'r rhaglen cofrestrau achrededig yn y Llys mewn gwrandawiad adolygiad barnwrol yn erbyn dwy gofrestr achrededig. Mae ein safonau achredu yn gofyn i gofrestrau gydnabod penderfyniadau parthed ymddygiad proffesiynol a wneir gan reolyddion a chofrestrau achrededig eraill wrth benderfynu os dylid caniatáu rhywun ar gofrestr neu eu dileu. Barnodd y dyfarnwr na all dwy gofrestr sy'n goruchwylio'r un ymarferwyr, ac sydd mewn effaith â'r un codau moeseg, roi ymarfer trwy achosion disgyblu am yr hyn sy'n cyfateb i'r un cwyn. Rhoddodd y barnwr esboniad pwysig, parthed ein safonau, bod 'i gydnabod' yn golygu bod y cofrestrau wedi eu rhwymo i gefnogi penderfyniadau ei gilydd. Mae hyn yn bwysig oherwydd bwriad ein safonau yw cau'r bwlch ble gall rhywun gael ei ddileu gan reoleiddiwr neu gofrestr wirfoddol, er enghraifft am gamymddwyn rhywiol neu anonestrwydd, ac yna ymuno ag un arall yn syth. Er enghraifft, mynegwyd pryderon yn y gorffennol y gall nyrs gael ei dileu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yna mynd ymlaen i weithio fel cynorthwyydd gofal iechyd neu mewn cartref gofal.

4.16 Mae cofrestrau achrededig hefyd yn gweithredu yn erbyn ymarferwyr sy'n hawlio ar gam eu bod wedi cofrestru gyda nhw. Er enghraifft, cyfeiriodd un gofrestr ymarferwr at yr Asiantaeth Safonau Hysbysebu a farnodd yn erbyn yr ymarferwr am hysbysebion camarweiniol. Yn ogystal, rydym hefyd yn amddiffyn nod masnach y cofrestrau achrededig.

4.17 Fodd bynnag, ni all cofrestrau achrededig atal ymarferwr rhag ymarfer heb gofrestriad. Dyma pam ei bod mor bwysig codi proffil cofrestrau achrededig. Trwy ddewis ymarferwyr o gofrestrau achrededig, gall cleifion osgoi ymarfer gwael.

Cydweithio a chydweithrediad

4.18 Mae gweithlu'r cofrestrau achrededig yn darparu rôl bwysig ac amrywiol o ran gwella iechyd y cyhoedd, ac mae potensial i gael effaith pellgyrhaeddol. Rydym wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Iechyd y Cyhoedd ar adroddiad i sut gallai'r gweithlu cofrestrau achrededig, wrth weithio yn breifat ac wedi ei gomisiynu gan y GIG ac eraill, gyfrannu ymhellach i wella iechyd y cyhoedd. Byddwn yn cyflwyno ein hadroddiad ar y cyd gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Iechyd y Cyhoedd ym Mai, yn ein cynhadledd *Modern solutions for the modern world*.

4.19 Rydym wedi gweithio gyda 'r Gymdeithas Llywodraeth Leol i wella ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sicrhau bod ymarferwyr ar gofrestrau achrededig. Rydym yn parhau i

weithio gyda nifer o bartneriaid i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen, yn cynnwys NHS Choices, Healthwatch, yr Adran Iechyd a'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

4.20 Rydym wedi cefnogi cydweithrediad rhwng cofrestrau achrededig, sy'n dangos gwelliant nodedig ym mhob blwyddyn o'r rhaglen. Disgwyliwn y bydd hyn yn arwain at, o leiaf, rannu swyddogaethau ar draws rhai cofrestrau, ac felly'n cynyddu effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

4.21 Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweithio i gasglu gwybodaeth ar y ffordd orau i godi ymwybyddiaeth gyda chynulleidfaoedd penodol, yn arbennig meddygon teulu. Fe fynychom ddwy gynhadledd i feddygon teulu; cynhadledd flynyddol Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a digwyddiad Pulse Live, i siarad gyda meddygon teulu i bennu'r lefel gyfredol o ymwybyddiaeth o'r rhaglen a'r ffordd orau i wella hyn ymysg meddygon teulu a chleifion. O ganlyniad, rydym yn cychwyn peilot gyda chonsortiwm meddygon teulu i annog cleifion i wirio os yw ymarferwyr ar gofrestr achrededig.

4.22 Rydym hefyd yn annog cyflogwyr a chomisiynwyr i ddefnyddio ymarferwyr ar gofrestrau achrededig ac i fod yn wyliadwrus wrth wirio cofrestrau, y gallant wneud ar yr offeryn 'Chwilio am gofrestr' ar ein gwefan. Rydym yn argymell yn gyhoeddus fod pobl yn defnyddio ymarferwyr naill ar gofrestr rheoleiddiwr neu ar gofrestr achrededig.

Heriau a chyfleoedd

4.23 Mae'r rhaglen wedi cefnogi datblygiad a gweithrediad mentrau cenedlaethol, fel gweithrediad y fframwaith Moderneiddio Gyrfaoedd Gwyddonol a datblygiad cofrestr i asesu cymhwyster y diwydiant gwyddorau bywyd, dan arweiniad NHS England a'r Academi ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd. Mae Save Face a Treatments You Can Trust wedi helpu gweithredu'r argymhellion o Adolygiad yr Athro Syr Bruce Keogh ar Reoleiddio ymyraethau Cosmetig. Mae'n nodedig bod yr Academi wedi sefydlu ei gofrestr gyda buddsoddiad cychwynnol gan yr Adran Iechyd, a hyd yn oed gyda chefnogaeth barhaus gan Health Education England, mae'n gweithredu'n llawer is na'r £4 miliwn a ddyfynnwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i sefydlu cofrestr ar gyfer nyrsys cyswllt. Mae'n amlwg y byddai ymlyniad ariannol parhaus gan y llywodraeth yn diogelu parhad y rhaglen ac yn sicrhau ei bod ar gael i ddarparu'n hyblyg ar gyfer gweithlu sy'n datblygu ac anghenion cyflawni gwasanaeth.

4.24 Mae gan gofrestrau achrededig y potensial i wneud llawer mwy. Collwyd sawl cyfle eleni yn cynnwys datblygu'r Fframwaith Addysg a Hyfforddiant Sgiliau Craidd ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl, nad oedd yn cynnwys unrhyw aelodau o'r rhaglen cofrestrau achrededig a nifer o erthyglau perthnasol yn y cyfryngau ble rhoddodd yr Adran Iechyd sylw ond heb gyfeirio ar y rhaglen. Pan welsom y collwyd cynlluniau iechyd cyhoeddus i drefnu'r gweithlu ehangach i wella iechyd y cyhoedd, cysylltom â Public Health England a dechrau prosiect gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Iechyd y Cyhoedd.

4.25 Y llynedd fe nodom ddau rwystr parthed y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr a'r Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus. Mae'r Adran Iechyd wedi codi'r rhain gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a gobeithiwn glywed am gynnydd hyn. Mae yna feysydd eraill, megis rhagnodi, ble mae'r dehonglir y term 'gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig' i olygu gweithiwr rheoledig, sy'n creu cyfyngiadau o ran cynlluniau i ehangu'r gweithlu neu eu defnyddio mewn rolau newydd.

Ystyriaethau

4.26 Mae'r rhaglen yn parhau i dyfu, ac rydym yn parhau i weithio i gynyddu ei phroffil ymysg y cyhoedd, comisiynwyr, cyflogwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Rydym yn parhau i weithredu a chefnogi polisi allweddol y llywodraeth trwy'r rhaglen, fod bynnag, rydym yn dal wedi'n cyfyngu gan ffactorau a grybwyllwyd, sydd wedi atal y rhaglen rhag bodloni ei llawn botensial i ddiogelu'r cyhoedd. Rhagwelwn y gallem gau'r bwlch hwn trwy fwy o waith cydweithredol a mwy o gefnogaeth, gyda phroffil uwch er mwy gwella swyddogaeth diogelu'r cyhoedd y rhaglen.

5. Casgliadau

5.1 Mae rheoleiddio proffesiynol yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd, ond byddai'n gwneud hynny'n fwy effeithiol ac effeithlon gyda chymorth diwygio deddfwriaethol. Nid yw'n gyfredol gyda'r newidiadau sy'n digwydd ac a fwriedir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sy'n amharu ar eu hystwythder a chyflymder arloesedd. Mae polisi'r llywodraeth i ddatblygu system newydd o sicrwydd ar gyfer galwedigaethau na reoleiddir ar ffurf cofrestrau achrededig yn gweithio - ond mae angen proffil llawer mwy er mwyn cyflawni'r amddiffyniad a budd sydd o fewn ei allu yn llawn. Mae'r Deyrnas Unedig yn arwain y ffordd o ran datblygu corff o ymchwil rheoleiddiol arloesol i gefnogi cyflawniad rheoleiddio seiliedig ar dystiolaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/2017

1. Adroddiad perfformiad

Trosolwg

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwaith yr Awdurdod Safonau Proffesiynol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

1.2 Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) ar 1 Rhagfyr 2012. Cyflwynir ei rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.[25] Yn gryno, mae'r awdurdod yn diogelu'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestru pobl yn gweithio mewn iechyd a gofal. Mae'r Awdurdod yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig.

1.3 Mae gan yr Awdurdod fwrdd sy'n cynnwys saith aelod anweithredol ac un aelod gweithredol a benodir gan y Bwrdd.

1.4 Penodir yr aelodau anweithredol gan y Cyfrin Gyngor, gweinidogion Cymru a'r Alban, a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon.

1.5 O 1 Awst 2015, fe ddaeth y trefniant o ariannu'r Awdurdod gan yr Adran Iechyd yn Lloegr a gan y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ben. Yn hytrach mae wedi ei ariannu'n bennaf gan ffioedd a delir gan y rheolyddion a oruchwylir gennym.

1.6 Dan y Deddfau Seneddol sy'n llywodraethu'r hyn a wnawn, mae gennym rymoedd i gyflawni detholiad o weithgareddau i hyrwyddo iechyd a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd parthed rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

1.7 Mae gennym ddyletswyddau a grymoedd parthed:

- Trosolwg o'r naw corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig
- Achredu'r cofrestrau a gedwir gan gyrff cofrestru anstatudol gweithwyr iechyd a gofal
- Darparu comisiynau i, a chyflawni ymchwiliadau ar gyfer, llywodraeth
- Darparu cyngor i sefydliadau eraill tebyg yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Beth rydym yn ei wneud

Gwaith rheoleiddio a gosod safonau

1.8 Mae gan yr Awdurdod rymoedd i:

- Ymchwilio, cymharu ac adrodd ar berfformiad pob corff rheoleiddio. Gofynnir yn benodol i ni adrodd i'r Senedd ar i ba raddau mae pob corff rheoleiddio wedi cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodwyd arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd
- Archwilio camau cyntaf achosion addasrwydd i ymarfer ac adrodd ar ein casgliadau parthed pob rheoleiddiwr

[25] Ar gael ar www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/7/contents/enacted

- Arolygu canlyniadau achosion addasrwydd i ymarfer terfynol a'u cyfeirio at lys os ystyriwn fod y canlyniad yn annigonol ac nad yw'n diogelu'r cyhoedd[26]
- Rhoi cyfarwyddiadau yn gofyn i gorff rheoleiddio sefydlu rheolau dan unrhyw rymoedd sydd gan y corff i wneud hynny.

1.9 Rydym yn hyrwyddo iechyd a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd wrth reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. I gyflawni hyn, rydym yn gwrando ar farn a phryderon pobl a'u hystyried wrth ddatblygu'n gwaith.

1.10 Rydym yn cynorthwyo'r Cyfrin Gyngor i arfer eu grymoedd penodi parthed y cyrff rheoleiddio, a chefnogi ansawdd penodiadau i gynghorau rheolyddion. Mewn ymgynghoriad â'r cyrff rheoleiddio, rydym wedi cynhyrchu safonau ar gyfer y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â recriwtio a phenodiadau i gynghorau'r rheolyddion.

1.11 Rydym yn archwilio a goruchwylio gwaith y naw corff rheoleiddio sy'n gosod safonau ar gyfer hyfforddiant ac ymddygiad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

1.12 Rydym yn hyrwyddo arfer da a rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn gweithio gyda'r cyrff rheoleiddio i wella ansawdd a rhannu arfer da. Er enghraifft, rydym yn rhannu pwyntiau dysgu sy'n codi o archwilio achosion addasrwydd i ymarfer ac yn trefnu seminarau i archwilio materion rheoleiddio.

1.13 Rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth gyda'r cyrff rheoleiddio, yn cyflawni ymchwil a chyflwyno syniadau newydd am reoleiddio i'r sector. Rydym yn gweithio'n agos gydag, ac yn cynghori, y pedair adran iechyd llywodraeth yn y Deyrnas Unedig ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal. Yn ogystal, rydym yn monitro polisi yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop.

1.14 Y cyrff rheoleiddio yw:

- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (GCC) sy'n rheoleiddio ceiropractyddion yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) sy'n rheoleiddio deintyddion, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol a therapyddion orthodonteg yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) sy'n rheoleiddio meddygon yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) sy'n rheoleiddio optometryddion, optegwyr cymwysedig, optegwyr sy'n fyfyrwyr a busnesau optegol yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) sy'n rheoleiddio meddygon esgyrn yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a gofal (HCPC) sy'n rheoleiddio therapyddion celf, gwyddonwyr biofeddygol, ciropodyddion/podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, cyflenwyr teclynnau clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, orthoptwyr, parafeddygon,

[26] O 31 Rhagfyr 2015 fe ddisodlodd yr ymadrodd 'annigonol i ddiogelu'r cyhoedd' yr ymadrodd 'rhy drugarog'.

ffisiotherapyddion, ymarferwyr seicolegol, prosthetyddion ac orthotyddion, radiograffwyr, a therapyddion lleferydd a llais yn y Deyrnas Unedig, a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr

- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) sy'n rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn y Deyrnas Unedig
- Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) sy'n rheiddio fferyllwyr yng Ngogledd Iwerddon.

1.15 Ceir manylion y nifer sydd wedi cofrestru ym mhob rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a oruchwylir gennym (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017) isod.

Tabl 1 Nifer o gofrestryddion fesul rheolydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol



Cofrestrau Achrededig

1.16 Mae gan yr Awdurdod rôl o ran atgyfnerthu ansawdd a diogelwch cleifion trwy osod safonau ac achredu cofrestrau pobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan gyfraith. O 31 Mawrth 2017, roedd yna 23 o gofrestrau achrededig.

1.17 Diben yr achrediad yw gwella ansawdd cofrestriad a gyflawnir gan y sefydliadau sy'n meddu ar y cofrestrau hyn ac i hyrwyddo safonau ymddygiad da, cymhwyster technegol a, ble fo'n berthnasol, ymarfer busnes gan eu cofrestryddion. Ei fwriad yw hybu amddiffyn y cyhoedd ac i gefnogi dewis gan y cyhoedd wrth geisio gwasanaethau gan ymarferwyr mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan gyfraith. Mae'n fodd cymesur o reoli risgiau.

Comisiynau gan Lywodraeth(au)

1.18 Rydym yn cefnogi gwaith yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gweinidogion yr Alban a'r Adran Iechyd yng Ngogledd

lwerddon trwy ddarparu cyngor ynghylch rheoleiddio a safonau gweithwyr iechyd a gofal. Rydym hefyd yn darparu cyngor ar faterion eraill pan ofynnir i ni wneud hynny.

1.19 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Iechyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ofyn i ni ymchwilio materion sy'n achosi pryder hefyd. Fel y sefydlwyd yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae'r Adran Iechyd a'r gweinyddiaethau datganoledig yn talu ffi, i'w bennu gan yr Awdurdod, ar gyfer y gwaith hwn.

1.20 Rydym yn ymgynghori â llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector, ac yn ymateb i'w hymgynghoriadau. Yn ogystal, byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau rhyngwladol, yn arbennig yn Ewrop, allai effeithio ar reoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Deyrnas Unedig a rhyngwladol, gan sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau hyn a'n bod yn cryfhau ein cysylltiadau â'r partneriaid hyn.

Cyngor i sefydliadau eraill

1.21 Mae ein deddfwriaeth yn ein caniatáu i ddarparu cyngor neu wasanaethau archwilio i gyrff rheoleiddio ac i eraill sydd â swyddogaethau tebyg i rai corff rheoleiddio, p'un a fydd y swyddogaethau hyn yn berthnasol i iechyd neu ofal cymdeithasol. Telir am y gwaith hwn gan y sefydliad sy'n gofyn am y cyngor.

Ein gwerthoedd

1.22 Mae ein gwerthoedd yn creu fframwaith i'n penderfyniadau. Maent yn ganolog i bwy yr ydym a sut yr hoffem i'n partneriaid ein gweld. Rydym yn ymroddedig i fod:

- Â ffocws ar les y cyhoedd
- Yn annibynnol
- Yn deg
- Yn dryloyw
- Yn gymesur.

1.23 Mae ein gwerthoedd yn eglur yn y modd yr ydym yn gweithio: ein hymagwedd tuag at ein goruchwyliaeth o gofrestru a rheoleiddio'r sawl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol, sut ydym yn datblygu cyngor polisi a sut ydym yn ymgysylltu â'n partneriaid i gyd. Rydym yn ceisio bod yn gyson o ran sut ydym yn gweithredu ein gwerthoedd.

1.24 Rydym yn annibynnol ond yn dal ein hunain yn atebol i'r cyhoedd ac i seneddau a chynulliadau'r Deyrnas Unedig ar gyfer yr hyn a wnawn a sut ydym yn ei wneud.

1.25 Rydym yn gwrando ar farn y bobl sy'n derbyn gofal. Rydym yn ceisio sicrhau yr ystyrir eu barn yng nghofrestriad a rheoleiddiad pobl sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

1.26 Rydym yn datblygu a hyrwyddo rheoleiddiad cyffyrddiad cywir.[27] Mae hyn yn rheoleiddio sy'n gymesur i'r risg o niwed i'r cyhoedd ac sy'n darparu fframwaith fydd

[27] Awdurdod Safonau Proffesiynol, 2010. *Right-touch regulation*. Ar gael ar www.professionalstandards.org.uk/policy-and-research/right-touch-regulation

yn caniatáu i broffesiynoldeb ffynnu a ble gellir cyflawni rhagoriaeth sefydliadol.[28] Rydym yn gweithredu egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir yn ein gwaith ein hunain.

Ein hamcan

1.27 Rydym yn gweithio i amddiffyn y cyhoedd, gosod safonau ac annog gwelliant yng nghofrestriad a rheoleiddiad pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i bopeth a wnawn.

Amcanion strategol

1.28 Sefydlir ein hamcanion strategol corfforaethol, a gytunwyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod cynllunio strategol ym Mai 2016 isod.

1.29 Byddwn yn gweithio i:

- Gyflawni'r broses adolygu perfformiad o fewn cyfnod clir o amser, gan geisio lleihau'r baich ar y rheolyddion a gwella effeithiolrwydd mewnol. Adrodd i'r Pwyllgor Iechyd gefnogi eu gwaith
- Gwella effeithlonedd proses ein gwaith Adran 29 wrth reoli risg a defnyddio ein data yn well i ddangos effaith a gwella perfformiad
- Sicrhau bod y tîm polisi yn canolbwyntio ar a gyda'r gallu i gyfrannu i ddiwygio rheoleiddiol ac unrhyw ddeddfwriaeth bosibl; edrych i wella ymarfer rheoleiddiol, safonau a diogelu'r cyhoedd trwy roi sylw a chyngor i'r rheolyddion ac ar gyfer y pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig
- Cadw ein costau i lawr tra'n cynnal gwerth am arian a chyflawni ymgynghoriad ffioedd effeithiol a phrydlon
- Recriwtio, dethol a sefydlu aelodau newydd i'r Bwrdd yn amserol a sicrhau perthynas weithredol effeithiol rhwng y Bwrdd a'r tîm gweithredol
- Ceisio sefydlogrwydd ariannol ar gyfer y rhaglen cofrestrau achrededig, ymestyn ei gyrhaeddiad ac annog gwelliant ym mherfformiad y cofrestrau fel fo angen
- Parhau i fod yn adweithiol parthed gweithgareddau ymgynghori a masnachol am y tro.

Egwyddorion busnes

1.30 Cydnabu ein Bwrdd y newidiadau ariannol a gweithredol y byddem yn wynebu wedi gweithrediad y Rheoliadau Ffioedd 2015 a'r angen penodol am wahaniad clir o incwm a gwariant ein gwahanol ffrydiau gwaith. Yn ogystal â gosod amcanion strategol diwygiedig, mae hefyd wedi gosod yr egwyddorion busnes canlynol ar ein cyfer:

- Gwaith rheoleiddio a gosod safonau: Mae'r holl ffioedd o'r cyrff rheoleiddiol yn cael eu talu i'n swyddogaethau statudol o drosolwg a gwelliannau rheoleiddiol yn unig, fel y sefydlwyd yn ein deddfwriaeth. Bydd unrhyw warged neu ddiffyg a gynhyrchir yn erbyn ein cyllideb fel y cytunwyd gan y Cyfrin Gyngor yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo ffi'r flwyddyn ganlynol (wedi i'r polisi wrth gefn gael ei weithredu)

[28] Diffinnir rhagoriaeth sefydliadol fel perfformiad cyson o arfer da wedi ei gyfuno â gwelliant parhaus

- Cofrestrau Achrededig: Mae ffioedd ar gyfer achredu neu adnewyddu o gofrestrau galwedigaethol yn cael eu gweithredu i ddarparu a datblygu'r rhaglen cofrestrau achrededig yn unig. Bydd unrhyw warged a gynhyrchir yn cael ei gadw er budd y rhaglen (wedi i'r polisi wrth gefn gael ei weithredu)
- Comisiynau gan Lywodraeth(au): Bydd prisio comisiynau a chontractau ymgynghori yn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Bydd unrhyw warged yn deillio o hyn yn cael ei ddefnyddio yn ôl doethineb y Bwrdd i gefnogi ein hamcanion strategol er lles y cyhoedd (wedi i'r polisi wrth gefn gael ei weithredu)
- Cyngor i sefydliadau eraill: Bydd prisio comisiynau a chontractau ymgynghori yn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Bydd unrhyw warged yn deillio o hyn yn cael ei ddefnyddio yn ôl doethineb y Bwrdd i gefnogi ein hamcanion strategol er lles y cyhoedd (wedi i'r polisi wrth gefn gael ei weithredu)

1.31 I sicrhau tryloywder, byddwn yn:

- Cyhoeddi ein cyfrifon blynyddol ac yn datgelu ein datganiadau ariannol wedi eu harchwilio yn llawn
- Dangos ein hincwm a gwariant yn glir parthed pob un o bedair swyddogaeth yr Awdurdod
- Cyhoeddi datganiad archwilydd yn sefydlu ein cydymffurfiad â'r egwyddorion busnes hyn.

1.32 Ar y cyd â'r egwyddorion hyn, mae ein Bwrdd wedi sefydlu polisi wrth gefn.

1.33 Mae'r Awdurdod wedi cytuno i gadw cronfa wrth gefn o gyfanswm o dri mis o gostau gweithredu, sef tua £1 miliwn, ble mae'r gwahaniaeth rhwng y canlynol wedi ei nodi:

- Elfen gyfyngedig yn gysylltiedig i waith rheoleiddio a safonau
- Elfen anghyfyngedig yn gysylltiedig i holl waith yr Awdurdod
- Y bwriad yw, gydag amser, bydd yr elfen gyfyngedig yn cyfateb i gyfanswm o ddau fis o gostau gweithredu
- Nid yw lluniad cyfredol cronfeydd wrth gefn yn cydymffurfio â'r rhaniad dau draean/un traean hwn oherwydd bod y sefyllfa agoriadol yn cynnwys cyllid Cymorth Grant hanesyddol gan yr Adran Iechyd
- Bydd lefel a lluniad ein cronfeydd yn cael eu hadrodd trwy ein Hadroddiad Blynyddol
- Bydd angen rhoi unrhyw arian a gymerir o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn yn ôl yn y flwyddyn neu flynyddoedd dilynol.

Datganiad y Prif Weithredwr

1.34 Fel y gwelir o gynnwys yr adroddiad hwn, mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn ystod y flwyddyn dan sylw, mae wedi llwyddo i reoli ei drefniadau ariannu newydd ac wedi datblygu'r rhaglen cofrestrau achrededig.

1.35 Mae swm y gwaith a gyflawnir gan staff wedi parhau i fod yn uchel. Mae'r nifer o achosion a gyfeiriwyd atom eleni wedi cynyddu 14 y cant. Mae'r nifer o achosion a

drafodom mewn cyfarfodydd achos a'u hapelio wedi gostwng, er bod y canran o atgyfeiriadau yn dal yn gyson.

1.36 Yn Hydref 2016, cyhoeddom *Regulation rethought* ble rydym yn sefydlu sut y gellid diwygio rheoleiddio proffesiynol i'w alluogi i fodloni heriau gofal iechyd yn y dyfodol.

1.37 Mae ein hymroddiad i ymchwil a dysgu wedi parhau gyda'n cynhadledd academaidd flynyddol, symposiwm a Chynhadledd Cofrestrau Achrededig yn cael cefnogaeth dda gan siaradwyr o a chyfranogwyr o safon.

1.38 Rydym wedi parhau gyda pherthnasau rhyngwladol ac wedi cyfrannu i'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Rheolyddion Deintyddol yng Ngenefa, y gynhadledd IAMRA yn Melbourne, Awstralia, y Fforwm Cydweithredol Rhyngwladol ar Reoleiddio Nyrsio yn Chicago, UDA a'r Fforwm Gweithredol ar Iechyd y Byd yn Montreal, Canada. Mae ein henw da yn rhyngwladol, fel y gwelir o'r nifer fawr o geisiadau am gyngor a chyfarfodydd a dderbyniwn, yn arwyddocaol ac yn tyfu.

1.39 Fel Prif Weithredwr, rwy'n hyderus fod yr Awdurdod yn perfformio'n dda; mae'n cynnal yr ansawdd uchel o'i berfformiad ac yn gweithio o fewn ei egwyddorion busnes a chyllideb. Mae'r cyfarwyddwyr yn cymryd cyfrifoldeb personol am eu cyllidebau ac am y risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig gyda'u meysydd gwaith, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan grŵp y cyfarwyddwyr a'i oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd.

Dangosyddion perfformiad allweddol

1.40 Mae'r adran hon yn esbonio sut ydym yn mesur perfformiad. Yn ein cynllun busnes blynyddol, fe gyflwynom amrywiol ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) ar gyfer ein gwaith. Rydym yn eu hadolygu yn rhan o raglen waith y grŵp cyfarwyddwyr. Rydym yn eu trafod gyda swyddogion yn yr Adran Iechyd a'r gweinyddiaethau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ein cyfarfodydd rhannu gwybodaeth cyfnodol.

1.41 Cyflwynir ein perfformiad yn erbyn y KPIs hynny sydd fwyaf tebygol o fod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn ystod 2016/17 isod:

Maes Gwaith	Dangosyddion perfformiad allweddol	Perfformiad
Penderfyniadau adran 29	100% o benderfyniad perthnasol wedi ystyried o fewn dyddiad cau statudol.	100% 4,285/ 4,285
Pryderon y cyhoedd am Gyrff Rheoleiddio	100% o bryderon wedi cydnabod o fewn pum niwrnod gwaith.	98% 309/ 316
Diogelwch Data a Gwybodaeth	Delio â phob (100%) Cais Gwrthrych am Wybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol. Delio â phob (100%) cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol.	100% 1/1 95% 21/22

Llywodraethu Ariannol a Chyfrifon Blynyddol	I dalu anfonebau diamheuol: 60% o fewn pum niwrnod, 100% o fewn 10 niwrnod.	 66% 597/908 100% 908/908
Adnoddau dynol	Salwch staff yn ddim mwy na 2% Trosiant staff i fod yn llai na 10%.	2% 224/9,519 13% 6/48
Cwynion ynglŷn â'r Awdurdod	Cydnabod 100% o gwynion ymhen pum niwrnod Ymateb i bob cwyn i'w cwblhau o fewn 28 niwrnod.	100% 9/9 100% 9/9
Cofrestrau Achrededig	90% o gofrestrau achrededig yn ymgeisio i barhau achrediad Bodlonir amserlenni: Ceisiadau yn dod gerbron y Panel o fewn 21 niwrnod i dderbyn yr holl wybodaeth / dogfennaeth ofynnol Panel yn adolygu ceisiadau adnewyddu o fewn pum niwrnod i'r dyddiad adnewyddu ar yr amod y derbyniwyd yr holl wybodaeth a dogfennaeth berthnasol Cyhoeddi llythyrau yn cynghori am yr angen i ymgeisio am adnewyddiad 12 wythnos cyn i'r achrediad ddarfod.	100% 21/21 100% 23/23 90% 18/20 100% 21/21

Dadansoddiad perfformiad

1.42 Fel y dengys yr adroddiad hwn, rydym wedi parhau i ffocysu ar ddiogelu'r cyhoedd, gwella rheoleiddio proffesiynol a chofrestru a chyflawniad effeithiol o'n holl swyddogaethau statudol. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod wedi cynnal safon ein perfformiad.

1.43 Mae swm y gwaith a gyflawnir gan staff wedi parhau i fod yn uchel. Rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a chydweithrediad yr ydym wedi derbyn gan y cyrff rheoleiddiol, yn arbennig eu cydweithrediad gyda'r cylch cynllunio busnes a'r ymgynghoriad ffioedd.

1.44 Mae'r rhaglen cofrestrau achrededig nawr yn gwbl integredig i'n cynlluniau gwaith, llywodraethu a rheoli ariannol. Gyda 23 o gofrestrau wedi eu hachredu yn cwmpasu 80,000 o ymarferwyr, mae'n gyfraniad gwerthfawr i ddewis ac ansawdd mewn iechyd a gofal.

1.45 Mae ein gwaith polisi a'n rhaglen ymchwil wedi parhau i dyfu dan ein dylanwad.

1.46 Rydym yn ymroddedig i arfer gorau mewn llywodraeth a gweithrediadau a rheolaeth ariannol. Rydym wedi treulio amser ac ymdrech penodol ar gynnal ein trefniadau ariannol newydd fel y sefydlwyd yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 a'r Rheoliadau Ffioedd Dilynol. Roedd y trefniadau yn galw am newid sylweddol yn ein harferion cyllidebu a chyfrifo ac wedi'n hachosi i feddwl yn ofalus am risgiau a sicrwydd newydd. Mae ein Bwrdd wedi bod yn arbennig o ystyrlon o'r materion hyn, er enghraifft, yn datblygu polisi cronfa wrth gefn, nawr nad yw ein gweithrediadau bellach wedi ei gefnogi gan gyllid llywodraeth.

Gwaith rheoleiddio a gosod safonau

Adran 29

1.47 Dan Adran 29 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, gallwn gyfeirio penderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer a wneir gan y naw corff rheoleiddio at y llys (gan fod atgyfeiriad gennym yn cael ei ystyried fel apêl gan y Llys) os byddwn yn ystyried nad yw'r penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

1.48 Eleni rydym wedi gweld cynnydd o 14 y cant yn y nifer o benderfyniadau achosion addasrwydd i ymarfer gan y rheolyddion, o 3,756 yn 2015/16 i 4,285 yn 2016/17.

1.49 Roedd mwyafrif y penderfyniadau a adolygwyd gennym (62 y cant) yn benderfyniadau panel yr NMC.

1.50 O'r 4,285 o achosion a dderbyniom yn 2016/17, cafodd 85 y cant (3,644) eu cau heb fod angen rhagor o wybodaeth.

1.51 O'r rhain, arweiniodd 887 at y rheolydd yn dileu enw'r cofrestrydd oddi ar ei gofrestr, ac felly nid oedd yn codi unrhyw bryderon am ddiogelu'r cyhoedd ac nid oedd angen ymyrraeth gan yr Awdurdod.

1.52 Yn ystod 2016/17, fe ystyriom 55 penderfyniad panel mewn cyfarfodydd achos ffurfiol, o gymharu â 44 o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod 2015/16. Fodd bynnag, roedd wyth o'r achosion hyn yn ymwneud ag apeliadau'r GMC ('cyfarfodydd achos adran 40B').

1.53 Yn dilyn cyfarfodydd achos, fe gyfeirion 13 o achosion at y Llys dan ein hawdurdodaeth Adran 29 (er i ni dynnu un o'r apeliadau hyn yn ôl yn ddilynol). Yn 2015/16 fe gyfeiriom 14 achos at y Llys.

1.54 Yn ogystal, fe ymunom â dwy apêl a gychwynnwyd gan y GMC fel parti, dan adran 40B y Ddeddf Feddygol 1983.

1.55 Yn yr achosion sy'n weddill a ystyriom mewn cyfarfodydd achos ffurfiol ond ble penderfynom beidio cyfeirio at y llys nac ymuno fel parti ag apêl GMC, fe nodom bwyntiau dysgu i'w porthi yn ôl i'r rheolyddion.

1.56 Er y cynnydd yn y nifer o achosion a adolygwyd yn 2016/17 (gweler tabl 2), mae ein tuedd o gyfeirio llai na 0.5 y cant o achosion at y Llys wedi parhau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (gweler tabl 3).

1.57 O'r 13 atgyfeiriad i'r Llys a wnaethom yn 2016/17, roedd wyth yn ymwneud â phenderfyniadau panel yr NMC, dau yn benderfyniadau a wnaethpwyd gan yr MPTS; dau yn benderfyniadau a wnaethpwyd gan baneli yr HCPC; ac un yn benderfyniad gan banel y GDC.

1.58 Mae'r gyfran gymharol uchel o benderfyniadau panel yr NMC sydd wedi eu cyfeirio at y Llys gennym yn adlewyrchu'n rhannol y ffaith bod 62 y cant o holl benderfyniadau'r panel a dderbyniwn gan yr NMC.

1.59 Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith adran 29 ym mharagraffau 3.1 i 3.28 yn rhan 1 yr adroddiad hwn.

Tabl 2 Nifer o achosion addasrwydd i ymarfer a adolygwyd yn flynyddol



Tabl 3 Nifer o achosion addasrwydd i ymarfer a gyfeiriwyd at y llys pob blwyddyn



* Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cyfanswm y nifer o atgyfeiriadau i'r llys, ond hefyd yn cynnwys nifer fechan o achosion a gafodd eu tynnu yn ôl, er enghraifft, 1 yn 2016/17.

Adolygiad perfformiad

1.60 Mae gennym ddyletswydd statudol i adrodd yn flynyddol ar berfformiad y rheolyddion o ran cyflawni eu dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy asesu eu perfformiad yn erbyn set o safonau a gytunwyd (y Safonau Rheoleiddio Da). O Ionawr 2016, fe gychwynnom ein hadolygiadau perfformiad yn defnyddio ein proses adolygu perfformiad diwygiedig, ac rydym bellach wedi cyhoeddi naw adroddiad adolygiad perfformiad unigol. Cychwynnom ar ein cylch nesaf o adolygiadau yn Ionawr 2017. Ceir rhagor o wybodaeth am yr adolygiad o berfformiad y rheolyddion iechyd a gofal yn adran 2.

Craffu ar brosesau penodiadau cynghorau'r rheolyddion

1.61 Rydym yn cynorthwyo'r Cyfrin Gyngor gyda phenodiadau i gynghorau'r cyrff rheoleiddiol (ac eithrio PSNI). Rydym yn darparu cyngor i'r Cyfrin Gyngor parthed unrhyw gystadleuaeth agored am brosesau penodiadau ac ailbenodiadau ac, os yw'r Cyfrin Gyngor yn gofyn am hynny, parthed unrhyw agwedd arall o swyddogaeth apwyntiadau'r Cyfrin Gyngor.

1.62 Yn 2016/17, darparom gyngor i'r Cyfrin Gyngor parthed 22 o brosesau sy'n cael eu rhedeg gan wyth rheoleiddiwr. Roedd deuddeg o'r prosesau hyn yn ymwneud â phenodiadau trwy gystadleuaeth agored, yn cwmpasu 24 o swyddi, gan gynnwys un rôl Cadeirydd. Roedd deg o'r prosesau hyn yn ymwneud ag ail-benodiadau, yn cwmpasu 25 o swyddi, gan gynnwys dwy rôl Cadeirydd. Fe gynghorom y Cyfrin Gyngor y gallai fod yn hyderus o'r holl brosesau hyn.

1.63 Yn ystod ein gwaith craffu, rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ogystal ag achosion o ymarfer da, ac rydym wedi rhannu hyn gyda'r rheolyddion unigol trwy gydol y flwyddyn. Cynhaliom seminar gyda'r cyrff rheoleiddio yn Hydref 2016 a'r consensws oedd ei fod wedi darparu ffordd ddefnyddiol o rannu arfer da.

1.64 Yn flaenorol, roedd ein canllawiau ar y broses wedi eu rhannu rhwng dwy ddogfen. Rydym nawr wedi cyfuno a diweddaru'r dogfennau hyn i gynnwys ein barnau ar

arfer da a phrosesau penodiadau. Mae wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn dilyn ymgynghori sylweddol gyda'r rheolyddion.

Prosiectau polisi ac ymchwil

1.65 Rydym yn gwneud amrywiaeth o waith i helpu sicrhau bod rheoleiddio yn diogelu'r cyhoedd yn effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ymchwil a chyhoeddi cyngor polisi ac edrych i'r dyfodol, i ragweld newid a sicrhau fod rheoleiddio yn parhau i fod yn ystwyth. Rydym yn annog cydweithrediad rhwng y rheolyddion a oruchwylir gennym ac academyddion i ysgogi ymchwil, dysgu a gwelliant. Ein hamcan yw sicrhau fod rheoleiddio a chofrestru yn seiliedig ar dystiolaeth o beth sy'n gweithio fel bod y rheolyddion yn effeithiol.

1.66 Rydym wedi parhau i weithio i adeiladu ein perthnasau gydag academyddion ac ymchwilwyr. Mae gennym bellach 100 o bobl ar ein rhestr o academyddion ac ymchwilwyr gyda diddordeb mewn rheoleiddio, neu y mae eu gwaith yn ymddangos i ni i fod yn berthnasol i wella rheoleiddio. Ar 9-10 Mawrth 2017 cynhaliom ein pedwaredd gynhadledd academaidd ac ymchwil ar *Feithrin ymddiriedaeth mewn pobl a llefydd*. Ein cydweithredwr academaidd ar gyfer y digwyddiad eleni oedd yr Athro Rosalind Searle, Athro Ymddygiad a Seicoleg Sefydliadol, Centre for Trust, Peace and Social Relations, Prifysgol Coventry. Mynychodd 100 o bobl yn cynnwys o sefydliadau academaidd, rheolyddion, sefydliadau ymchwil, cyrff proffesiynol, ymgynghorwyr yn gweithio yn y maes hwn, swyddogion llywodraeth, clinigwyr a chwmni cyfreithiol. Roedd mynychwyr yn cynnwys pob o bedair gwlad y Deyrnas Unedig, Iwerddon, Gwlad Belg, Canada, yr Unol Daleithiau ac Awstralia. Cafwyd 25 cyflwyniad ar ymchwil mewn gwahanol feysydd polisi ac ymarfer rheoleiddiol. Eleni, roedd y gynhadledd hanner niwrnod yn hirach er mwyn cynnal seminar ryngwladol yn edrych ar y berthynas rhwng rheoleiddio a chwmpas gweithwyr proffesiynol ar gyfer ymarfer mewn gwahanol wledydd.

1.67 Fe hyrwyddom drafodaeth a dadl yn y sector. Mynychodd 54 o bobl ein Symposiwm yn Chwefror 2017 gan archwilio'r thema *Regulating in an age of uncertainty: managing risk and changing environments*. Roedd trafodaethau yn canolbwyntio ar weithio ar draws ffiniau, amgylcheddau a gweithluoedd newidiol, arloesi technolegol a chynnal safonau mewn gweithfannau dan bwysau.

1.68 Y llynedd, fe esboniom pam y byddai angen diwygio rheoleiddio. Yn Hydref 2016, cyhoeddom *Regulation rethought*. Mae hyn yn seiliedig ar ein cyhoeddiad yn 2015 *Rethinking regulation*, ble esboniom pam nad yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer rheoleiddio bellach yn addas i'r diben a sefydlu ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Yn *Regulation rethought* cynigiwn sut y gellid rhoir' syniadau a sefydlwyd yn flaenorol ar waith. Mae hyn yn cynnwys diben a rennir ar draws y system reoleiddio, ffocws o'r newydd ar swyddogaethau craidd, a mwy o ffocws ar gost effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth fynd ar drywydd y swyddogaethau hynny. Rydym yn cynnig cofrestr gyhoeddus a rennir a system o drwyddedu, a oruchwylir gan un corff sicrhau ansawdd; mwy o bwyslais ar reolyddion yn defnyddio eu mewnwelediad a data i weithio mewn partneriaeth i nodi problemau yn gynnar; a dulliau byrrach, llai costus a mwy cydsyniol i gau achosion addasrwydd i ymarfer. Rydym yn argymell adolygiad o drefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd cyrsiau addysg uwch. Rydym hefyd yn trafod gweithredu ein methodoleg a sefydlwyd yn *Right-touch assurance: a methodology for assessing and assuring occupational risk of harm* (2016).

1.69 Mae *Right-touch assurance* yn offeryn arloesol ar gyfer asesu'r risg o niwed a gyflwynir gan wahanol alwedigaethau iechyd a gofal. Mae'r offeryn hwn yn dynodi'r math o sicrwydd sydd angen i reoli'r risg o niwed i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn deillio o ymarfer galwedigaeth. Fe'i bwriedir i helpu llywodraethau i wneud penderfyniadau gwrthrychol a thryloyw ar os ddylid rheoleiddio rolau newydd neu pa weithredoedd amgen ddylid eu cymryd, fel cofrestr achrededig, asesu cymhwyster neu reoliadau dan arweiniad cyflogwyr. Yn y tymor hirach, gellid defnyddio'r fethodoleg neu ei addasu i gynorthwyo penderfyniadau ar os ddylid rheoleiddio arbenigeddau, os dylid cael anodiadau ar gofrestrau, yn ogystal ag adolygu'r angen am gofrestriad darpariaeth ac i fyfyrwyr.

1.70 Fe wnaethom ymateb i 18 ymgynghoriad cyhoeddus yn 2016/17. Roedd y rhain yn cynnwys ymgynghoriadau polisi gan y rheolyddion a oruchwylir gennym; galwad Tŷ'r Arglwyddi am dystiolaeth ar gynaliadwyedd tymor hir y GIG; ymgynghoriad Llefydd Diogel yr Adran Iechyd; ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar gynlluniau gweithredu cenedlaethol ar gyfer adolygu rheoleiddio gweithwyr proffesiynol a 'phrawf cymesuredd' ar gyfer rheoleiddio; ac ymgynghoriad llywodraeth lwerddon ar reoleiddio arfaethedig cynghorwyr a seicotherapyddion. Cyhoeddir ein hymatebion i ymgynghoriadau ar ein gwefan.

1.71 Buom yn cyflwyno yng Nghynhadledd Reoleiddio'r Alban eleni ac ymgysylltu gyda rheolyddion a swyddogion llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr. Fe gyfrannom i nifer o gynadleddau yn cynnwys cynadleddau rheoleiddio rhyngwladol. Cawsom ein cynrychioli mewn gweithgorau Adran Iechyd yn cynnwys Bwrdd Llywodraethu Cavendish a'r Fforwm y Gweithlu Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Datblygom fersiwn newydd o'n gwefan Gymraeg i wella'r wybodaeth a ddarperir.

1.72 Cyhoeddom ein hadolygiad o'r llenyddiaeth ar hunaniaeth broffesiynol a'i gysylltiadau gyda rheoleiddio. Mae hwn yn bwnc sy'n berthnasol i nifer o'r trafodaethau cyfredol ynghylch uno posibl rheolyddion a datblygiad grwpiau newydd o ymarferwyr mewn gofal iechyd, megis gweithwyr cyswllt nyrsio a meddygol. Ymddengys bod sawl ffactor yn dylanwadu ar hunaniaeth broffesiynol, ac er ei bod yn bosibl nodi nodweddion cyffredin i broffesiynau, mae'n gysyniad hynod bersonol ac unigol a lunnir gan brofiadau a rhyngweithiadau unigolyn. Awgryma'r dystiolaeth brin a welsom parthed rheoleiddio y gall fod rhywfaint o rôl, bychan iawn o bosibl, ar gyfer rheoleiddio mewn hunaniaeth broffesiynol. Wrth ysgrifennu hyn, ydym yn aros am adroddiad terfynol ymchwilydd annibynnol, a gomisiynwyd gennym i gyflawni ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr gofal iechyd ar eu dehongliadau o hunaniaeth broffesiynol a rheoleiddio, i lenwi'r bwlch a nodom yn y llenyddiaeth.

Diwygio deddfwriaethol

1.73 Rhoddodd yr Awdurdod gyngor amserol a chyfarwyddyd i swyddogion, Arglwyddi ac ASau ar gynigion ar gyfer rheolydd newydd i weithwyr cymdeithasol, wrth i'r Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol fynd trwy'r Senedd. Roedd hyn yn arwain yn y pen draw at newidiadau positif yn y Bil yn gwneud y rheolydd newydd, Social Work England, yn annibynnol o Lywodraeth ac yn ei roi dan oruchwyliaeth statudol yr Awdurdod a fydd yn helpu sicrhau tryloywder a ffocws clir ar ddiogelu'r cyhoedd. Rydym yn dal i fod yn rhan o a darparu cyngor i'r gweithgor yn sefydlu'r rheolydd newydd.

1.74 Wrth ysgrifennu hyn, rydym yn dal i aros am gyhoeddi'r ymgynghoriad pedair gwlad ar ddiwygio rheolyddion gweithwyr iechyd a gofal. Wrth ragweld yr ymgynghoriad hwnnw, rydym wedi cyflawni gwaith paratoi ar addysg a hyfforddiant, addasrwydd i ymarfer, cofrestriad a sut y gall rheoleiddio fod yn fwy ataliol ei ffocws, gan adeiladu ar ein cyhoeddiad *Regulation rethought*.

1.75 Rydym yn parhau i fod o'r farn fod diwygio'r sector yn fater angenrheidiol a brys. Mae trefniadau rheoleiddio diwygiedig yn angenrheidiol i gefnogi cyflawniad gwasanaethau iechyd a gofal yn y dyfodol mewn ffordd hyblyg ac arloesol.

Cofrestrau Achrededig

1.76 Mae'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 wedi rhoi'r grym i'r Awdurdod achredu cofrestrau sy'n bodloni ein safonau er lled defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Mae'r rhaglen cofrestrau achrededig, a lansiwyd yn 2013, yn berthnasol i'r sector iechyd a gofal yn y Deyrnas Unedig. Fe'i sefydlwyd i ddarparu sicrwydd fod cofrestrau wedi eu rhedeg yn dda.

1.77 Mae cael eich achredu yn golygu fod sefydliad wedi bodloni'r Awdurdod ei fod yn bodloni ei safonau uchel. Mae'n nod ansawdd. Gall cofrestrau achrededig ddefnyddio nod achredu'r Awdurdod (a welir isod) er mwyn gallu eu hadnabod yn hawdd.

1.78 Mae'r rhaglen wedi ei hariannu trwy gyfraniad o ffioedd achredu a chymhorthdal gan yr Adran Iechyd. Nid yw'r rhaglen yn ariannu ei hun eto, ac mae'n parhau i fod angen y cymhorthdal. Roeddem yn falch i dderbyn cytundeb i adnewyddu'r cymhorthdal, fodd bynnag cafwyd oedi yn sicrhau'r cyllid gan yr Adran Iechyd oherwydd ei brosesau caffael. Byddwn yn ymgynghori ar ymagwedd fodel ffioedd newydd yn 2017/18.

1.79 Rydym wedi achredu 23 o gofrestrau hyd yma, yn cwmpasu 30 o alwedigaethau ac 80,000 o ymarferwyr. Adolygir yr achrediad yn flynyddol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roeddem wedi achredu pedair cofrestr newydd ac wedi adnewyddu 17. Mae dau asesiad blynyddol wedi eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

1.80 O 1 Ebrill 2016, fe gyflwynom elfen atodol i'n safona ddysg a hyfforddiant i gynyddu tryloywder ac i hysbysu'r cyhoedd wrth ddewis ymarferwyr o gofrestr achrededig. Cynhaliwyd yr asesiad cyntaf yn erbyn hyn ym Mehefin 2016. Mae pedair ar ddeg o gofrestrau wedi eu hasesu yn erbyn y safon newydd honno. Bydd asesiad yn erbyn y safon hon yn digwydd yn yr adolygiadau blynyddol i ddod ar gyfer y cofrestrau sy'n weddill.

1.81 Yn Chwefror 2017, fe ddarparom arweiniad i ategu ein safon sy'n gofyn i gofrestrau gydnabod penderfyniadau ymddygiad proffesiynol a wneir gan gofrestrau achrededig a rheolyddion eraill. Roedd hyn yn dilyn canlyniad adolygiad barnwrol yn ymwneud â dwy gofrestr achrededig yn Rhagfyr 2016, a farnodd ble roedd dwy gofrestr achrededig neu fwy yn cwmpasu'r un galwedigaethau a gyda'r un cod

moeseg fwy neu lai, na ellid rhoi cofrestrydd trwy weithdrefnau ymddygiad proffesiynol gan ddwy gofrestr wahanol.

1.82 I annog dysgu a gwelliant, cynhaliom seminar ar gyfer cofrestrau ar drin cwynion. Yn ogystal, cynhaliom weminarau ar gyfer sefydliadau sy'n bwriadu ymgeisio neu'n paratoi i ymgeisio am achrediad gyda ni.

1.83 Fe weithiom mewn partneriaeth gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Iechyd y Cyhoedd i archwilio sut gall gweithlu'r cofrestrau achrededig gyfrannu ymhellach i fentrau Public Health England i wella iechyd cyhoeddus y genedl. Cyflwynir yr adroddiad yn ein cynhadledd ym Mai 2017. Dechreuom beilot hefyd gyda chonsortia comisiynu meddygon teulu yn Ne-Orllewin Lloegr i archwilio sut gall meddygon teulu weithio mewn partneriaeth gyda chofrestrau achrededig i gefnogi gofal ble mae'r claf yn ganolog. Fe weithiom gyda NHS England i'w helpu i sefydlu cofrestr asesu cymhwyster ar gyfer gweithwyr yn y diwydiannau gwyddorau bywyd sy'n gweithio mewn ymddiriedolaethau GIG ac yn rhyngweithio'n rheolaidd gyda chleifion ac/neu staff rheng flaen y GIG. Achredwyd dwy gofrestr ymarfer cosmetig heb lawdriniaeth, Save Face a Treatments You Can Trust, fel yr argymhellwyd gan Adolygiad yr Athro Syr Bruce Keogh ar Reoleiddio Ymyraethau Cosmetig.

1.84 Yn ystod y flwyddyn, fe dderbyniom ac fe ystyriom 21 ymholiad ynghylch cofrestrau achrededig. O ganlyniad i'n ffocws ar ddelio â chwynion, penderfynom o fis Mawrth 2017 i gynnwys adnewyddiad blynyddol o achrediad ac archwiliad o achosion cwynion yn ein hasesiadau. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau hyn y flwyddyn nesaf.

1.85 Rydym wedi parhau i weithio i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen cofrestrau achrededig a phwysigrwydd defnyddio cofrestryddion arnynt. Mae hyn yn cynnwys mynychu cynadleddau meddygon teulu, gweithio gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, NHS Choices a Healthwatch, ymysg eraill. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth o'r rhaglen yn parhau i fod yn annigonol er mwyn iddo ddarparu budd llawn i'r cyhoedd. Rydym wedi ein siomi gyda'r cyfleoedd a gollwyd i'r llywodraeth hyrwyddo'r rhaglen, sy'n gweithredu polisi llywodraeth. Rydym yn ymgysylltu gyda'r Adran Iechyd i ofyn am fwy o dâl i werth y rhaglen.

1.86 Rydym hefyd wedi gofyn i'r Adran gynorthwyo i sicrhau newidiadau i'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr a'r Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus i gryfhau'r amddiffyniad y gall cofrestrau achrededig gynnig. Ar hyn o bryd, mae eu heithrio o'r Deddfau hynny yn cyfyngu eu gallu i ymateb i rai cwynion oherwydd materion diogelu data.

1.87 Gwnaethom gyflwyniadau ynghylch y rhaglen mewn gwahanol ddigwyddiadau a chwrdd â nifer o randdeiliaid yn ystod y flwyddyn. Ymatebom hefyd i ymgynghoriad sy'n berthnasol i'r rhaglen ac i gofrestrau achrededig.

Comisiynau gan Lywodraeth(au)

1.88 Yn Awst 2016, gofynnodd yr Adran Iechyd i'r Awdurdod am gyngor ar y lefel briodol o drosolwg ar gyfer rôl newydd y Cydymaith Nyrsio. Nid oeddem yn gallu darparu cyngor diffiniol gan nad oedd cwmpas y rôl wedi ei phennu'n ddigonol i roi'r fethodoleg ar waith yn ddibynadwy. Fe argymhellom gofrestru yn hytrach na rheoleiddio ar gyfer Cymdeithion Nyrsio fel mesur dros dro nes y gellir cynnal asesiad llawn. Fodd bynnag, cyhoeddodd yr Adran Iechyd yn dilyn hynny ei fod yn bwriadu bwrw ymlaen gyda rheoleiddio'r rôl yn Lloegr a gofyn i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gyflawni'r swyddogaeth hon, gyda Chyngor yr NMC yn cytuno yn Ionawr 2017.

1.89 Yn Rhagfyr 2016, cyhoeddom gyngor i'r Llywodraeth ar werthusiad cychwynnol o ddichonoldeb cynlluniau gorchmynion gwahardd ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal na reoleiddir yn y Deyrnas Unedig. Archwiliodd y comisiwn hwn gynlluniau gorchmynion gwahardd sydd ar waith ar hyn o bryd, gan edrych ar nodweddion cyffredin ar draws y cynlluniau ac amlygu goblygiadau posibl sefydlu gorchmynion gwahardd yn y sector iechyd a gofal.

Cyngor i sefydliadau eraill

1.90 Cyhoeddom adroddiad ein hadolygiad perfformiad o Goleg Nyrsys Cofrestredig British Columbia. Roeddem wedi addasu ein Safonau Rheoleiddio Da ac ychwanegu set o safonau ar lywodraethu, er mwyn asesu perfformiad y Coleg yn eu herbyn a chynhyrchu adroddiad terfynol. Croesawyd yr adroddiad gan y Coleg sy'n gweithredu'r argymhellion ynddo.

1.91 Croesawom intern o lywodraeth Hong Kong oedd yn astudio ein rhaglen cofrestrau achrededig. Wedi ein gwaith blaenorol gyda Phrifysgol China Hong Kong, cyhoeddodd llywodraeth Hong Kong y bydd yn lansio ei raglen cofrestrau achrededig ei hun. Rydym yn parhau i gynghori ar ei ddatblygiad.

1.92 Rydym yn gweithio gyda'r Adran Addysg ar greu Social Work England.

1.93 Rydym wedi secondio aelod o staff i'r Coleg Cenedlaethol Plismona.

Crynodeb ariannol

1.94 Roedd ein cyllid ar gyfer 2016/17 yn cynnwys £3.86 miliwn o ffioedd a dalwyd gan y rheolyddion ac £0.2 miliwn gan yr Adran Iechyd. Yn 2015/16 roedd ein cyllid yn £2.7 miliwn o ffioedd gan y rheolyddion, £1.4 miliwn gan yr Adran Iechyd a £0.038 miliwn gan y gweinyddiaethau datganoledig.

1.95 Ar 31 Mawrth 2017, roedd gennym gronfa wrth gefn o £1.87 miliwn (2015/16: £1.81 miliwn) wedi costau gweithredu net o £0.11 miliwn (2015/16: £0.69 miliwn). Cyfrifir costau gweithredu ar gyfer 2016/17 yn net o ffioedd a dderbyniwyd gan y rheolyddion, a gofnodir fel incwm yn unol â IAS 18.

1.96 Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, cynhyrchom warged a gynyddodd ein sefyllfa cronfeydd wrth gefn o £0.06 miliwn.

1.97 Dangosir dadansoddiad o bolisïau cyfrifyddu yn nodyn 1 y cyfrifon. Ni chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol iddynt yn ystod y flwyddyn.

Tryloywder

1.98 Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

1.99 Cynhelir ein polisi taliad credydwr yn unol â Pholisi Taliad Gwell y llywodraeth, sydd ar hyn o bryd yn darparu tâl ar gyfer cyflenwyr o fewn pum niwrnod gwaith i dderbyn anfoneb, ac eithrio ble gall fod ymholiad neu anghydfod am anfoneb.

1.100 Mae'r targed hwn yn heriol, yn arbennig i sefydliad bach fel ni, a dim ond trwy gyflogi mwy o staff y gellid cyflawni hyn. Felly, ein nod yw talu 60 y cant o anfonebau diamheuol o fewn pum niwrnod a 100 y cant o fewn 10 niwrnod.

1.101 Yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, talwyd 100 y cant o anfonebau mewn 10 niwrnod a 66 y cant (yn ôl nifer o anfonebau) a 65 y cant (yn ôl cyfanswm gwerth anfonebau) o fewn pum niwrnod. Ceir manylion ein cofnod taliadau ar ein gwefan.[29]

1.102 Ni thalwyd unrhyw log dan y Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998.

1.103 Y balans oedd yn ddyledus i gredydwyr masnach ar 31 Mawrth 2017 oedd £17,086 (2015/16: £11,445). Fel cyfran o'r cyfanswm a anfonebwyd gan gyflenwyr yn y flwyddyn, mae hyn yn cyfateb i 3.20 diwrnod (2015/16: 2.13 diwrnod).

1.104 Mae gwybodaeth arall y gellir ei gweld ar adrannau datgeliad a thryloywder llywodraeth ein gwefan yn cynnwys:

- Gwariant dros £25,000
- Treuliau aelodau'r Bwrdd
- Treuliau'r tîm gweithredol
- Lletygarwch.

Cynaliadwyedd

1.105 Oherwydd ein maint, nid yw'n ofynnol i ni ddarparu adroddiad cynaliadwyedd. Rydym, fodd bynnag, yn ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.

1.106 Cafodd ein swyddfa ei hailddodrefnu, cyn i ni ddod yn denantiaid, yn unol â'r safon asesiad amgylcheddol BREEAM, sy'n edrych ar wresogi, goleuo, ailgylchu a deunyddiau eraill, gan dderbyn graddiad 'rhagorol'.

1.107 Rydym yn meddiannu 2.58 o'r adeilad, gyda rhan ohono wedi ei feddiannu gan ein tenantiaid ein hunain.

1.108 Cesglir dŵr glaw a'i ddefnyddio i gyflenwi'r cyfleusterau glanweithiol, gan leihau ein defnydd o ddŵr glân.

1.109 Mae gan ein swyddfeydd gyfleusterau i ddidoli gwastraff i'w ailgylchu, ac i annog staff i wneud hyn ni chesglir unrhyw wastraff o finiau wrth ddesgiau. Mae gwastraff yn cael ei wahanu i wydr, ailgylchadwy, nid i'w ailgylchu a gwastraff bwyd. Mae contractwr yn didoli'r deunydd ailgylchu cymysg. Nid oes unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi. Mae gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei losgi. Yn 2016/17, roedd 98 y cant o wastraff, yn yr adeilad, wedi ei ailgylchu a 2 y cant wedi ei losgi. Mae cost cael gwared ar waredu gwastraff wedi ei gynnwys yn nhaliadau gwasanaeth yr adeilad.

1.110 Cyfrifir ein defnydd o nwy a dŵr fel 2.58 y cant o'r cyfanswm. Mae ein trydan wedi ei fonitro ar wahân ac mae'r defnydd ar gyfer y gofod a rhentir gan y landlord yn hysbys. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys defnydd gan ein tenantiaid. Cyflwynir ein treuliant ar gyfer 2016/17 a'r flwyddyn flaenorol isod.

	2016/2017	2015/2016
Nwy	7,672kWh	6,253kWh
Trydan	65,031kWh	64,882kWh
Dŵr	146.64m^3	155.77m^3
Gwaredu gwastraff	2.76 tunnell	3.33 tunnell

[29] www.professionalstandards.org.uk/about-us/ask-us-for-information/government-disclosure/payment-statistics

1.111 Mae gosod cywasgyddion gwastraff wedi lleihau amlder casgliadau o ddyddiol i bob pythefnos, gan leihau allyriadau cerbydau.

1.112 Rydym yn ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd. Pan fyddwn yn prynu offer, rhoddir ystyriaeth i ddefnydd ynni. Defnyddiwn ddeunydd wedi ei ailgylchu ble bynnag fo'n bosibl a'i fod yn cynnig gwerth am arian.

1.113 Rydym yn parhau i geisio lleihau'r defnydd o bapur trwy wneud y defnydd gorau posibl o'n safle mewnrwyd a gwefan i ddosbarthu gwybodaeth. Rydym hefyd yn defnyddio fersiynau electronig o bapurau cyfarfod ble fo'n dechnegol ymarferol. Ble defnyddir papur, rydym yn anelu at leihau defnydd ohono trwy reolaeth weithredol o argraffwyr yn gorfodi argraffu dwyochrog.

1.114 Rydym yn defnyddio 'papur wedi ei ailgylchu llwydwyn' ar gyfer ein hanghenion o ddydd i ddydd. Defnyddiom 71 cas o bapur yn 2016/17 (69 cas yn 2015/16).

1.115 Os oes angen teithio, rydym yn defnyddio cludiant cyhoeddus cymaint â phosibl ac wedi cynyddu ein defnydd o gynadledda ffôn a fideo i osgoi'r angen i deithio. Ble fo'n briodol, cyflawnir teithiau o fewn y Deyrnas Unedig ac Ewrop ar y trên.

1.116 Rydym wedi parhau i gasglu gwybodaeth amgylcheddol parthed teithiau a wneir gan y Bwrdd ac aelodau staff.

Dull teithio	**2016/2017**		**2015/2016**	
	CO^2/kg Cyfanswm	**CO^2/kg Cyfartaledd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn***	**CO^2/kg Cyfanswm**	**CO^2/kg Cyfartaledd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn***
Hedfan*	153	4	4,268	125
Trên	633	17	762	22

*Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i deithiau awyren a archebwyd trwy ein cyflenwr canolog yn unig. Mae rhai hediadau rhyngwladol a archebwyd ar wahân, yn aml gan y sefydliadau comisiynu, heb eu cynnwys

Risg

1.117 Ceir manylion hyn ym mharagraffau 2.65-2.71.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd

Harry Cayton CBE
Swyddog Cyfrifyddu

9 Mehefin 2017

2. Adroddiad Atebolrwydd

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

2.1 Mae gennym dîm gweithredol a nodir isod, yn cwmpasu ein tri maes gwaith: llywodraethu a gweithrediadau; craffu ac ansawdd; a pholisi a safonau.

2.2 Mae cofrestr buddiannau uwch reolwyr ar gael ar ein gwefan.[30]

2.3 Mae cyfarwyddwyr yn aelodau o staff ac yn cael eu talu yn unol â pholisïau staff.

Harry Cayton	Prif Weithredwr
John McDermott	Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau
Mark Stobbs	Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd
Christine Braithwaite	Cyfarwyddwr Polisi a Safonau

Penodiadau cyhoeddus

2.4 Yn gyffredinol gwneir penodiadau cyhoeddus am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd, y gellir ei ymestyn am ail dymor. Ni ddylai cyfanswm yr amser a wasanaethir fod yn fwy nag wyth mlynedd.

2.5 Rhodda Atodlen 7 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 gyfarwyddiadau ar gyfer penodi aelodau i'r Cyngor.

2.6 Yn yr hydref 2016, daeth cyfnod pedwar aelod o'n Bwrdd i ben; Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac aelodau'r Bwrdd o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

2.7 Yn dilyn proses recriwtio gyhoeddus, penododd y Cyfrin Gyngor Frances Done OBE yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg am gyfnod o bedair blynedd, yn effeithiol o 1 Ionawr 2017.

2.8 Gwnaeth y gweinyddiaethau datganoledig hefyd benodiad yr un i'n Bwrdd, gyda Moiram Ali, Thomas Frawley CBE a Marcus Longley yn cael eu penodi o'r Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru yn y drefn honno am yr un cyfnod o amser.

2.9 Ceir manylion penodiadau'r Bwrdd a pwy sy'n eu gwneud yn y tabl isod.

2.10 Ceir manylion swyddi cyfarwyddwyr a buddiannau arwyddocaol sydd gan y bwrdd yn y gofrestr buddiannau ar ein gwefan.[31]

[30] www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/board/management-team-register-of-interests-2016.pdf?sfvrsn=0
[31] www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/board/board-register-of-interests.pdf

Aelodau'r Bwrdd

Aelod o'r Bwrdd	Penodwyd gan
George Jenkins OBE (Cadeirydd)	Cyfrin Gyngor
Renata Drinkwater	Cyfrin Gyngor
Ian Hamer OBE***	Gweinidogion Cymru
Andrew Hind CB*	Ysgrifennydd Gwladol
Frances Done CBE**	Cyfrin Gyngor
Stuart MacDonnell*	Adran Iechyd Gogledd Iwerddon
Thomas Frawley CBE**	Adran Iechyd Gogledd Iwerddon
Jayne Scott*	Gweinidogion yr Alban
Moiram Ali**	Gweinidogion yr Alban
Antony Townsend	Cyfrin Gyngor
Harry Cayton CBE	Bwrdd yr Awdurdod

* Hyd at 31 Rhagfyr 2016
** O 1 Ionawr 2017
*** yn parhau nes bydd aelod newydd y Bwrdd yn dechrau ym Mai 2017

2.11 Gellir gweld manylion presenoldeb aelodau'r Bwrdd yn y datganiad Llywodraethu.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu

2.12 Dan Ganllaw ar Godau Arferion Gorau ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet, rydym yn gyfrifol am sicrhau cywirdeb yn ei ddefnydd o gronfeydd cyhoeddus chyfiawnhau eu defnydd. Dan Atodlen 7 Paragraff 16 (2) Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, mae'n ofynnol i ni baratoi datganiad o gyfrifon parthed pob blwyddyn ariannol ar ffurf a sail a gyfarwyddir gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Iechyd, gyda chaniatâd Trysorlys EM. Dylid paratoi'r cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o gyflwr yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a gwariant, cyfanswm newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

2.13 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i ni:

- Arsylwi ar y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chaniatâd Trysorlys EM, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgeliad priodol, a gweithredu polisïau cyfrifo priodol ar sail gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- Datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriad materol yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol i ragdybio y byddwn yn parhau i weithredu.

2.14 Yn dilyn newid yn ein trefniadau cyllido, mae'r Bwrdd wedi penodi'r Prif Weithredwr fel ein Swyddog Cyfrifyddu. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys ei gyfrifoldeb ar gyfer cywirdeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus mae'n

atebol amdanynt ac am gadw cofnodion cywir. Er nad ydym yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol, mae'n arsylwi'r gofyniad a sefydliad yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a gyhoeddir gan Drysorlys EM ac yn Managing Public Money.

Esboniad pellach

2.15 Newidiodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 enw'r CHRE i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a rhoi pŵer i'r Awdurdod achredu cofrestrau gwirfoddol galwedigaethau iechyd a gofal. Newidiodd y Ddeddf hefyd y sail ar gyfer cyllido'r Awdurdod i system o ffioedd a thaliadau ar y cyrff mae'n eu goruchwylio neu'n darparu gwasanaethau iddynt. Daeth y rheoliadau ffioedd i rym yn Awst 2015, ac wedi hynny nid yw'r Awdurdod wedi derbyn cymorth grant gan yr Adran Iechyd yn Lloegr na llywodraethau datganoledig y Deyrnas Unedig. Mae Deddf 2012 yn cynnwys darpariaeth i Gyfarwyddiadau Cyfrifon yr Awdurdod gael eu cyhoeddi gan y Cyfrin Gyngor. Nid yw'r ddarpariaeth hon wedi ei deddfu eto, felly i ddiben y cyfrifon hyn, mae'r Awdurdod yn dal i ddilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd yn 2013-14 gan yr Adran Iechyd.

Trin data

2.16 Ceir manylion hyn ym mharagraffau 2.72-2.78.

Datganiad llywodraethu

2.17 Mae gan ein Bwrdd gyfrifoldeb corfforaethol i sicrhau fod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac am hyrwyddo defnydd effeithiol, economaidd ac effeithlon o'i adnoddau.

2.18 Mae Bwrdd yr Awdurdod yn cynnwys saith aelod anweithredol ac un aelod gweithredol. Mae pob aelod anweithredol o'n Bwrdd wedi eu penodi o blith y cyhoedd, fel ein bod yn gwbl annibynnol o'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol a'r rheolyddion yr ydym yn eu goruchwylio.

Cadeirydd y Bwrdd

2.19 Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb arweinyddiaeth benodol ar y materion canlynol:

- Arwain y Bwrdd o ran llunio ein strategaeth
- Sicrhau bod y Bwrdd, wrth wneud ei benderfyniadau, yn cymryd sylw dyledus o unrhyw ganllaw perthnasol
- Hyrwyddo defnydd effeithiol, economaidd, ac effeithlon o adnoddau, yn cynnwys staff
- Annog safonau uchel o gywirdeb
- Sicrhau fod y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn a bod cofnodion y cyfarfodydd yn gofnod cywir o'r penderfyniadau a wnaed a, ble fo'n briodol, farnau aelodau unigol
- Sicrhau yr adroddir yn flynyddol ar waith yr Awdurdod i'r Senedd.

Presenoldeb yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd

2.20 Cynhaliwyd chwech cyfarfod o'r Bwrdd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

2.21 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2016/17 fel a ganlyn:

Aelod o'r Bwrdd	Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd	Posibl
George Jenkins OBE (Cadeirydd)	6	6
Renata Drinkwater	6	6
Ian Hamer OBE***	6	6
Andrew Hind CB*	4	4
Frances Done CBE**	2	2
Stuart MacDonnell*	3	4
Thomas Frawley CBE**	2	2
Jayne Scott*	3	4
Moiram Ali**	2	2
Antony Townsend	6	6
Harry Cayton CBE	6	6

* Hyd at 31 Rhagfyr 2016
** O 1 Ionawr 2017
***Yn parhau nes bydd aelod newydd yn dechrau Mai 2017

2.22 Yn ystod y flwyddyn a adolygir, roedd y Bwrdd yn weithredol o ran sicrhau y cynhaliwyd ein swyddogaethau statudol a bod y bygythiadau yr oeddem yn eu hwynebu yn cael sylw a chyfleodd yn cael eu cydnabod. Cyflawnodd hyn trwy ddefnydd effeithiol a monitro'r gofrestr risg a fframwaith sicrwydd a thrwy fod yn wyliadwrus ynglŷn ag ansawdd ein hallbynnau.

2.23 Mae'r Bwrdd yn hyderus ei fod yn dal i dderbyn adroddiadau priodol, cyflawn a pherthnasol gan y gweithgor i sicrhau y gall gyflawni ei rôl strategol ac y gall ddal y gweithgor yn atebol. Darperir sicrwydd ansawdd gan y Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n adrodd i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu'r holl bapurau polisi ac adroddiadau allweddol cyn cyhoeddi i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchel disgwyliedig. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn adroddiadau ariannol ym mhob cyfarfod ac yn adolygu'r gofrestr risg ddwywaith y flwyddyn.

2.24 Mae'r Bwrdd yn talu sylw arbennig i gyflawniad ymchwiliadau ac adolygiadau arbennig yr Awdurdod ac yn sicrhau ei hun yn ofalus ynghylch ansawdd yr adroddiadau terfynol.

2.25 Mae'r Bwrdd yn chwarae rôl bwysig o ran sefydlu'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr Awdurdod ac mae'n ystyried hyn a materion eraill cysylltiedig yn ei ddiwrnod cynllunio blynyddol.

2.26 Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu ei berfformiad ei hun yn rhan o'i gynllunio strategol.

2.27 Mae'r Bwrdd wedi talu sylw arbennig at ddethol a sefydlu aelodau newydd er mwyn cael cyfuniad da o sgiliau a sicrhau trosiant effeithiol. Mae'r Bwrdd o'r farn ei fod yn gweithredu'n effeithiol.

2.28 Mae cynnal ansawdd ein gwaith yn ystyriaeth bwysig i'r Bwrdd. Mae'n cyfrannu i gyhoeddiadau ac adroddiadau cyn eu cyhoeddi ac yn cymryd diddordeb mewn ymchwil ac mewn datblygiad polisi. Mae aelodau'r Bwrdd yn mynychu cynhadledd ymchwil flynyddol a Symposiwm blynyddol yr Awdurdod.

2.29 Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu gwybodaeth a dderbynia am berfformiad yr Awdurdod gan bartïon allanol yn cynnwys y rheolyddion statudol, y cofrestrau achrededig a'r Adrannau Iechyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

2.30 Mae holl aelodau'r Bwrdd yn cael eu harfarnu yn flynyddol gan y Cadeirydd ac yn gallu rhoi sylw ar berfformiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

2.31 Mae manylion sicrwydd ansawdd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Craffu ac i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Adroddwn ar eu gweithgareddau ar wahân. Adolygir Cylch Gorchwyl y ddau bwyllgor yn flynyddol.

Pwyllgorau a gweithgorau'r Bwrdd

Pwyllgor Archwilio a Risg

2.32 Mae gan y Bwrdd Bwyllgor Archwilio a Risg i'w gefnogi yn ei gyfrifoldebau i reoli risg a llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn arolygu pa mor gynhwysfawr yw sicrwydd o ran bodloni anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Atebolrwydd ac adolygu dibynadwyedd a chywirdeb y sicrwydd hwn.

2.33 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Risg rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

2.34 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2016/17 fel a ganlyn:

Aelod o'r pwyllgor	Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd	Posibl
Andrew Hind CB*	4	4
Frances Done CBE**	Amh	Amh
Stuart MacDonnell*	4	4
Jayne Scott*	3	4
Moiram Ali**	Amh	Amh

* Hyd at 31 Rhagfyr 2016
** O 1 Ionawr 2017

2.35 Adroddir ar gofnodion cyfarfodydd y pwyllgor yn ffurfiol i'r Bwrdd yn ogystal â barn y pwyllgor ar y gofrestr risg a'r newidiadau a wnaed iddi.

2.36 Mae'r pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl a rhaglen waith yn flynyddol ac yn adrodd unrhyw newidiadau y bydd yn cynnig i'r Bwrdd. Pob blwyddyn, mae'n adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd ar:

- Ei waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf
- Asesiad o drefniadau llywodraethu gwybodaeth
- Yr adroddiadau archwiliad mewnol a gyflwynwyd iddo

- Barnau'r archwilwyr.

2.37 Mae'r pwyllgor yn gosod ei raglen waith ei hun ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae hyn yn dylanwadu ar y rhaglen waith a osodir gan yr archwilwyr mewnol.

Canolfan archwilio fewnol rheolyddion

2.38 Rydym wedi dewis bod o fewn Canolfan Archwilio Fewnol Rheolyddion y Llywodraeth. Archwilwyr mewnol cyfredol y Ganolfan, Grant Thornton (GT), oedd ein harchwilwyr mewnol ar gyfer 2016/17.

2.39 Roedd y gwaith archwilio mewnol ar gyfer eleni yn canolbwyntio ar:

- Rheoliadau ariannol allweddol
- Dilyn ar argymhellion blaenorol
- Ymlyniad i'n hegwyddorion busnes a pholisi cronfa wrth gefn.

Rheoliadau ariannol allweddol

2.40 Ystyriodd yr adolygiad ddigonolrwydd cynllun ac effeithlonrwydd gweithredol rheoliadau ariannol allweddol, yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau, cysoniad, anfonebu, cyflogres, pwrcasu i dalu ac adrodd ar reoli.

2.41 Casglodd yr adolygiad, a nododd un cam bychan oedd yn deilwng o sylw i'r Awdurdod ystyried:

'...mae gan yr Awdurdod broses gorfforaethol sydd wedi ei chynllunio'n dda ar gyfer systemau ariannol allweddol a gynhwysir yng nghwmpas yr adolygiad hwn ac mae'r rhain yn gweithredu'n effeithiol yn seiliedig ar brofion sampl.**'**

Dilyn ar argymhellion blaenorol

2.42 Ystyriodd yr Awdurdod weithredoedd sy'n gysylltiedig gydag amrywiol argymhellion blaenorol, yn cynnwys cofrestrau achrededig, ymgynghoriadau a rheoliadau ariannol allweddol.

2.43 Casglodd yr adolygiad, a nododd o'r wyth argymhelliad, bod pedair wedi eu cwblhau, un ar waith, dwy yn hwyr ac un ddim wedi cyrraedd y dyddiad terfyn eto:

'Mae'r rheolwyr yn sicrhau cynnydd da ar weithredu argymhellion archwiliad mewnol a gytunwyd yn flaenorol**...'**

Ymlyniad i'n hegwyddorion busnes a pholisi cronfa wrth gefn

2.44 Edrychodd yr adolygiad hwn ar os oedd yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â'i arferion busnes ei hun a pholisi cronfeydd wrth gefn a sefydlir uchod.

2.45 Casglodd yr adolygiad, a nododd dri cham bychan oedd yn deilwng o sylw i'r Awdurdod ystyried:

`*Yn y cyfnod Ebrill 2016 – Mawrth 2017, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd hyd yma, ac yn amodol i gwblhau'r gwaith sy'n weddill, canfuom fod yr Awdurdod wedi dilyn y gyfres o egwyddorion busnes a pholisi cronfeydd wrth gefn a sefydlodd... Ni nododd ein gwaith unrhyw wallau sylfaenol nac arwyddocaol parthed gweithredu'r egwyddorion na pholisi cronfeydd wrth gefn, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnom*

Cofrestr risgiau

2.46 Mae'r Grŵp Cyfarwyddwyr yn adolygu'r gofrestr risgiau yn chwarterol. Pob chwe mis, fe ystyrir yr adroddiad wedi ei ddiweddaru gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac yna gan y Bwrdd. Bydd risgiau yn cael eu hychwanegu, diweddaru neu ddileu tu allan i'r broses hon wrth i'r angen godi.

2.47 Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y pwyllgor y gofrestru risg a gedwir gan y gweithgor. Roedd y prif risgiau a drafodwyd, gan ddelio'n fanwl â rhai yn yr adroddiad strategol, yn ymwneud ag amseru'r trefniadau cyllid a chyfleoedd i wella ein gwasanaethau cefnogaeth.

Fframwaith sicrwydd

2.48 Yn ystod 2014/15, ystyriodd y pwyllgor sut gellid sicrhau aelodau'r Bwrdd am weithrediad yr Awdurdod a sut y gellir dogfennu hyn. Wrth wneud hynny, ceisiodd y pwyllgor nodi fformat oedd yn gymesur ac yn addysgiadol ac felly fe gynhyrchodd Fframwaith Sicrwydd.

2.49 Defnyddiwyd y Fframwaith Sicrwydd yn 2016/17 i gofnodi a hysbysu'r Bwrdd o'r dystiolaeth y gallant ddibynnu arni i ddarparu sicrwydd iddynt parthed rhedeg yr Awdurdod a lliniaru risgiau.

2.50 Mae'r ddogfen yn gysylltiedig i'r gofrestr risg ac fe'i diweddarir yn rheolaidd.

Pwyllgor Craffu

2.51 Mae'r Pwyllgor Craffu yn derbyn adroddiadau ar ein gweithrediad craffu a goruchwylio o'r naw corff rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal ac yn darparu sicrwydd ansawdd ar benderfyniadau Adran 29 a'r rhaglen cofrestrau achrededig.

2.52 Cynhaliwyd tri chyfarfod Pwyllgor Craffu rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

2.53 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2016/17 fel a ganlyn:

Aelod o'r pwyllgor	**Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd**	**Posibl**
Ian Hamer*	2	2
Antony Townsend	3	3
Renata Drinkwater	3	3
Tom Frawley**	1	1

* Hyd at 31 Rhagfyr 2016
** O 1 Ionawr 2017

Penodiadau i gynghorau rheolyddion

2.54 Ym mhob un o'r tri chyfarfod, fe ystyriodd y Pwyllgor Craffu adroddiadau ar weithgaredd diweddar, yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd ynghylch prosesau mewnol yr Awdurdod a'i berthynas gyda rhanddeiliaid allanol yn cynnwys y Cyfrin Gyngor parthed y maes hwn o'i waith.

Adolygiad o benderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer (awdurdodaeth Adran 29 yr Awdurdod)

2.55 Ym mhob un o'r tri chyfarfod, adolygodd y Pwyllgor Craffu benderfyniadau a wnaethpwyd o ran cyfeirio i'r Llys/peidio cyfeirio i'r Llys penderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol unigol y rheolyddion i'r llys a wnaethpwyd mewn cyfarfodydd achos Adran 29. Ym mhob cyfarfod, adolygodd y Pwyllgor sampl o'r penderfyniadau hyn a gasglwyd trwy gydol y flwyddyn a chadarnhau ei fod yn fodlon o ran y broses a ddilynwyd. Yn Chwefror 2017, fe adolygodd y Bwrdd benderfyniad ar os dylid fod wedi cyfeirio achosion at gyfarfodydd achos hefyd. Roedd yn fodlon gyda'r prosesau a ddilynwyd.

2.56 Yn 2016, cymeradwyodd y Pwyllgor, ac yn dilyn hynny'r Bwrdd, beilot o brawf strwythuredig y gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol i benderfynu p'un a ddylid cynnal cyfarfod achos Adran 29 neu beidio. Er bod y peilot yn ddefnyddiol, mae wedi codi nifer o bryderon. Cytunodd y Pwyllgor (a'r Bwrdd wedi hynny) y dylid hepgor y prawf a bydd dull diwygiedig yn cael ei gynnwys gyda fersiwn wedi ei diweddaru o ddogfen Proses a Chanllawiau Adran 29 yr Awdurdod. Mae hyn wedi ei gwblhau.

Adolygiad perfformiad blynyddol y rheolyddion

2.57 Mae'r Pwyllgor Craffu wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y broses Adolygiad Perfformiad ac, yn benodol, unrhyw bryderon sydd wedi codi ym mlwyddyn gyntaf y broses newydd. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn fodlon gyda'r broses honno. Bydd yn adolygu sut wnaeth y broses yn y flwyddyn ariannol nesaf wedi i'r adolygiadau terfynol gael eu cwblhau.

Safonau Rheoleiddio Da

2.58 Mae'r Pwyllgor Craffu wedi bod yn ymwneud â gwaith i adolygu'r Safonau Rheoleiddio Da. Rhain yw'r Safonau mae'r Awdurdod yn defnyddio i asesu perfformiad rheolyddion ac maent nawr dros 10 mlwydd oed. Mae'r Awdurdod yn adolygu'r Safonau ac mae'r Pwyllgor wedi bod yn rhoi sylw ar y broses a materion allweddol sydd wedi codi. Bydd yn parhau i wneud hyn yn 2017.

Cofrestrau Achrededig

2.59 Cyflawnodd y Pwyllgor Craffu ei graffu ar y rhaglen Cofrestrau achrededig. Derbyniodd ddiweddariadau cynnydd ar geisiadau yn mynd trwy asesiadau cychwynnol, adolygiadau blynyddol o achrediad a hysbysiadau o newid.

2.60 Cafodd y pwyllgor hefyd wybod am y gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen.

Rheoliadau cynllun pensiwn

2.61 Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG, mae gennym fesurau rheoli i sicrhau y cydymffurfir â phob gofyniad ar gyflogwyr o fewn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod didyniadau o gyflogau, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i'r cynllun yn unol â'r rheolau a bod cofnodion cynllun pensiwn aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlen a fanylir yn y rheoliadau.

2.62 Mae diogelu data sydd yn ein meddiant a cheisiadau i'w ddatgelu yn parhau i fod yn ystyriaethau pwysig i ni.

2.63 Fel cyflogwr bach yn y GIG, nid oes gan yr Awdurdod fynediad ar-lein i Awdurdod Pensiwn y GIG (NHSPA). Rydym yn cyflwyno dogfennaeth bapur i'r NHSPA er mwyn iddynt allu diweddaru cofnodion ein staff a data arall.

2.64 Rydym wedi parhau i wneud trefniadau i gael mynediad ar-lein er mwyn gallu diweddaru'r cofnodion, yn arbennig felly cofnodion staff, mewn amser real.

Risg ac ansicrwydd

Ymagwedd

2.65 Yn ystod 2016/17 cynhaliom ddadansoddiad manwl o'r bylchau ar ein harferion rheoli risg yn erbyn arfer gorau'r diwydiant ar Reoli Risg.

2.66 Craffwyd ar y dull (proses a matrics system sgorio) a chofrestr risg, ac fe benderfynom ddiweddaru ein proses i alinio arfer gorau yn seiliedig ar iaith niwtral a diweddaru ein cofrestr risg i gynnwys meysydd coll.

2.67 Mewn gwirionedd, mae'r gweithredoedd hynny yn cyfateb i welliannau graddol yn hytrach na newidiadau ar raddfa eang i arferion rheoli risg yr Awdurdod, ac mewn termau ymarferol yn y gofrestr hefyd yn cipio'r amrediad llawn o risgiau – h.y. cyfleoedd yn ogystal â bygythiadau, a'r awydd neu ymateb angenrheidiol i risg.

Eitemau penodol yn ystod 2016/17

2.68 Roedd yr amserlen i bennu a chasglu ein hincwm ffioedd yn parhau i fod yn bryder i ni yn ystod 2016/17.

2.69 Mae'r camau a amlinellir yn y Rheoliadau Ffioedd yn golygu y bydd yr amserlen yn gyfyng ar gyfer yr Awdurdod a'r Cyfrin Gyngor pob tro. Roeddem yn falch bod y cylch wedi ei gwblhau o flaen llaw i'r amserlen oherwydd fe dalodd y rheolyddion yn brydlon gan olygu y daethom i ddiwedd blwyddyn ariannol 2016/17 gyda'r rhan fwyaf o'n hincwm ar gyfer 2017/18.

2.70 Mae ein Bwrdd yn parhau i fod ymwybodol o'r risgiau i'n llif arian pe byddai unrhyw oedi i'r ffioedd ac fe addasodd ei bolisi cronfeydd wrth gefn yn ein dogfen ymgynghori 2017/18. Mae'r polisi hwn wedi ei sefydlu yn y nodiadau i'r cyfrifon.

2.71 Yn ystod 2016/17 rydym wedi nodi amrywiol gyfleoedd i wella ein gweithrediadau ac felly wedi cychwyn ar raglenni cynhwysfawr o waith i ailddatblygu ein gwasanaethau cefnogaeth, adolygu ein strwythurau graddio a chyflogau a sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol sydd i ddod.

Trin data

2.72 Mae'n system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar Fframwaith Polisi Diogelwch Llywodraeth EM ac rydym yn parhau i fonitro ac adolygu ein cydymffurfiad gyda nhw.

2.73 Ychydig o wybodaeth bersonol a gedwir gennym. Mae'r prif ddata sydd gennym yn ymwneud â'n staff ein hun. Ble byddwn angen mynediad at ddata personol a gedwir gan eraill, fel arfer fe gyflawnir hyn yn eiddo deiliad y data. Rhaid i staff sy'n cyflawni archwiliadau yn rhan o adolygiadau perfformiad weithio trwy fynediad o bell i'n gweinydd ble bynnag fo'n bosibl. Gan nad yw hyn yn bosibl ar bob adeg, mae'r archwilwyr yn defnyddio gliniaduron wedi eu hamgryptio i ddarparu haen arall o ddiogelwch.

2.74 Mae staff yn cyflawni hyfforddiant ar-lein 'Amddiffyn Gwybodaeth' y llywodraeth. Mae'r hyfforddiant wedi ei rannu i dair lefel ac yn seiliedig ar asesiad.

2.75 Rhaid i'r holl staff gwblhau'r lefel sy'n briodol i'w lefel o gyfrifoldeb ar gyfer trin data. Pasiodd pob aelod o staff yr asesiad yn llwyddiannus yn 2016/17.

2.76 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi darparu datganiad ei bod yn fodlon bod gennym bolisïau priodol i'r staff ddilyn, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r Awdurdod, a bod prosesau priodol yn eu lle i liniaru risgiau i'n gwybodaeth.

2.77 Paratowyd y datganiad hwn wedi ystyriaeth o Asesiad Blynyddol yr Awdurdod o Reolaeth Risg Gwybodaeth ar gyfer 2016/17 a'r sicrwydd a geir trwy hynny.

2.78 Nid oes gennym unrhyw ddigwyddiadau data personol i adrodd arnynt.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Cwmpas y cyfrifoldeb

2.79 Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod wrth ddiogelu arian ac asedau sefydliadol yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Rwy'n dilyn y canllaw a sefydlwyd yn Managing Public Money.

2.80 Mae'r Awdurdod yn adrodd i Senedd y Deyrnas Unedig ac yn cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a gyda'r Adran Iechyd yn Lloegr, i gyflenwi'n hoblygiadau statudol ac amcanion allweddol ein cynllun busnes. Mae hyn yn cynnwys nodi ac ymateb yn briodol i risgiau mewnol ac allanol.

Pwrpas y system rheolaeth fewnol

2.81 Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i'r graddau y bo hynny'n rhesymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisïau, amcanion a nodau; felly, dim ond rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei wneud yn hytrach na sicrwydd llwyr.

2.82 Mae'r system o reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion sefydliadol, i werthuso'r tebygolrwydd y cyflawnir y risgiau hynny a'r effaith pe byddant yn cael eu cyflawni, ac i'w rheoli'n effeithiol, effeithlon ac economaidd.

2.83 Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol, ac yn cyd-fynd â chanllaw Trysorlys EM. Mae elfennau allweddol y system reolaeth fewnol yn cynnwys:

- Gweithdrefnau ariannol yn manylu rheoliadau ariannol ar gyfer cyfrifoldebau dros, ac awdurdodaeth a ddirprwywyd i, y tîm rheoli
- Prosesau cynllunio busnes yn sefydlu amcanion yr Awdurdod wedi eu cefnogi gan fanylion incwm blynyddol, gwariant, cyfalaf a chyllidebau llif arian
- Adolygiadau rheolaidd o berfformiad ynghyd ag adrodd amrywiant, cynllunio senario ac ail-ddarogan.

Adolygu effeithiolrwydd

2.84 Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Hysbysir fy adolygiad o waith yr archwilwyr mewnol, a'r Grŵp Cyfarwyddwyr, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y rheoliadau mewnol, a sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd wedi fy nghynghori o oblygiadau canlyniadau fy adolygiad ar y system o reolaeth fewnol. Eleni mae'r Pwyllgor Craffu wedi ystyried ein perfformiad yn erbyn ein safonau ein hunain o'n swyddogaethau statudol yn ofalus iawn.

2.85 Cynhaliwyd ac adolygwyd effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol trwy:

- Bwrdd yr Awdurdod, a gyfarfu chwech o weithiau
- Y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n cynnwys tri aelod o'r Bwrdd. Fe fynychais gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd ynghyd â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau, y Pennaeth Cyllid a chynrychiolwyr o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'n harchwilwyr allanol
- Trefniadau rheoli risg fel y disgrifiwyd, ble mae risgiau allweddol allai effeithio ar gyflawniad ein hamcanion wedi eu rheoli'n weithredol, gan adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a, thrwyddo, i Fwrdd yr Awdurdod
- Ein hasesiad blynyddol o reolaeth risg gwybodaeth a gyflawnwyd yn unol â chanllaw Swyddfa'r Cabinet
- Adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol, Grant Thornton, yn cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y llywodraeth
- Sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

2.86 Grant Thornton, archwilwyr mewnol y Ganolfan Rheolyddion, fu ein harchwilwyr mewnol ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ei adroddiad ar gyfer 2016/17:

'*...Nid yw'r un o'r archwiliadau wedi nodi unrhyw faterio sylfaenol nac arwyddocaol... Yn seiliedig ar gwmpas yr adolygiadau a gyflawnwyd a phrofi/gwerthuso penodol a gyflawnom yn ystod 2016/17, rydym wedi casglu bod y rheoliadau a brofom wedi eu cynllunio'n briodol ac yn gweithredu'n effeithiol ym meysydd llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheoliadau mewnol yn y ddau faes a adolygwyd eleni.*'

2.87 Nid wyf o'r farn fod gennym unrhyw wendidau arwyddocaol yn ein system o reoliadau mewnol. Mae rhaglen o fonitro parhaus yn bodoli, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Archwilio a Risg, archwilwyr mewnol ac archwilwyr allanol, i sicrhau ein bod yn bodloni safonau arfer gorau ym mhob maes o'n gweithrediadau.

2.88 Mae ein Fframwaith Sicrwydd yn cael ei monitro ynghyd â'r gofrestr risg gan y Grŵp Cyfarwyddwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd. Ystyrir dylanwadau mewnol ac allanol gan drafod unrhyw risgiau allai fod yn arwyddocaol gyda rhanddeiliaid allweddol cyn gynted ag y'i gwelir.

2.89 Rwy'n fodlon bod yr asesiad blynyddol o reoli risg gwybodaeth yn adlewyrchu'r risgiau gwybodaeth yr ydym wedi eu rheoli'n ddigonol a'n bod wedi ystyried risgiau yn y dyfodol. Ystyriaf ein bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i reoli risgiau gwybodaeth yn effeithiol. Rwy'n hyderus fod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i

storio, rhannu a dinistrio gwybodaeth yn ddiogel. Rwy'n fodlon bod y mân ddigwyddiadau risg gwybodaeth a ddigwyddodd eleni wedi eu rheoli'n briodol, y cymerwyd camau i unioni ac na ddatgelwyd na chollwyd unrhyw wybodaeth sensitif.

2.90 Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) y Llywodraeth 2016 - 2017 a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

2.91 Mae ein cyfrifon wedi eu paratoi yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 15 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

2.92 Sefydlir manylion Cynllun Pensiwn y GIG a thriniaeth o atebolrwydd pensiynau i'r cyfrifon yn nodiadau'r cyfrifon dan y polisïau cyfrifo (nodyn 1).

2.93 Rwy'n cadarnhau:

- Mae'r asesiad o reolaeth risg gwybodaeth wedi ei gwblhau'n foddhaol ac y gellir defnyddio'r wybodaeth ar gyfer ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Mae'r adroddiad a'r cyfrifon hyn ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy
- Rydym wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol fel y manylwyd yn DAO(GEN)02/12 – Datganiadau Llywodraethu cyn belled â'i fod yn berthnasol i ni
- Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohono, ac rydw i wedi cymryd pob cam i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- Rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol ar gyfer yr adroddiad a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i bennu ei fod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Harry Cayton
Swyddog Cyfrifyddu

9 Mehefin 2017

3. Adroddiad tâl ariannol a staff

Polisi tâl

Pwyllgor Tâl

3.1 Mae'r Pwyllgor Tâl fel arfer yn cwrdd unwaith y flwyddyn, neu'n amlach os oes angen, i ddelio â materion tâl eraill os ydynt yn codi.

3.2 Nid oes gan yr Awdurdod Bwyllgor Enwebiadau. Byddai'r Pwyllgor Tâl yn cyflawni'r rôl hon pe byddai'r angen yn codi.

3.3 Cynhaliwyd un cyfarfod Pwyllgor Cydnabyddiaeth rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Dangosir presenoldeb aelodau isod.

Aelod o'r Bwrdd	Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd	Posibl
George Jenkins OBE	1	1
Ian Hamer OBE***	1	1
Andrew Hind CB*	1	1
Frances Done CBE**	0	0
Thomas Frawley CBE**	0	0

* Hyd at 31 Rhagfyr 2016
** O 1 Ionawr 2017
***Yn parhau nes bydd aelod newydd yn dechrau Mai 2017

3.4 Dan drefniadau blaenorol gyda'r Adran Iechyd, mae recriwtio a dargadw staff wedi ei gyfyngu ers rhai blynyddoedd gan gyfarwyddiadau parthed cyflogau. Yn rhan o hyn, roeddem wedi ein hatal rhag talu codiad blynyddol a chawsom ymgodiad blynyddol i adlewyrchu cynnydd costau byw a bennwyd ar ein cyfer.

3.5 Yn dilyn annibyniaeth ariannol o'r Adran Iechyd, yn ystod 2016/17 cytunodd y Pwyllgor Tâl i gynnydd 1 y cant o gostau byw, ond mae hefyd wedi ymroi i adolygu graddau a bandiau cyflog staff yn sylfaenol er mwyn adlewyrchu eu gwir werth marchnad. Mae'r adolygiad hwn wedi ei gwblhau a bydd yn cael ei weithredu yn 2017/18.

3.6 Yn gyffredinol fe gynigir cytundebau parhaol. Os y'i cynigir ar sail cyfnod sefydlog, mae hyn i adlewyrchu natur a chyd-destun y gwaith dan sylw. Pennir y cyfnod hysbysiad gofynnol gan swydd y deiliad. Rydym yn edrych ar daliadau terfynu a darpariaethau iawndal ar gyfer terfynu fesul achos mewn ymgynghoriad â'n cynghorwyr.

Cytundebau uwch reolwyr

Enw	Teitl	Dyddiad cytundeb	Tymor heb ddod i ben	Cyfnod rhybudd
Harry Cayton	Prif Weithredwr	1 Awst 2007	Contract parhaol	6 mis
John McDermott	Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau	5 Medi 2016	Contract parhaol	3 mis
Mark Stobbs	Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd	3 Mai 2016	Contract parhaol	3 mis
Christine Braithwaite	Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi	17 Mai 2010	Contract parhaol	3 mis

Cyflogau uwch reolwyr

Enw	Cyflog 2016/2017 £′000	Taliadau treuliau (trethadwy) Cyfanswm £000	Tâl perfformiad a bonws £000	Hirdymor a bonws hirdymor £′000	Holl fuddion sy'n ymwneud â phensiwn	CYFANSWM 2016/2017 £′000
Harry Cayton	150-155	0	0	0	35-40	190-195
John McDermott	55-60***	0	0	0	10-15	65-70
Mark Stobbs	85-90***	0	0	0	20-25	105-110
Christine Braithwaite	95-100	0	0	0	20-25	115-120
Linda Allan	45-50****	0	0	0	15-20	60-65
Rosalyn Hayles	15-20****	0	0	0	10-15	30-35

Enw	Cyflog 2015/2016 £′000	Taliadau treuliau (trethadwy) Cyfanswm £000	Tâl perfformiad a bonws £′000	Tâl perfformiad a bonws hirdymor £′000	Holl fuddion sy'n ymwneud â phensiwn	CYFANSWM 2015/2016 £′000
Harry Cayton	150-155	0	0	0	45-50	200-205
Linda Allan	90-95	0	0	0	20-25	115-120
Rosalyn Hayles	95-100**	0	0	0	25-30	120-125
Christine Braithwaite	90-95	0	0	0	25-30	120-125

Mae'r holl ffigurau Cyflogau yn cynnwys lwfans dargadw o 5%
**Yn cynnwys taliad parthed gwyliau blynyddol na ddefnyddiwyd
***Ffigurau is oherwydd dyddiadau cychwyn canol y flwyddyn
**** Ffigurau is oherwydd dyddiadau gadael canol y flwyddyn

3.7 Mae'r tabl hwn wedi ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

3.8 Roedd pob uwch reolwr yn y flwyddyn yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG.

3.9 Mae cyfanswm ta cyn cynnwys cyflog a buddion cysylltiedig â phensiwn a gyfrifir yn unol â chanllaw Pensiynau y GIG,[32] sy'n ceisio meintoli'r cynnydd mewn buddion pensiwn yn y flwyddyn trwy gymharu'r buddion pensiwn cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn gyda'r rhai ar ddiwedd y flwyddyn. Ni chafwyd unrhyw gyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad heb ei gydgrynhoi, buddion mewn da na thaliadau diswyddo yn ystod 2016/17 na 2015/16.

[32] Datgeliad o Dâl Uwch Reolwyr (Greenbury) 2015

Pensiynau

Enw	Teitl	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500)	Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500)	Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2017 (bandiau o £5,000)	Cyfandaliad yn 60 oed yn gysylltiedig â phensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2017 (bandiau o £5,000)	Gwerth Trosglwyddo Cyfateb i Arian ar 1 Ebrill 2016 (i'r £1,000 agosaf)**	Gwerth Trosglwyddiad yn Cyfateb i Arian ar 31 Mawrth 2017 (i'r £1,000 agosaf)**	Cynnydd real yn y Gwerth Trosglwyddiad sy'n Cyfateb i Arian yn y flwyddyn a drodd (i'r £1,000 agosaf)**
Harry Cayton	Prif Weithredwr	2.5-5	0-2.5	30-35	20-25	517	558	41
John McDermott ***	Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau	0-2.5	Amh*	0-5	Amh*	0	7	7
Mark Stobbs***	Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd	0-2.5	Amh*	0-5	Amh*	0	20	20
Christine Braithwaite	Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi	0-2.5	2.5-5	15-20	50-55	359	410	51
Linda Allan **	Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau	0-2.5	Amh*	10-15	Amh*	154	178	24
Rosalyn Hayles*****	Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd	0-2.5	Amh*	5-10	Amh*	86	101	15

* Ddim yn berthnasol yng nghynllun 2008
** Hyd at 15 Medi 2016
*** O 3 Mai 2016
**** O 5 Medi 2016
***** Hyd at 25 Mai 2016

3.10 Mae'r tabl hwn wedi ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod
Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf prisiad yr actwari manteision cynllun pensiwn cronedig aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y manteision a brisir yw manteision cronnol aelodau ac unrhyw bensiwn cymar dilynol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau manteision pensiwn mewn cynllun arall

neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r manteision a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae a wnelo'r ffigurau pensiwn a ddangosir â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, ac nid dim ond y cyfnod a dreuliwyd mewn uwch swydd y mae'r datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigwr CETV – ac o 2005-2006 y manylion pensiwn eraill – yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi trosglwyddo i Gynllun Pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fanteision pensiwn atodol i'r aelodau yn deillio o brynu blynyddoedd atodol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun o'u poced eu hunain. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwari.

Cynnydd/(lleihad) real mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd/(lleihad) real yn CETV. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronnol oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr a'r cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin gwerthuso'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

3.11 Ni thalwyd unrhyw iawndal i gyn uwch reolwyr, na gwneud taliadau i drydydd parti ar gyfer gwasanaethau uwch reolwr.

3.12 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

3.13 Nid oedd gan unrhyw uwch reolwr dreuliau oedd yn amodol i dreth yn y Deyrnas Unedig.

Taliadau aelodau'r Awdurdod

3.14 Ers 1 Awst 2016, mae taliadau i'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn amodol i fudd-dal ymddeol.

3.15 Mae taliadau a wneir i'r Bwrdd hefyd yn amodol i ganllawiau Swyddfa'r Cabinet ac nid yw wedi cynyddu ers 2009/10. Mae'r Cadeirydd yn derbyn tâl o £33,688 y flwyddyn (2015/16: £33,688 y flwyddyn); mae aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth flynyddol o £7,881 (2015/16: £7,881) ac mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn cydnabyddiaeth flynyddol o £13,135 (2015/16: £13,135). Daeth cyfanswm taliadau i aelodau trwy gydol y flwyddyn i £91,515 (2015/16: £90,450) yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol a budd-dal ymddeol.

3.16 Mae tâl aelodau yn amodol i dreth ac yswiriant gwladol trwy TWE.

3.17 Yn ogystal, ad-dalwyd costau yn dod i £14,002 (2015/16: £10,942) i aelodau'r Bwrdd. Mae costau teithio yn gysylltiedig â theithio i swyddfeydd yr Awdurdod yn amodol i dreth sy'n cael ei dalu gan yr Awdurdod ar eu rhan, trwy gytundeb gyda HMRC.

3.18 Mae taliadau'r aelodau wedi eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

3.19 Datgelir taliadau a wnaed i aelodau unigol isod.

Taliadau a wnaethpwyd i aelodau Bwrdd yr Awdurdod yn ystod 2016/17

	Cyflog 2016/2017 (bandiau o £5,000)	2016/17 Costau teithio (bandiau o £5,000)	Cyflog 2015/2016 (bandiau o £5,000)	2015/16 Costau teithio (bandiau o £5,000)
Cadeirydd				
George Jenkins OBE	30-35	0-5	5-10	0-5
Aelodau				
Renata Drinkwater	5-10	0-5	5-10	0-5
Ian Hamer OBE***	5-10	5-10	5-10	0-5
Andrew Hind CB* (Cadeirydd Archwilio a Risg)	5-10	0-5	10-15	0-5
Frances Done CBE** (Cadeirydd Archwilio a Risg)	0-5	0-5	Amh	Amh
Stuart MacDonnell*	5-10	0-5	5-10	0-5
Thomas Frawley CBE**	0-5	0-5	Amh	Amh
Jayne Scott*	5-10	0-5	5-10	0-5
Moiram Ali**	0-5	0-5	Amh	Amh
Antony Townsend	5-10	0-5	5-10	0-5

* Hyd at 31 Rhagfyr 2016
** O 1 Ionawr 2017
*** yn parhau nes bydd aelod newydd y Bwrdd yn dechrau ym Mai 2017

3.20 Yn ystod 2016/17, roedd dau aelod o'r Bwrdd yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG. Roedd y swm a gyfrannwyd gan yr Awdurdod a'r aelodau fel a ganlyn (bandiau o £5,000):

- Andrew Hind 0–5
- Moiram Ali 0–5

3.21 Bydd manylion pensiwn llawn fel sy'n ofynnol gan FReM ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn cael eu datgelu o'r flwyddyn ariannol nesaf.

Adroddiad staff

3.22 Rydym oll yn ymroddedig i alluogi cyflogeion i gyflawni eu llawn botensial mewn amgylchedd a nodweddir gan urddas a pharch i'w gilydd. Mae ein polisïau

cyflogaeth yn ceisio creu gweithle ble gall pob cyflogai wneud ei orau, a chyfrannu i'n llwyddiant ni a'u llwyddiant eu hunain. Fe adolygir y rhain a'u diweddaru'n rheolaidd gydag arbenigwyr allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda deddfwriaeth.

3.23 Rydym wedi cadw gwasanaethau Right Corecare ac mae gan ein staff fynediad at gymorth a chwnsela os oes angen.

3.24 Rydym yn cydnabod manteision busnes cael gweithlu amrywiol ac yn ymroddedig i gynnal diwylliant ble mae amrywiaeth a chydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a ble na oddefir gwahaniaethu. Rydym yn gweithredu polisi dethol teg ac agored ar gyfer ceisiadau am gyflogaeth a dyrchafiadau mewnol.

3.25 Ceir rhagor o wybodaeth am y tîm o uwch reolwyr yn adran Taliadau'r adroddiad hwn.

3.26 Roedd ein trosiant staff, er yn llai na'r llynedd, yn dal i beri gofid o ystyried y golled arbenigedd, dealltwriaeth a sgiliau. Fodd bynnag, mae'r taliad dargadw yn gysylltiedig i gyfnodau rhybudd estynedig wedi cynorthwyo gyda throsglwyddo gwybodaeth, hwyluso trosglwyddo a lleihau'r amser pan fydd swyddi'n wag.

3.27 Yn rhan o'n cyfrifoldeb corfforaethol, rydym yn annog ein staff i gefnogi elusennau a sefydliadau cymunedol eraill. Mae staff yn ymwneud ar hyn o bryd gyda Comic Relief a phwyllgor moeseg ymchwil. Mae staff yn weithgar wrth godi arian ar gyfer nifer o achosion da.

Datgeliadau cyflogau teg

3.28 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf (yn ein hachos ni, y Prif Weithredwr) a thâl canolrif gweithlu'r Awdurdod.

3.29 Tâl y Prif Weithredwr yn y flwyddyn ariannol 2016/17 oedd £154,000. Roedd hyn 3.28 gwaith yn fwy na thâl canolrif y gweithlu, sef £46,902.

3.30 Tâl y Prif Weithredwr yn y flwyddyn ariannol 2015/16 oedd £152,500. Roedd hyn 3.28 gwaith yn fwy na thâl canolig y gweithlu, sef £46,438

3.31 Ni dderbyniodd unrhyw gyflogai dâl oedd yn fwy na'r Prif Weithredwr yn 2016/17 na 2015/16. Roedd tâl yn amrywio o £24,000 i £154,000 (2015/16: £26,000 i £153,000).

3.32 Yn 2016/17, roedd tri aelod o'r uwch dîm rheoli yn fenywaidd (50%) (2015/16 3 unigolyn 75%) tra ar y cyfan, roedd 33 o gyflogeion yn fenywaidd (64%) (2015/16 73%, 29 cyflogai).

3.33 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Absenoldeb salwch

3.34 Collwyd cyfanswm o 224 niwrnod (2015/16 264 niwrnod) o ganlyniad i absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 4.6 niwrnod (2015/16 6 niwrnod) y pen.

Polisïau yn ymwneud ag anabledd

3.35 Rydym yn ymroddedig i weithredu ein polisi cyfle cyfartal ar bob cam o recriwtio a dethol.

3.36 Rydym yn gweithio i sicrhau:

- Y penodir yr ymgeisydd mwyaf addas i bob swydd, gan dalu sylw i wir anghenion y swydd
- Fod y broses yn agored, teg a gonest
- Ein bod yn gwneud addasiadau rhesymol i drechu rhwystrau wrth gynnal cyfweliadau a chyflogaeth
- Y rhoddir cyfle cyfartal i bob ymgeisydd
- Yr asesir ymgeiswyr mewnol ac allanol ar sail yr un meini prawf dethol
- Y diddymir gwahaniaethu a rhagfarn o'r broses
- Y bodlonir amcanion cyfreithiol, ac y dilynir arferion cyflogaeth da
- Mae ein ffurflen gais yn darparu adran ble gall ymgeiswyr posibl gadarnhau p'un a ydynt yn ystyried eu hunain i fod ag anabledd neu beidio.

3.37 Os nodir hyn ar y ffurflen gais, bydd pob ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf isafswm ar gyfer swydd yn cael cyfweliad dan y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig.

3.38 Er ein bod yn ymroddedig i'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig, nid yw'r gofyniad hwn yn ymestyn i'r penderfyniad penodi, ble bydd yr unigolyn gorau ar gyfer y swydd yn cael ei benodi yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb.

Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Cyfartaledd nifer o bobl a gyflogir

3.39 Mae cyfartaledd y nifer o staff llawn amser a rhan amser a gyflogir (yn cynnwys staff dros dro) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	Cyflogir yn barhaol	Arall	Cyfanswm 2016/17	Cyflogir yn barhaol	Arall	Cyfanswm 2015/16
Cyfanswm	39.71	0.26	**39.97**	32.4	0.7	**33.1**

3.40 Ni chyflogwyd unrhyw staff ar brosiectau cyfalaf yn y cyfnod i 31 Mawrth 2017.

Costau personau a gyflogir

	Cyflogir yn barhaol	Arall	Cyfanswm 2016/17	Cyflogir yn barhaol	Arall	Cyfanswm 2015/16
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Cyflogau	2,094	-	2,094	1,717	-	1,717
Costau nawdd cymdeithasol	229	-	229	153	-	153
Costau pensiynau	253	-	253	180	-	180
Costau asiantaeth/ staff dros dro	-	16	16	-	47	47
	2,576	**16**	**2,592**	**2,050**	**47**	**2,097**

3.41 Mae'r tabl hwn wedi ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Adrodd cynlluniau Gwasanaeth Sifil a digolledu eraill: pecynnau gadael

3.42 Ni chododd unrhyw gostau diweithdra nac ymadael eraill yn y flwyddyn.

3.43 Ni chyflogwyd unrhyw bersonau oddi ar y gyflogres nac ar sail ymgynghorol yn ystod y flwyddyn.

3.44 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

4. Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwilio

Eglurhad

Colledion a thaliadau arbennig

4.1 Roedd colledion a thaliadau arbennig yn unigol ac yn gyfan gwbl islaw'r trothwy adrodd o £300,000.

Cysondeb gwariant

4.2 Mae'r Awdurdod yn gweithredu gyda phedwar ffrwd gwaith penodol a adlewyrchir yn segmentiad ein cyfrifon:

- Gwaith rheoleiddiol a gosod safonau – a delir amdano trwy ffioedd a gesglir gan y cyrff Rheoleiddio
- Cofrestrau Achrededig – hunan ariannu gyda chefnogaeth cymhorthdal gan yr Adran Iechyd
- Comisiynau gan Lywodraeth(au) – telir amdanynt gan y corff comisiynu
- Cyngor i sefydliadau eraill – enillir trwy ffioedd.

4.3 Rhoddir cyfrif ar gyfer yr incwm a gwariant ar gyfer pob segmentiad ar wahân ac rydym yn gweithio i sicrhau nad oes unrhyw draws gymorthdalu.

4.4 Fel yr adroddwyd mewn adran arall, mae ein harchwilwyr mewnol yn cyflawni adolygiad blynyddol o reolaeth ein cyllid parthed ein hegwyddorion busnes cyhoeddedig sydd ym mharagraffau 1.30-1.33.

4.5 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Ffioedd a thaliadau

4.6 Darparodd y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 i'r Awdurdod gael ei ariannu gan y cyrff rheoleiddio y mae'n eu goruchwylio.

4.7 Galluogodd y Ddeddf i'r Cyfrin Gyngor wneud rheoliadau yn gofyn i bob un o'r cyrff rheoleiddio sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i dalu ffioedd i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol parthed y swyddogaethau a gyflawnir gan yr Awdurdod fel y dynodir yn y rheoliadau. Cafodd yr ail ddeddfwriaeth, Rheoliadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015 (y Rheoliadau Ffioedd) ei gyflwyno gerbron y Senedd ar 27 Chwefror 2015 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2015.

4.8 Casglwyd y ffioedd cyntaf yn Nhachwedd 2015 ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2015 i 31 Mawrth 2016. Darparodd yr Adran Iechyd gyllid ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Gorffennaf 2015.

4.9 Y swyddogaethau o fewn cwmpas y Rheoliadau Ffioedd yw'r rhai o fewn ein ffrwd waith gyntaf; sef goruchwylio rheoleiddio a gwaith gwella a gyflawnwyd parthed cyrff iechyd proffesiynol a reoleiddir dan statud.

4.10 2016/17 oedd blwyddyn lawn gyntaf yr Awdurdod wedi ei gyllido'n bennaf trwy ffioedd. Bydd y cyfnod ffioedd ar gyfer 2017/18 o Ebrill i Fawrth yn cwmpasu'r un cyfnod â blwyddyn ariannol yr Awdurdod.

4.11 Rhoddir manylion y costau gweithredu cysylltiedig ar gyfer ein swyddogaeth rheoleiddio a gosod isod.

31 Mawrth 2017	Gwaith rheoleiddio a gosod safonau	Comisiynau gan Lywodraeth(au)
	£'000	£'000
Costau gweithredu	4,137	17
Incwm gweithredu	(4,176)	(17)
Costau gweithredu net	**(39)**	**-**

4.12 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Tueddiadau gwariant hirdymor

4.13 Y prif ysgogwyr a fydd yn dylanwadu ar ein hanghenion cyllidebol yn y dyfodol yw:

- Newidiadau i faint o waith sy'n rhaid i ni gyflawni, yn benodol y nifer o achosion Addasrwydd i Ymarfer a adolygir
- Newidiadau i ddeddfwriaeth sydd naill ai'n gosod dyletswyddau newydd arnom neu'n gofyn ein bod yn defnyddio mwy o adnoddau i gyflawni ein gwaith cyfredol o ganlyniad i newidiadau i brosesau a gweithdrefnau
- Newidiadau i ddeddfwriaeth y mae'n rhaid i ni fel busnes neu gyflogwr gydymffurfio â nhw
- Newidiadau a gyflwynir gennym
- Newidiadau i'n costau yn deillio o chwyddiant ac ati
- Newidiadau i incwm a gwariant y rhaglen cofrestrau achrededig.

Achosion adran 29

4.14 Gall y maes hwn o'n gwaith amrywio gryn dipyn ac felly mae'n anodd ei ragweld. Mae nifer o achosion yn cymryd dipyn o amser o'r dyddiad pan wneir cwyn i pan fyddant yn dod i'r Awdurdod, felly nid dim ond faint o waith a dderbynnir gan reolydd sydd angen ei ystyried, ond hefyd yr amser a gymer i'w prosesu sy'n dylanwadu ar lwyth gwaith yr Awdurdod.

4.15 Eleni gwelsom gynnydd yng nghyfanswm y nifer o benderfyniadau a dderbyniom gan baneli'r naw corff rheoleiddio a oruchwylir gennym (derbyniwyd 4,285 penderfyniad yn 2016/17, o gymharu gyda 3,756 penderfyniad a dderbyniwyd yn 2015/16). Cyflawnom adolygiadau achos manwl mewn 200 o achosion eleni, o gymharu â 157 a gyflawnwyd yn 2015/16.

4.16 Er bod staff yn gallu delio ag elfen o newid, mae'r ffaith ein bod angen bodloni dyddiadau cau statudol yn golygu y gall fod angen i ni gyflogi staff dros dro os bydd niferoedd yn codi'n annisgwyl. Yn ystod y cyfnod dan sylw, fe gyflogom aelod dros dro o staff i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni dyddiadau cau statudol, tra bod aelod o'r tîm Craffu ar absenoldeb mamolaeth. Os bydd y nifer o achosion yn parhau i godi, ac yn ystod cyfnodau arbennig o brysur, mae gennym drefniadau ar-

alwad yn eu lle gyda'n darparwyr cyfreithiol allanol i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni ein dyddiadau cau statudol.

Newidiadau i'n deddfwriaeth

4.17 Mae posibiliad y gallai newidiadau i ddeddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ein gwaith. Byddai cyflwyno newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth naill ai i ni neu'r rheolyddion yn gofyn am ddadansoddiad ac ystyriaeth. Mae yna gynigion ar gyfer newidiadau i reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ond nid yw'r rhain wedi eu datblygu i gyflwr fyddai'n galluogi'r Awdurdod i ystyried yr effaith ar ein gwaith neu wariant ar hyn o bryd.

4.18 Gan dybio fod ein llwyth gwaith yn dal yn gyson gyda'r flwyddyn gyfredol, nid ydym yn rhagweld newidiadau arwyddocaol i'n gwariant.

Harry Cayton CBE

Swyddog Cyfrifyddu

9 Mehefin 2017

5. Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol 2012. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a Staff a'r Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi'i archwilio.

Cyfrifoldebau priodol y Bwrdd, Swyddog Cyfrifyddu ac archwilydd

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad y Bwrdd a Chyfrifoldebau'r Swyddog Atebolrwydd, y Bwrdd a'r Swyddog Atebolrwydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gywir a theg. Fy nghyfrifoldeb fi yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Ymarferion Archwilio. Wrth weithredu'r Safonau Moesegol, fe nodais berthynas fusnes rhwng y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Datgelir rhagor o fanylion gyda Nodyn 4. Mae'r refeniw a dderbyniwyd yn anfaterol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac rwy'n ystyried bod mesurau diogelu priodol wedi eu gweithredu i ddiogelu fy ngwrthrychedd i a thîm y Swyddfa Archwilio trwy gydol yr archwiliad.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn casglu tystiolaeth ynglŷn â'r symiau a datguddiadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad materol, p'un a ydynt o ganlyniad i dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: p'un a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wnaed gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenais yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adolygiad o Reoleiddio a Chofrestru Proffesiynol gydag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon i nodi anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i adnabod unrhyw

wybodaeth sydd yn ymddangos yn faterol anghywir yn seiliedig ar, neu'n faterol anghyson â'r, wybodaeth a dderbyniais wrth gynnal yr archwiliad. Os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau materol ymddangosiadol neu anghysondeb rwy'n ystyried yr oblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Rhaid i mi gasglu digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant ac incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar gysondeb

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, mae'r gwariant ac incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg o gyflwr materion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y maent ar 31 Mawrth 2017 ac o gostau gweithredu net yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben; ac

- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a gyhoeddwyd dani.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w archwilio wedi eu paratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd eithriad arnynt

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd parthed y materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifo digonol neu na dderbyniwyd dychweliadau digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff a datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion neu ddychweliadau cyfrifo; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau rwyf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllaw Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Syr Amyas C E Morse **Dyddiad: 20 Mehefin 2017**
Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

6. Datganiadau ariannol – sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2017

		Mawrth 2017		Mawrth 2016	
	Nodyn	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau nad ydynt yn gyfredol					
Asedau anniriaethol	7	235		274	
Eiddo, offer a chyfarpar	8	115		87	
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol			***350***		***361***
Asedau cyfredol					
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	9	253		1,022	
Arian parod a chyfatebol i arian parod	10	5,425		4,579	
Cyfanswm asedau cyfredol			***5,678***		***5,601***
Cyfanswm Asedau			**6,028**		**5,962**
Rhwymedigaethau cyfredol					
Masnach ac elfennau taladwy eraill	11	(4,147)		(4,142)	
Darpariaethau	12	(7)		(7)	
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol			***(4,154)***		***(4,149)***
Asedau llai'r rhwymedigaethau			**1,874**		**1,813**
Wrth gefn					
Cronfa wrth Gefn Gyffredinol			**1,874**		**1,813**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 96 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Harry Cayton CBE
Swyddog Cyfrifyddu
9 Mehefin 2017

7. Datganiadau ariannol – gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

			Mawrth 2017 £'000		Mawrth 2016 £'000
Gwariant					
Costau staff	3		2,592		2,097
Costau gweinyddol eraill	4		1,928		1,873
Incwm					
Incwm Ffioedd	5		(3,855)		(2,690)
Incwm gweithredu	6		(555)		(595)
Costau gweithredu net			**110**		**685**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 96 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Gwariant net cynhwysfawr arall

7.1 Nid oedd unrhyw wariant net cynhwysfawr arall yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 (dim yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016)

8. Datganiadau ariannol – llif arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

	Nod yn	Mawrth 2017	Mawrth 2016
		£'000	£'000
Llif arian o weithgareddau gweithredol			
Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn		(110)	(685)
Addasiad ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian	4	95	89
Lleihad mewn masnach a derbynion eraill	9	769	(685)
Cynnydd mewn masnach ac elfennau taladwy eraill	11	5	3,812
Cynnydd/(Lleihad) mewn darpariaethau	12	-	(1)
Mewnlif (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol		***759***	***2,530***
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Pryniant eiddo, offer a chyfarpar	8	(84)	(63)
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi		***(84)***	***(63)***
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Cyllid grant gan yr Adran Iechyd:			
Incwm		171	1,396
Cyfalaf		-	20
Cyfleuster credyd a dderbyniwyd gan yr Adran Iechyd			
Refeniw – arian a ddygwyd i lawr		-	200
Refeniw – arian a ad-dalwyd		-	(200)
Cyllid Gweinyddiaethau Datganoledig:			
Yr Alban		-	15
Cymru		-	9
Gogledd Iwerddon		-	14
Llif arian net o weithgareddau ariannu		***171***	***1,454***
Ariannu net			
Cynnydd net mewn arian a chyfatebol i arian	10	846	3,921
Arian a chyfatebol i arian ar ddechrau'r flwyddyn ariannol	10	4,579	658
Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y cyfnod ariannol	10	**5,425**	**4,579**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 96 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

9. Datganiadau ariannol – newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

		Cronfa wrth gefn gyffredinol
		£'000
Balans ar 31 Mawrth 2015		**1,044**
Newidiadau mewn cronfa wrth gefn yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2016		
Costau gweithredu net		(685)
Cyllid grant gan yr Adran Iechyd:		
Incwm		1,396
Cyfalaf		20
Cyllid gan y gweinyddiaethau datganoledig:		
Yr Alban		15
Cymru		9
Gogledd Iwerddon		14
Balans ar 31 Mawrth 2016		**1,813**
Newidiadau mewn cronfa wrth gefn yn y flwyddyn ddaeth i 31 Mawrth 2017		
Costau gweithredu net		(110)
Cyllid grant gan yr Adran Iechyd:		
Incwm		171
Cyfalaf		-
Cyllid gan y gweinyddiaethau datganoledig:		
Yr Alban		-
Cymru		-
Gogledd Iwerddon		-
Balans ar 31 Mawrth 2017		**1,874**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 96 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

10. Nodiadau i'r cyfrifon

1. Polisïau cyfrifo

Sail paratoi

10.1 Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2016/17 a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

10.2 Mae'r polisïau cyfrifo sydd wedi eu cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'i haddaswyd neu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

10.3 Ble fo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo a fernir i fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Awdurdod i'r diben o roi golwg wir a theg.

10.4 Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod adrodd isod. Maent wedi eu gweithredu yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Dyfarniadau cyfrifo critigol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

10.5 Wrth gymhwyso polisïau cyfrifo'r Awdurdod, rhaid i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â chario symiau o asedau ac atebolrwydd nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

10.6 Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir i fod yn berthnasol.

10.7 Efallai y bydd y gwir ganlyniadau yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Adolygir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol yn barhaus.

10.8 Cydnabyddir adolygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn y cyfnod pan adolygir yr amcangyfrif os yw'r adolygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu yng nghyfnod yr adolygiad a chyfnodau yn y dyfodol sy'n adlewyrchu cyfnodau presennol ac yn y dyfodol.

10.9 Yn ystod y flwyddyn ni wnaethpwyd unrhyw ddyfarniadau nac amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol.

Asedau anniriaethol

Asedau anghyffwrddadwy a grëwyd yn fewnol

10.10 Cydnabyddir ased anghyffwrddadwy a grëwyd yn fewnol o weithgareddau a gwariant yr Awdurdod pan fydd yr holl amodau canlynol wedi eu bodloni:

- Crëir ased y gellir ei hadnabod (megis meddalwedd neilltuol)
- Mae'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu manteision economaidd yn y dyfodol
- Gellir mesur cost datblygu'r ased yn ddibynadwy.

10.11 Mesurir asedau annirweddol sefydlog ar gost a'u prisio yn defnyddio cost amnewid wedi dibrisio neu a bennir i fod yn gyfwerth ar gyfer gwerth teg. Ar gyfer asedau anghyffwrddadwy gyda bywydau defnyddiol cyfyngedig, cyfrifir amorteiddiad er

mwyn gallu dileu cost ased, llai ei werth gweddilliol a amcangyfrifir, dros ei fywyd economaidd defnyddiol.

10.12 Codwyd amorteiddiad cronfa ddata o'r dyddiad y dechreuwyd defnyddio'r ased, ac mae wedi ei amorteiddio ar sail llinell syth ers dros 10 mlynedd.

Asedau nad ydynt yn gyfredol

Eiddo, offer a chyfarpar

10.13 Cyfalafir asedau nad ydynt yn gyfredol ac eithrio meddalwedd cyfrifiadurol fel eiddo, peiriannau ac offer fel a ganlyn:

- Offer gyda gwerth unigol o £1,000, neu fwy
- Asedau mewn grŵp o natur debyg gyda gwerthu cytûn o £1,000 neu fwy
- Costau ailwampio gyda gwerth o £1,000 neu fwy.

10.14 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiad IFRS 13 ac yn unol â FReM wedi pennu bod cost hanesyddol dibrisiedig yn ddewis amgen addas i werth cyfredol mewn defnydd cyfredol neu werth teg ble mae gan yr ased oes economaidd ddefnyddiol byr neu os yw o werth isel. Nid yw mynegeio wedi ei gymhwyso ers 31 Mawrth 2008 gan na fyddai hyn yn faterol. Bydd gwerthusiad asedau yn cael eu hadolygu yn flynyddol, ar ddyddiad pob datganiad o safle ariannol, i sicrhau bod y gwerth i'w gario yn adlewyrchiad teg o'r gost bresennol.

10.15 Darperir dibrisiant ar sail linol, wedi ei gyfrifo ar y swm a ddatgelwyd i ddileu asedau, llai unrhyw falans gweddilliol a amcangyfrifir, yn ystod eu bywyd defnyddiol sy'n weddill.

10.16 Mae bywydau defnyddiol asedau nad ydynt yn gyfredol wedi eu hamcangyfrif fel a ganlyn:

- Dodrefn a gosodiadau yn ystod gweddill tymor prydles y llety
- Offer cyfrifiadurol – tair blynedd.

Mae'r rhain yn darparu adlewyrchiad realistig o fywydau'r asedau.

Codir dibrisiant o'r mis pan gaffaelwyd yr ased.

Arian yn y banc ac mewn llaw

10.17 Mae arian yn arian mewn llaw ac arian a gadwyd mewn unrhyw sefydliad ariannol sy'n ad-daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr.

Cyllid cymorth grant a chronfa wrth gefn cyffredinol

10.18 O 31 Gorffennaf 2015, nid oedd yr Awdurdod bellach yn cael ei ariannu trwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd.

10.19 Triniwyd refeniw cymorth grant a dderbynnir gan yr Adran Iechyd, ac a ddefnyddiwyd i ariannu gweithgareddau a gwariant i gefnogi amcanion statudol ac eraill yr Awdurdod fel cyfraniad gan blaid lywodraethol gan arwain at ddiddordeb ariannol yn y llog gweddillol yn yr Awdurdod, ac felly fe roddir cyfrif ohono fel ariannu trwy eu credydu yn uniongyrchol i'r gronfa ganolog ar sail arian a dderbyniwyd.

10.20 Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 derbyniodd yr Awdurdod gyllid gan yr Adran Iechyd a ddefnyddiwyd i ran-ariannu'r rhaglen cofrestrau achrededig.

10.21 Cafodd yr arian hwn ei ddosbarthu fel cymorth grant a'i gyfrifo fel cyllid trwy gredydu hyn yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol, triniaeth gyfrifo sy'n ofynnol gan FReM.

Polisi wrth gefn

10.22 Nid yw amseriad pennu ffioedd yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod ac os bydd unrhyw oedi wrth dderbyn yr incwm ffioedd, bydd yr Awdurdod yn wynebu problemau llif arian a gallai fod yn anodd bodloni ei ofynion gwariant a dyletswyddau statudol.

10.23 Mae'r materion llif arian yn gysylltiedig i dderbyn yr incwm ffioedd. Os na chwblheir y broses ymgynghori mewn pryd gan y cyfrin gyngor er mwyn pennu erbyn dechrau Mawrth, yna bydd yr Awdurdod yn wynebu'r posibiliad o fod heb incwm ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

10.24 Efallai y bydd rhaid i'r Awdurdod hefyd ddelio â diffygion ariannol yn deillio yn codi yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhaid amcangyfrif y gyllideb ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol cyn cychwyn yr ymarfer ymgynghori, a gan ei fod yn broses maith rhaid cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn flaenorol, felly gall fod amgylchiadau pan fydd rhaid i'r Awdurdod daclo gwariant annisgwyl yn ystod y flwyddyn wedi pennu'r ffi, er enghraifft, costau'n deillio o gynnydd yn ei lwyth gwaith, yr angen i gyflawni ymchwiliad neu newidiadau i ddeddfwriaeth.

10.25 Er bod gan yr awdurdod y pŵer i ymgynghori ar ffi atodol yn ystod y flwyddyn, mae'r amser y byddai hyn yn ei gymryd yn ei wneud yn anymarferol o ran ymdrin â materion o'r fath. Golyga ceisio ffioedd atodol hefyd y byddai gofyn i'r cyrff rheoleiddiol ddarparu cyllid nad oeddynt wedi cyllidebu ar ei gyfer, gan arwain at amrywiaethau yn eu cyllidebau eu hunain.

10.26 I ddarparu ar gyfer uchafbwyntiau gwariant annisgwyl a diffygion llif arian, ac i leihau'r posibiliad o fod angen casglu ffioedd atodol, mae'r Bwrdd wedi cytuno y dylai'r Awdurdod gadw lefel a gytunir o gyllid wrth gefn, a fyddai'n ddigonol i sicrhau y gall ddal i weithredu ie swyddogaethau statudol.

10.27 Bydd cael cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio hefyd yn diddymu'r angen i dalu ffioedd trefnu a lles ar unrhyw arian a fenthycwyd.

10.28 Cyflwynir y polisi isod:

- Mae'r Awdurdod wedi cytuno i gadw cronfa wrth gefn o gyfanswm o dri mis o gostau gweithredu, sef tua £1 miliwn, ble mae'r gwahaniaeth rhwng y canlynol wedi ei nodi
- Elfen gyfyngedig yn gysylltiedig i waith rheoleiddio a safonau
- Elfen anghyfyngedig yn gysylltiedig i holl waith yr Awdurdod
- Y bwriad yw, gydag amser, bydd yr elfen gyfyngedig yn cyfateb i gyfanswm o ddau fis o gostau gweithredu
- Nid yw lluniad cyfredol cronfeydd wrth gefn yn cydymffurfio â'r rhaniad dau draean/un traean hwn oherwydd bod y sefyllfa agoriadol yn cynnwys cyllid Cymorth Grant hanesyddol gan yr Adran Iechyd

- Bydd lefel a lluniad ein cronfeydd yn cael eu hadrodd trwy ein Hadroddiad Blynyddol
- Bydd angen rhoi unrhyw arian a gymerir o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn yn ôl yn y flwyddyn neu flynyddoedd dilynol
- Os bydd angen galw am ddefnyddio elfen gyfyngedig y cronfeydd wrth gefn, byddwn yn adrodd am hyn i'r cyrff rheoleiddiol ar bwynt priodol.

Incwm ffioedd

10.29 O 1 Awst 2015 mae'r Awdurdod wedi ei ariannu'n bennaf trwy ffioedd a delir gan y cyrff rheoleiddio. Mae hyn yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 a Rheoliadau yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015.

10.30 Dosbarthir derbynebau o ffioedd gan y cyrff rheoleiddiol fel incwm a'u cydnabod dros y cyfnod a gytunwyd yn y Rheoliadau Ffioedd. Bydd unrhyw warged yn cael ei ystyried wrth gyfrifo cyfraddau ffioedd yn y dyfodol i'r fath raddau nad yw'n angenrheidiol i gynnal lefel briodol o gronfa wrth gefn yn unol â pholisi wrth gefn yr Awdurdod.

Incwm gweithredu

10.31 Mae'r incwm gweithredu yn cynnwys: Adferiadau costau achosion Adran 29; incwm eiddo a dderbyniwyd gan is-denantiaid; ffioedd a dderbyniwyd o ddarparu gwasanaethau i aelodau eraill y gymuned rheoleiddio iechyd; a ffioedd achredu a dderbyniwyd gan ymgeiswyr y sector wirfoddol sydd eisiau cael eu hachredu.

10.32 Mae incwm cofrestrau achrededig yn cynnwys ffioedd achredu sefydlog na ellir eu had-dalu, sy'n daladwy pan fydd dogfennau cais wedi eu cyflwyno i'r Awdurdod, a ffioedd adnewyddu, sy'n daladwy pan ddaw blwyddyn yr achrediad i ben. Cydnabyddir incwm o ffioedd cychwynnol ac adnewyddu yn y datganiad cost gweithredu yn unol â chwblhau gwaith yr Awdurdod parthed y rhain.

Costau cymharol ac ail ddatganiadau

Costau ac adferiadau Adran 29

10.33 Dan ei rymoedd Adran 29, gall yr Awdurdod apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad disgyblu corff rheoleiddio. Codir costau'r Awdurdod wrth weithred apeliadau Adran 29 ar y datganiad gwariant net cynhwysfawr ar sail croniadau.

10.34 O ganlyniad i farnwriaeth a wneir gan y llysoedd, gellir dyrannu costau i'r Awdurdod os yw'r achos yn llwyddiannus, neu gellir dyrannu costau yn erbyn yr Awdurdod os collir yr achos. Ble dyrannir costau i, neu yn erbyn, yr Awdurdod, gellir diddymu neu leihau'r rhain yn hwyrach o ganlyniad i apêl lwyddiannus naill ai gan yr amddiffynnydd neu'r Awdurdod. Cyn ystyried naill ai incwm neu wariant, mae'r Awdurdod yn ystyried canlyniad tebygol pob achos yn ôl ei rinweddau felly.

10.35 Os dyrannir costau'r achos i'r Awdurdod, ni ddaw'r incwm i gyfrif oni bai bod dyfarniad terfynol diwrthwynebiad o blaid yr Awdurdod neu gytundeb rhwng pleidiau o'r gyfradd o gostau fyd yn cael eu talu a'u cyflwyno i'r llysoedd. Pan fydd achos wedi ei ennill od y canlyniad terfynol yn dal yn amodol i apêl, a'i bod yn debygol iawn y bydd yr achos cael ei ennill ar apêl a chostau'n cael eu dyfarnu i'r Awdurdod, fe ddatgelir ased amodol.

10.36 Yn achos costau a ddyrannir yn erbyn yr Awdurdod, cydnabyddir costau yn incwm a gwariant pan fydd dyfarniad diwrthwynebiad terfynol yn erbyn yr Awdurdod. Yn ogystal, os collwyd achos ond bod y canlyniad terfynol yn dal yn amodol i apêl, a'i bod yn debygol y bydd costau yn cael eu dyfarnu yn erbyn yr Awdurdod, cydnabyddir darpariaeth yn y cyfrifon. Ble'i bod yn bosibl ond nid yn debygol y bydd yr achos yn cael ei golli ar apêl ac y gallai'r Awdurdod fod yn amodol i gostau, neu ble a ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm sy'n daladwy, datgelir atebolrwydd amodol.

Treth ar Werth

10.37 Ni ellir adfer treth ar werth (TAW) ar bwrcasau, felly mae'n gost yn y datganiad gwariant net cynhwysfawr ac wedi ei gynnwys dan y pennawd perthnasol i'r math o wariant, na'i gyfalafu os yw'n ymwneud ag ased.

Costau budd-daliadau ymddeoliad

10.38 Mae cyflogeion presennol a gorffennol wedi eu cynnwys yn narpariaethau Cynllun Pensiynau'r GIG. Mae'r cynllun yn gynllun budd-daliadau diffiniedig, di-nawdd sy'n cwmpasu cyflogeion y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Ni fwriedir i'r cynllun gael ei redeg mewn unrhyw fodd fyddai'n galluogi cyrff y GIG i adnabod eu cyfran o'r asedau ac atebolrwydd sylfaenol y cynllun.

10.39 Felly, cyfrifir ar gyfer y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniad diffiniedig; cymerir y gost i'r GIG o gymryd rhan yn y cynllun fel cyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

10.40 Ar gyfer ymddeol yn gynnar, ac eithrio oherwydd salwch, ni ariennir y taliadau atebolrwydd pensiwn atodol gan y cynllun. Codir swm llawn yr atebolrwydd ar gyfer costau atodol i'r datganiad incwm ar yr un pryd ag y mae'r Awdurdod yn ymroi ei hun i ymddeoliad, waeth beth yw'r dull talu.

Prydlesau gweithredu

10.41 Rhoddir cost rhent sy'n daladwy dan brydlesau gweithredol ar y datganiad gwariant net cynhwysfawr ar sail gronnol.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), addasiadau a dehongliadau dan sylw ond nid eto'n effeithiol neu wedi eu mabwysiadu

10.42 Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS8), polisïau cyfrifo, newidiadau mewn amcangyfrifon a gwallau cyfrifyddu, yn gofyn am ddatgeliadau parthed IFRSau newydd, addasiadau a dehongliadau sydd, neu a fydd yn berthnasol wedi'r cyfnod cyfrifyddu. Mae yna nifer o IFRSau, addasiadau a dehongliadau a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol sy'n effeithiol ar gyfer datganiadau ariannol wedi'r cyfnod cyfrifo hwn. Nid yw'r canlynol wedi eu mabwysiadu'n gynnar gan yr Awdurdod:

- IFRS 15 – Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid
- IFRS 9 – Offerynnau ariannol
- IFRS 16 – Prydlesau
- IAS12 – Trethi incwm

- IAS 7 – Datganiad o lifoedd arian
- IFRS 2 – Taliadau seiliedig ar gyfranddaliadau.

10.43 Nid yw'r un o'r safonau a dehongliadau addasedig hyn yn debygol o fod yn berthnasol ac ni ragwelir y byddant yn cael effaith materol yn y dyfodol ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod.

Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd sydd wedi eu mabwysiadu'n gynnar

10.44 Nid yw'r Awdurdod wedi mabwysiadu unrhyw IFRSau, addasiadau na dehongliadau yn gynnar.

2. Dadansoddiad net o gostau gweithredu fesul segment

Dadansoddiad segmentau

10.45 Cododd costau gweithredu net i bedwar prif ffrwd gwariant yr Awdurdod fel a ganlyn. Nid yw'r Awdurdod yn cynnal datganiadau o safle ariannol ar wahân ar gyfer y ffrydiau hyn. Ni chafwyd unrhyw drafodion ar y cyd rhwng segmentau yn y flwyddyn.

31 Mawrth 2017	**Gwaith rheoleiddio a gosod safonau**	**Cofrestrau achrededig**	**Comisiynau gan Lywodraeth(au)**	**Cyngor i sefydliadau eraill**	**Cyfanswm**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Costau gweithredu	4,137	355	17	11	**4,520**
Incwm gweithredu	(4,176)	(215)	(17)	(2)	**(4,410)**
Costau gweithredu net	**(39)**	**140**	**-**	**9**	**110**
31 Mawrth 2016	**Gwaith rheoleiddio a gosod safonau**	**Cofrestrau achrededig**	**Comisiynau gan Lywodraeth(au)**	**Cyngor i sefydliadau eraill**	**Cyfanswm**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Costau gweithredu	3,507	364	24	75	**3,970**
Incwm gweithredu	(2,914)	(247)	(25)	(99)	**(3,285)**
Costau gweithredu net	**593**	**117**	**(1)**	**(24)**	**685**

10.46 Disgrifir gwaith y segmentau gweithredu hyn yn yr adroddiad perfformiad.

3. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Costau personau a gyflogir

	Cyflogir yn barhaol	Arall	Cyfanswm 2016/17	Cyflogir yn barhaol	Arall	Cyfanswm 2015/16
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau	2,094	-	2,094	1,717	-	1,717
Costau nawdd cymdeithasol	229	-	229	153	-	153
Costau pensiynau	253	-	253	180	-	180
Costau asiantaeth/ staff dros dro	-	16	16	-	47	47
	2,576	**16**	**2,592**	**2,050**	**47**	**2,097**

10.47 Ceir manylion llawn y materion hyn ar dudalennau 68-71 yn yr Adroddiad Staff.

4. Costau gweinyddol eraill

	Nodiadau	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
		£'000	£'000
Tâl aelodau		92	90
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol		800	662
Eiddo a pheiriannau sefydlog		549	575
Hyfforddiant a recriwtio		140	98
AD, cyfathrebu a chynadleddau		71	172
Costau sefydliadol		85	95
Ffi archwiliad allanol		19	19
Costau eraill		77	73
Gwariant nad yw'n arian parod:			
Amorteiddiad	7	39	39
Dibrisiant	8	56	50
Cyfanswm costau gweinyddol		**1,928**	**1,873**

* Gwnaeth yr Awdurdod daliadau o £308,683 (£283,654 yn 2015/16) i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am waith nad oedd yn waith archwilio parthed costau llety'r Awdurdod am ddefnydd o ofod swyddfa yn 157-197 Buckingham Palace Road, Llundain.

5. Incwm Ffioedd

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Incwm Ffioedd gan y Rheolyddion	3,855	2,690
Cyfanswm	**3,855**	**2,690**

10.48 Roedd incwm ffioedd a dderbyniwyd gan y GMC (£690k), NMC (1,743k) a'r HCPC (£859k) yn cyfateb i fwy na 10 y cant o gyfanswm refeniw y PSA yn unigol. Telir y ffioedd yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 a Rheoliadau yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015.

6. Incwm Gweithredu

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Adfer costau Adran 29	152	78
Incwm cofrestrau achrededig	215	197
Ffioedd o gwsmeriaid allanol	2	99
Incwm is-denantiaid	132	143
Incwm gweithredol arall	37	3
Incwm o Gomisiynau AI	17	25
Grant cofrestrau achrededig gan yr AI	0	50
Cyfanswm Incwm Gweithredol	**555**	**595**

7. Asedau Anniriaethol

31 Mawrth 2017	**Cronfa ddata Adran 29**
	£'000
Prisiad	
Ar 1 Ebrill 2016	393
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2016	119
Cost am y cyfnod	39
Ar 31 Mawrth 2017	158
Gwerth net yn y llyfrau	
Ar 31 Mawrth 2017	235
Ar 31 Mawrth 2016	274

31 Mawrth 2016	Cronfa ddata Adran 29
	£'000
Prisiad	
Ar 1 Ebrill 2015	393
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2015	80
Cost am y cyfnod	39
Ar 31 Mawrth 2016	119
Gwerth net yn y llyfrau	
Ar 31 Mawrth 2016	274
Ar 31 Mawrth 2015	313

8. Asedau nad ydynt yn gyfredol

Eiddo, offer a chyfarpar

31 Mawrth 2017	Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau	Offer TG	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Prisiad			
Ar 1 Ebrill 2016	151	351	502
Ychwanegiadau	2	82	84
Gwarediadau	(4)	(1)	(5)
Ar 31 Mawrth 2017	149	432	581
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2016	127	288	415
Newid yn y cyfnod	9	47	56
Gwarediadau	(4)	(1)	(5)
Ar 31 Mawrth 2017	132	334	466
Gwerth net yn y llyfrau			
Ar 31 Mawrth 2017	**17**	**98**	**115**
Ar 31 Mawrth 2016	**24**	**63**	**87**

10.49 Mae'r holl eiddo yn eiddo llwyr i'r Awdurdod heb unrhyw atebolrwydd ariannol cysylltiedig.

31 Mawrth 2016	Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau	Offer TG	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Prisiad			
Ar 1 Ebrill 2015	128	344	472
Ychwanegiadau	23	40	63
Gwarediadau	-	(33)	(33)
Ar 31 Mawrth 2016	151	351	502
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2015	116	282	398
Newid yn y cyfnod	11	39	50
Gwarediadau	-	(33)	(33)
Ar 31 Mawrth 2016	127	288	415
Gwerth net yn y llyfrau			
Ar 31 Mawrth 2016	**24**	**63**	**87**
Ar 31 Mawrth 2015	**12**	**62**	**74**

9. Derbyniadwyon masnach ac asedau cyfredol eraill

10.50 Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	54	844
Rhagdaliadau	199	178
Cyfanswm masnach a derbyniadwyon eraill	***253***	***1,022***

10.51 Nid oes unrhyw symiau masnach nac asedau eraill sy'n daladwy wedi mwy na blwyddyn.

Gweddill o fewn llywodraeth

10.52 Mae gweddill o fewn llywodraeth yn y cyfansymiau ar gyfer symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau presennol eraill fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Gweddillion gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill	20	23
Gweddillion gydag awdurdodau lleol	134	137
Cyfanswm gweddillion o fewn llywodraeth	**154**	**160**
Balansau gyda chyrff allanol i'r llywodraeth	99	862
Cyfanswm masnach a derbyniadwyon eraill	***253***	***1,022***

10. Arian parod a chyfatebol i arian parod

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2016	4,579	658
Newidiadau net mewn arian a chyfatebol i arian parod	846	3,921
Balans ar 31 Mawrth 2017	**5,425**	**4,579**
Roedd y balans canlynol wedi eu cadw yn:		
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	239	133
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	5,186	4,446
Balans ar 31 Mawrth 2017	**5,425**	**4,579**

11. Taladwyon masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

10.53 Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Masnach ac elfennau taladwy eraill	17	11
Trethu a nawdd cymdeithasol	64	50
Croniadau ac incwm gohiriedig	4,066	4,081
Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill	***4,147***	***4,142***

10.54 Nid oedd unrhyw symiau masnach taladwy nac atebolrwydd arall yn daladwy wedi mwy na blwyddyn.

Gweddill o fewn llywodraeth

10.55 Mae gweddill o fewn llywodraeth yn y cyfansymiau ar gyfer symiau masnach sy'n daladwy ac atebolrwydd presennol eraill fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Gweddillion gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill	79	53
Gweddillion gyda chyrff GIG	0	0
Cyfanswm gweddillion o fewn llywodraeth	**79**	**53**
Balansau gyda chyrff allanol i'r llywodraeth	4,068	4,089
Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill	***4,147***	***4,142***

12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Darpariaeth HMRC
	£'000
Balans ar 31 Mawrth 2016	7
Yn codi yn ystod y cyfnod	61
Darpariaeth a ddefnyddiwyd	(61)
Balans ar 31 Mawrth 2017	**7**

10.56 Mae'r ddarpariaeth HMRC ar 31 Mawrth 2017 yn cynrychioli atebolrwydd a amcangyfrifir yr Awdurdod ar gyfer treth incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol parthed costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd.

13. Nodyn cronfeydd cyffredinol atodol

	Elfen Anghyfyngedig Holl waith (Rheoleiddio a gosod safonau / cofrestrau Achrededig / Comisiynau gan Lywodraeth(au) / Cyngor i sefydliadau eraill)	**Elfen Gyfyngedig** (Gwaith rheoleiddio a gosod safonau)	**Cyfanswm**
	£'000	**£'000**	**£'000**
Balans ar 31 Mawrth 2016	951	862*	1,813
Newidiadau mewn cronfa wrth gefn yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2017			
Gwaith rheoleiddio a gosod safonau		39	39
Cofrestrau achrededig	(140)		(140)
Comisiynau gan Lywodraeth(au)		-	-
Cyngor i sefydliadau eraill	(9)		(9)
Addasiadau cyfrifo eraill			
Cymorth grant gan DH	171	-	171
Trosglwyddo cronfeydd ar gyfer recriwtio aelodau'r Bwrdd	(54)	54	-
Balans ar 31 Mawrth 2017	**919**	**955**	**1,874**

*Mae hyn yn cynnwys elfennau arian parod ac nid arian parod

14. Asedau ac atebolrwydd amodol

Asedau

10.57 Nid oedd yna unrhyw asedau amodol ar 31 Mawrth 2017 (dim ar 31 Mawrth 2016).

Rhwymedigaethau

10.58 Roedd yna wyth achos yn yr Uchel Lys, dan rymoedd Adran 29 yr Awdurdod, heb eu pennu ar 31 Mawrth 2017. Felly roedd ansicrwydd, ar y dyddiad hwnnw, o ran y canlyniadau ariannol cysylltiedig hyd nes y gwneir dyfarniad terfynol.

10.59 Gallai dyfarniad gan yr Uchel Lys ganiatáu adfer y costau hyn gan yr Awdurdod neu, godi tâl ar yr Awdurdod am gostau'r corff rheoleiddio a'i gofrestrydd.

10.60 Yn seiliedig ar gytundeb cyfredol gyda'r Adran Iechyd, mae £312k o'r hen Gyllid Cymorth Grant yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod i'w wario fel y cytunwyd gyda'r Adran ar sail barhaus, o ganlyniad yn y dyfodol gallai amgylchiadau godi ble byddai cyfran o'r swm hwn o bosibl yn daladwy i'r Adran Iechyd.

15. Ymrwymiadau cyfalaf

10.61 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar ddyddiadau'r datganiad safle ariannol.

16. Ymrwymiadau dan brydlesau

Prydlesau gweithredu

10.62 Mae costau'r Awdurdod yn cynnwys taliadau rhent a thâl gwasanaeth dan renti prydles gweithredol.

10.63 Roedd gan yr Awdurdod yr oblygiadau canlynol dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo:

Adeiladau	**31 Mawrth 2017**	**31 Mawrth 2016**
	£'000	**£'000**
Dim hwyrach nag un flwyddyn	297	297
Yn hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd	297	594
Cyfanswm ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol	**594**	**891**

10.64 Mae swm o £297k wedi ei gydnabod fel taliad prydles yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

10.65 Mae'r Awdurdod yn is-osod ei eiddo i ddau is-denant ac yn cydnabod derbynion rent a thâl gwasanaeth o is-osod fel incwm. Mae swm o £83k parthed y taliadau hyn wedi ei gydnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

10.66 Rhoddir cyfanswm isafswm derbynion les sy'n daladwy i'r Awdurdod dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod:

Isafswm derbynion is-osod yn y dyfodol	**31 Mawrth 2017**	**31 Mawrth 2016**
	£'000	**£'000**
Dim hwyrach nag un flwyddyn	83	83
Yn hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd	36	71
Cyfanswm isafswm derbynion is-osod	**119**	**154**

Prydlesau ariannol

10.67 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw brydlesau ariannol yn y cyfnod i 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2016.

17. Partïon cysylltiedig

10.68 Mae'r Awdurdod yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

10.69 Mae'r Awdurdod yn gorff cyhoeddus annosbarthedig. Fe'i hariannwyd a noddi gan yr Adran Iechyd hyd at 1 Awst 2015. Mae'r Adran hefyd wedi darparu cyllid i gefnogi'r cynllun cofrestrau achrededig ac i dalu am gyngor a gomisiynwyd gan yr Awdurdod. Ystyrir yr Adran Iechyd i fod yn barti cysylltiedig.

10.70 Yn ystod y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2017, darparodd yr Adran Iechyd gyfanswm cymorth grant o £0.17 miliwn (2015/16: £1.41 miliwn). Yn ogystal â hyn, yn ystod y cyfnod i 31 Mawrth 2017 mae'r Awdurdod wedi derbyn £17K gan yr Adran Iechyd parthed gwaith a gomisiynwyd (2015/16: £25K).

10.71 Ni dderbyniodd yr Awdurdod unrhyw gyfraniadau cyllid tuag at ei weithgareddau gan ei weinyddiaethau datganoledig yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru. Yn 2015/16, derbyniodd yr Awdurdod £14,000 gan Ogledd Iwerddon, £15,000 gan yr Alban ac £8,000 gan Gymru oedd yn berthnasol i'r flwyddyn flaenorol.

10.72 Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yn perthyn i grŵp yr Adran Iechyd ac fe'i cydnabyddir fel parti cysylltiedig. Yn ystod y cyfnod i 31 Mawrth 2017 mae'r Awdurdod wedi derbyn £0.88m parthed incwm ffioedd 2017/18 (2015/16 £0.86 miliwn parthed incwm ffioedd 2016/17) gan yr HCPC. Yn ogystal â hyn, mae'r Awdurdod wedi derbyn £41k gan HCPC parthed achosion Uchel Lys dan bŵer adran 29 yr Awdurdod.

10.73 Mae'r Awdurdod yn cynnal cofrestr o fuddiannau ar gyfer y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd, sydd ar gael ar y wefan. O bryd i'w gilydd, bydd yr Ysgrifennydd Gweithredol yn diweddaru'r gofrestr i adlewyrchu unrhyw newid ym muddiannau aelodau'r Bwrdd. Yn ystod y cyfnod ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, ni chyflawnodd unrhyw aelod drafodion partïon cysylltiedig gyda'r Awdurdod (ar wahân i'r adroddiad tâl a ddisgrifir uchod yn yr Adroddiad Tâl).

10.74 Gofynnwyd i'r uwch dîm rheoli hefyd ddatgelu unrhyw drafodion trydydd parti cysylltiedig. Yn ystod 2016/17, nid oedd unrhyw drafodion partïon cysylltiedig i'w datgelu (ar wahân i'r adroddiad tâl a ddisgrifir uchod yn yr Adroddiad Tâl).

18. Colledion a thaliadau arbennig

10.75 Roedd colledion a thaliadau arbennig yn unigol ac yn gyfan gwbl ymhell islaw'r trothwy adrodd o £300,000.

19. Ôl ddatganiad o ddigwyddiadau sefyllfa ariannol

10.76 Awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon hyn ar 20 Mehefin 2017 gan y Swyddog Cyfrifyddu.

10.77 Yn dilyn canlyniadau'r etholiad cyffredinol mae'r Awdurdod wedi ystyried pa effaith os o gwbl y gallai'r penderfyniad gael ar ei weithrediad. O ystyried natur ein gwaith, nid ydym yn credu y bydd unrhyw effaith arwyddocaol.

20. Arfau Ariannol

Rheoli risg ariannol

10.78 Mae safon adrodd ariannol IFRS 7 yn gofyn am ddatgelu rôl arfau ariannol yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid risgiau mae corff yn wynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

10.79 Os ystyried sut mae'r awdurdod wedi ei ariannu, a bod ganddo rymoedd cyfyngedig i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd dros ben, a bod ei asedau ac atebolrwydd ariannol wedi eu creu gan weithgareddau gweithredol dydd i ddydd, mae amlygiad yr Awdurdod i risgiau ariannol wedi ei leihau.

10.80 Mae dyledwyr a chredydwyr fydd yn aeddfedu neu'n daladwy o fewn 12 mis i ddyddiad y datganiad o safle ariannol wedi eu hepgor o bob datguddiad.

Risg arian tramor

10.81 Mae'r Awdurdod yn sefydliad domestig gyda'r mwyafrif helaeth o drafodion, asedau ac atebolrwydd wedi eu seilio yn y Deyrnas Unedig ac ar Sterling. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw weithredoedd dramor. Felly ni effeithir yr Awdurdod rhyw lawer gan amrywiaethau yn y gyfradd gyfnewid.

Risg cyfradd llog

10.82 Ni chafodd yr Awdurdod unrhyw fenthyciad ac fe dderbyniwyd y ffioedd gan y cyrff rheoleiddio yn 2015/16 ac yn gynnar yn 2016/17 felly roedd amlygiad yr Awdurdod i'r risg yma yn isel iawn. Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan yr Awdurdod falans arian parod nad yw'n dwyn llog o £5,424,583.74.

Risg credyd

10.83 Gan y daw'r rhan fwyaf o incwm yr Awdurdod o ffioedd statudol sy'n daladwy gan gyrff rheoleiddio, mae'r risg credyd i'r Awdurdod yn isel. Fodd bynnag, gallai amseriad derbyn yr incwm hwn o bosibl arwain at broblemau llif arian byr dymor. Mae'r Awdurdod yn lliniaru'r risg hon trwy gynnal lefel resymol o arian wrth gefn.

Risg dirwyn i ben

10.84 Mae'r Awdurdod yn dibynnu'n bennaf ar incwm ffioedd gyda ffioedd statudol yn daladwy ar gychwyn y flwyddyn ariannol, felly mae amlygiad yr Awdurdod i risg dirwyn i ben yn isel.

ISBN 978-1-4741-4559-6

Professional Standards Authority for Health and Social Care
157-197 Buckingham Palace Road
London SW1W 9SP

Ffôn: **020 7389 8030**
Ffacs: **020 7389 8040**E-bost: **info@professionalStandards.org.uk**
Gwefan: **www.professionalStandards.org.uk**

© Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mehefin 2017